

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

www.cymru.gov.uk

Rhif: 37/2012

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen



**Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:
Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen**

Trisha Maynard¹, Chris Taylor², Sam Waldron², Mirain Rhys², Robin Smith², Sally Power² a Jennifer Clement¹

(¹Prifysgol yr Eglwys yng Nghrist Caergaint)

(²Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd)



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Launa Anderson

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5274

E-bost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-0-7504-8081-9

© Hawlfraint y Goron 2013

Tabl cynnwys

Geirfa byrfoddau	i
Crynodeb Gweithredol	ii
1 Cyflwyniad	1
2 Cyd-destun, Rhesymwaith a Nodau'r Cyfnod Sylfaen	8
3 Adeiladu Theori Rhaglen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen	18
4 Y Cyfnod Sylfaen: Y Theori Rhaglen	31
5 Mewnbynnau, Prosesau a Gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen	60
6 Allbynnau, Canlyniadau ac Effeithiau'r Cyfnod Sylfaen	66
7 Model Rhesymeg Polisi: Trafodaeth a Chasgliadau	70
Cyfeiriadau	85
Atodiad A. Fframwaith ar gyfer Dadansoddi Dogfennaeth y Cyfnod Sylfaen .	91
Atodiad B. Dadansoddiad Manwl o Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen	93

Mynegai Ffigurau

Ffigur 1: Model Rhesymeg Polisi (Fersiwn 1) ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen.....	1
Ffigur 2: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen	3
Ffigur 3: Gweithgarwch wedi'i ddechrau gan y Plentyn ac wedi'i ddechrau gan yr Ymarferwr/Gweithgarwch dan gyfarwyddyd yr Ymarferwr	43
Ffigur 4: Model Datblygu'r Cwricwlwm (Powerpoint DPY, Sleid 93).....	45

Mynegai Tablau

Tabl 1: Y Dogfennau a Ddadansoddwyd a'r Acronymau a Ddefnyddiwyd	36
Tabl 2: Gwahaniaethu rhwng Dulliau wedi'u dechrau gan y Plentyn, wedi'u dechrau gan yr Ymarferwr a Dulliau dan gyfarwyddyd Ymarferwr	48
Tabl 3: Cymhariaeth rhwng y Cyfnod Sylfaen a DAP (Cymerwyd gwybodaeth am DAP o NAEYC (2009)).....	80

Geirfa byrfoddau

ACCAC	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales)
MD	Maes Dysgu
DC	Datblygiad Creadigol
PADP	Proffil Asesu Datblygiad Plentyn
DAP	Arfer sy'n Briodol i Ddatblygiad
APADGOS	Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
CD	Canlyniadau Dymunol
ELP	Modiwl Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar becyn hyfforddi Dysgu Profiadol yn Ymarferol (2007)
AB	Addysg Bellach
CS	Y Cyfnod Sylfaen
AU	Addysg Uwch
CA1	Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol
CA2	Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol
CA3	Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol
CA4	Cyfnod Allweddol 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol
GDB	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
DacA	Addysgeg Dysgu ac Addysgu
ILiCh	Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
FfLIRh	Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
DM	Datblygiad Mathemategol
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CC	Y Cwricwlwm Cenedlaethol
AP	Arsylwi ar blant
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
DAA	Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored
Ch/G	Chwarae/Dysgu Gweithredol
PD	Datblygiad Corfforol
DPChLIADd	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
GCR	Grant Cymorth Refeniw
FfS	Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 Oed
TLRP	Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
SHC	Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth
CCUHP	Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
WISERD	Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data Dulliau Cymru
DG	Datblygu'r Gymraeg
pdp	parth datblygiad procsimol

CRYNODEB GWEITHREDOL

Nodau a Chwmpas

1. Polisi blaenllaw Llywodraeth Cymru ar addysg y blynyddoedd cynnar (ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed) yng Nghymru yw'r Cyfnod Sylfaen. Trwy nodi gwriad radical oddi wrth y dull mwy ffurfiol, yn seiliedig ar gymhwysedd oedd yn gysylltiedig â Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol Cyfnod Allweddol 1, mae'n eirioli dull datblygiadol, arbrol, yn seiliedig ar chwarae o addysgu a dysgu. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi* (CCC 2001a) yn nodi mai bwriad Cymru, ar ôl datganoli, oedd pennu ei chyfeiriad polisi ei hun er mwyn 'cael y gorau i Gymru'. Roedd yn ymddangos bod cael y gorau i Gymru yn golygu bodloni heriau'r farchnad fyd-eang (gan godi lefelau sgiliau sylfaenol¹); goresgyn anfantais gymdeithasol; adeiladu cymdeithas gref a mentrus sy'n croesawu amlddiwylliannaeth; a hyrwyddo iaith a thraddodiadau Cymru. Ystyrir bod cyfranogi yn ddull allweddol.
2. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau o'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac arweiniwyd gan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD).
3. Nod yr adroddiad hwn yw datblygu model rhesymeg polisi sy'n amlinellu amcanion a chanlyniadau bwriadedig y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys y cyd-destun ar gyfer ei gyflwyno, y theori, y rhagdybiaethau a'r dystiolaeth sy'n sail i'w resymwaith, ei gynnwys a'i fewnbynnau allweddol. Fe'i cynlluniwyd i gynorthwyo yn y gwerthusiad parhaus o'r polisi.
4. Mae'r model rhesymeg polisi hwn yn deillio o archwiliad o'r ddogfennaeth sydd ar gael yn ymwneud â sefydlu, datblygu, cynllunio a chynnwys, a rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, ac yn darparu'r hyn y gellir ei alw yn 'ymdriniaeth swyddogol' â'r Cyfnod Sylfaen, yn unol â'r hyn a amlinellir gan Lywodraeth Cymru.
5. Mae nifer o ddamcaniaethau pwysig yn ymwneud â datblygiad ac addysg gynnar plentyndod yn sail i'r Cyfnod Sylfaen. Felly, er mwyn deall

¹ Gelwir hyn yn llythrennedd a rhifedd bellach yn nogfennau polisi Llywodraeth Cymru.

cyd-destun, rhesymwaith a chynllun y Cyfnod Sylfaen yn llawn, mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu ei 'theori rhaglen' yn fanwl. Mae hyn yn darparu'r rhesymwaith ar gyfer dull, addysgeg a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, er ei fod hefyd yn ategu ei gyd-destun, ei nodau a mewnbynnau eraill.

6. Dylid ystyried mai model rhesymeg polisi dros dro yw'r un a gyflwynir yma; mae'n cynrychioli fersiwn gychwynnol o'r model. Rydym yn disgwyl y bydd y model yn cael ei fireinio trwy gydol y broses gwerthuso, gan arwain o bosibl at ail fersiwn tuag at ddiwedd y gwerthusiad tair blynedd.
7. Caiff y model rhesymeg polisi cychwynnol ei grynhoi yn Ffigur 1, ac mae'n cynnwys yr elfennau canlynol, yn unol â'r hyn a amlinellir yn Llyfr Magenta Trysorlys EM ar gyfer gwerthuso polisi cyhoeddus:
 - amodau a phroblemau cyd-destunol
 - nodau ac amcanion
 - rhesymwaith
 - mewnbynnau
 - prosesau a gweithgareddau
 - allbynnau a chanlyniadau canolraddol
 - canlyniadau
 - effeithiau.
8. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro yn unol â'r model rhesymeg polisi cychwynnol hwn. Ar ôl cyflwyniad i'r Cyfnod Sylfaen a'r adroddiad hwn, mae Pennod 2 yn amlinellu ac yn trafod cyd-destun, rhesymwaith a nodau'r Cyfnod Sylfaen, yn unol â'r hyn a gyflwynir yn yr 'ymdriniaeth swyddogol'. Mae'r bennod hon yn dechrau amlygu pwysigrwydd theori rhaglen wrth ddeall y Cyfnod Sylfaen. Mae Pennod 3, felly, yn rhoi manylion ar y modd yr ydym yn pennu'r theori rhaglen cyn cyflwyno a thrafod theori'r rhaglen hon ym Mhennod 4. Mae Pennod 5 yn parhau i amlinellu'r model rhesymeg polisi trwy bwysleisio mewnbynnau, prosesau a gweithgareddau allweddol y Cyfnod Sylfaen. Dilynir hyn ym Mhennod 6 trwy gyflwyno allbynnau, canlyniadau ac effeithiau bwriadedig y Cyfnod Sylfaen. Mae'r bennod olaf, sef Pennod 7, yn dechrau disgrifio a thrafod rhai o'r materion allweddol sy'n deillio o ddatblygu'r model rhesymeg

polisi cychwynnol, gan gynnwys cwestiynau am natur, diffiniad, cynnwys a goblygiadau ehangach y Cyfnod Sylfaen.

Cyd-destun, Rhesymwaith a Nodau'r Cyfnod Sylfaen

9. Mae dogfen ymgynghori'r Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at 'ddiffygion' yn nosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar (yn enwedig defnyddio cwricwlwm ac addysgeg rhy ffurfiol mewn dosbarthiadau derbyn) ac mae'n amlinellu prif nodau'r Cyfnod Sylfaen a sut y dylid eu cyflawni. I bob pwrpas, gwnaed hyn trwy ddarparu gweithgareddau sy'n briodol i ddatblygiad, mabwysiadu addysgeg anffurfiol ac integreiddio Canlyniadau Dymunol (CD) gyda rhaglenni astudio a datganiadau ffocws yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1.
10. Nodir gwledydd eraill nad ydynt yn y DU, lle mae dulliau ffurfiol o ddysgu yn cael eu gohirio nes bod plant yn hŷn; gellid ystyried bod y rhain yn cynnig enghreifftiau o arfer gorau yn y maes hwn.
11. Ystyrir bod paratoi ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 yn bwysig hefyd, ochr yn ochr â'r angen i sefydlu'r sylfeini angenrheidiol ar gyfer agweddau gwell at ddysgu ymhlith dysgwyr trwy gydol eu haddysg gyfan ac yn wir ar gyfer bywyd. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfeiriadau at yr achosion neu'r esboniadau a allai fod yn sail i lefelau cyffredinol a gwahaniaethol cyflawniad addysgol yn y blynyddoedd cynnar.
12. Mae prif nodau'r Cyfnod Sylfaen wedi eu hamlinellu'n swyddogol fel a ganlyn:
 - codi safonau cyflawniad plant
 - gwella eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu
 - mynd i'r afael â'u hanghenion datblygol
 - eu galluogi i elwa ar gyfleoedd addysgol yn ddiweddarach yn eu bywydau
 - eu helpu i ddod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau.
13. Yn yr ymdriniaeth swyddogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, nid oes amcanion manylach na thargedau cysylltiedig wedi'u hamlinellu.

14. Yn y cynigion gwreiddiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, awgrymwyd bod angen dull newydd o addysgu a dysgu plant ifanc, ond ni chofnodwyd yr un dyluniad na model o'r achos i'r effaith ar gyfer y dull newydd hwn cyn ei gyflwyno. Fodd bynnag, at ddibenion y gwerthusiad hwn, mae angen ceisio amlinellu'r dull hwn yn eglur. Cyfeiriwn at hyn fel theori rhaglen y Cyfnod Sylfaen, ac fe'i datblygir trwy ddadansoddiad manwl o ddeunyddiau a dogfennaeth y Cyfnod Sylfaen.

Theori Rhaglen y Cyfnod Sylfaen

15. Er mwyn datblygu fframwaith i gefnogi'r dadansoddiad o ddogfennaeth y Cyfnod Sylfaen, archwiliwyd dau ddull eang gennym yn gyntaf yr ystyrir eu bod fel arfer yn cynrychioli arfer 'da' ym maes addysg plentyndod cynnar, sef: traddodiad 'sy'n canolbwyntio ar y plentyn' yn y blynyddoedd, sydd wedi'i ategu gan theori luniadaethol/ddatblygiadol, a rhaglenni Reggio Emilia yn Yr Eidal, Seland Newydd (Te Whāriki) a Sgandinafia sy'n cael eu hategu gan ddamcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol. Nodir bod y rhaglenni hyn yn cynnwys fframweithiau/cwricwla ymddangosol/ cyffyrddiad ysgafn.
16. Dadansoddiwyd 'Fframwaith y Cyfnod Sylfaen'; 'Addysgeg Dysgu ac Addysgu'; 'Chwarae/Dysgu Gweithredol'; 'Arsylwi ar blant'; a dogfennau arweiniad yn ymwneud â phob un o'r Meysydd Dysgu (MD). Ystyriwyd y pecyn hyfforddi 'Dysgu Drwy Brofiad ar Waith', y 'Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored', y 'Fframwaith Sgiliau' a'r 'Cwricwlwm Cenedlaethol' a'r dogfennau 'Canlyniadau Dymunol' hefyd. Roedd y dadansoddiad yn cynnwys nifer o haenau, roedd yn ailadroddol ac yn ymatblyg: hynny yw, cafodd dogfennau eu dadansoddi nifer o weithiau ac mewn ffyrdd gwahanol i'n galluogi i egluro, gwirio ac ailwirio materion ac ystyron o fewn y ddogfennaeth ac ar ei thraws, ac ailystyried a chwestiynu ein rhagdybiaethau cychwynnol. Ystyriwyd canfyddiadau mewn perthynas â 'dull', 'addysgeg' a'r 'cwricwlwm'.
17. Dull: Gwelwn fod y dull sy'n ategu'r Cyfnod Sylfaen yn amlwg yn ddatblygiadol, gyda ffocws clir ar y plentyn unigol. Gwelir bod datblygiad yn llinol yn ei hanfod, er nad yw ynghlwm wrth oedran cronolegol, a'i fod yn cydnabod amrywiadau unigol o ran cyfradd o fewn ac ar draws yr holl

feysydd datblygu a dysgu. Mae'r dull hwn yn ymwneud yn fras â theori dysgu luniadaethol.

18. Addysgeg: Gwelwn fod agweddau ar addysgeg a awgrymwyd hefyd yn adlewyrchu theori luniadaethol er bod syniadau sy'n cyd-fynd â safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol yn cael eu pwysleisio – er enghraifft, nodir rôl glir ar gyfer yr ymarferwr o ran cefnogi dysgu a datblygiad plant. Fodd bynnag, ymddengys bod syniadau cymdeithasol-ddiwylliannol megis grymuso a chwarae yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi dysgu effeithiol yn hytrach na chael eu hystyried yn 'hawl' neu fel ffordd o hyrwyddo twf personol. Yn yr un modd, o edrych arnynt drwy lens gymdeithasol-ddiwylliannol, gallai cysylltiadau gyda'r cartref gael eu gweld yn 'ymyrraeth gynnar' yn hytrach na fel partneriaeth ddeugyfeiriadol ddilys.
19. Efallai mai her gychwynnol i ymarferwyr yw nodi'r hyn y mae terminoleg allweddol yn ei olygu – mae hyn yn cynnwys, 'chwarae strwythuredig', 'dysgu gweithredol' ac yn arbennig, dysgu 'wedi'i ddechrau gan y plentyn' a dysgu 'dan gyfarwyddyd ymarferwr' – ac wrth bennu'r cydbwysedd a awgrymir rhwng y ddwy strategaeth hon. Gallai hyn fod yn arwyddocaol iawn ym mlwyddyn olaf y Cyfnod Sylfaen. Yn ychwanegol, nodir nifer fach o anghysondebau o ystyried datblygiadau diweddar mewn niwrowyddoniaeth a'i chymhwyso i addysg.
20. Cwricwlwm: Gwelwn fod disgrifwyr Maes Dysgu (MD) a dogfennau arweiniad yn adlewyrchu ymrwymiad i ddull datblygiadol ac i addysgeg luniadaethol a chymdeithasol-ddiwylliannol, i raddau mwy neu lai. Adlewyrchir safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol hefyd trwy roi 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' yn ganolbwynt i'r Cyfnod Sylfaen.
21. Yn y Fframwaith, mae datganiadau ffocws cychwynnol ar gyfer pob maes dysgu yn tueddu i bwysleisio cynnwys a ffyrdd o weithio sy'n berthnasol i gyfnodau cynharach y 'continwmm dysgu', gan gyfeirio dim ond yn fras at sgiliau lefel uwch mwy cymhleth. Gallai hyn awgrymu pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth gysyniadol gynnar ar draws y Cyfnod Sylfaen a dull 'cyffyrddiad ysgafnach' ar gyfer y cwricwlwm statudol. Fodd bynnag, mae datganiadau 'sgiliau ac ystod' ac, yn benodol, y dogfennau

arweiniad, yn llawer mwy eglur wrth roi manylion am gynnwys sy'n gysylltiedig â phwnc a dilyniant plant mewn perthynas â hyn. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn 'Datblygiad Mathemategol' ac yn arbennig 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'. Gallai hyn awgrymu y dylid rhoi pwyslais penodol ar y meysydd dysgu hyn.

22. Er mwyn cael dealltwriaeth fanylach a mwy cyfannol o'r Cyfnod Sylfaen, nodir bod angen archwilio ystod o ddogfennau: dosberthir elfennau o'r dull a'r addysgeg ar draws amryw gyhoeddiadau. Dengys y dadansoddiad presennol o ddogfennaeth y Cyfnod Sylfaen nad oes unrhyw eglurhad clir ar gyfer dull ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen y gallai ymarferwyr ei ddefnyddio.

Mewnbynnau, Prosesau a Gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen

23. Yn sgil y Cyfnod Sylfaen, daeth yn statudol i gyflwyno saith Maes Dysgu, sef:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLIADd)
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh)
- Datblygiad Mathemategol (DM)
- Datblygu'r Gymraeg (DG) (mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg)
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB);
- Datblygiad Corfforol (DCorff)
- Datblygiad Creadigol (DCre).

24. Mae datganiadau ffocws rhagarweiniol ar gyfer pob maes dysgu yn tueddu i bwysleisio dulliau y gellid eu mabwysiadu mewn cyfnodau cynharach o'r 'continwrm dysgu', gan gyfeirio'n fras yn unig at sgiliau cymhleth, lefel uwch.

25. Mewnbyn allweddol arall yw'r Asesiad Statudol ar Ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, a geir trwy asesiad athro.

26. Mae'r prif fewnbyn ariannol yn y Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â chymarebau newydd (uwch) oedolyn i blentyn –1:8 mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn; 1:15 ym Mlynnyddoedd 1 a 2. Trefnwyd bod adnoddau

ychwanegol ar gael i ysgolion hefyd i ddatblygu eu hamgylcheddau dysgu yn yr awyr agored.

27. Datblygwyd modiwlau hyfforddi newydd ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys recriwtio Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth ym mhob awdurdod lleol. Darperir y rhan fwyaf o gymorth a hyfforddiant ar gyfer staff presennol trwy awdurdodau lleol, a'u hymgynghorwyr blynyddoedd cynnar. Caiff cynadleddau blynyddol ychwanegol eu trefnu gan Lywodraeth Cymru hefyd.
28. Cyflwynwyd Proffil statudol ar gyfer Asesu Datblygiad y Plentyn yn wreiddiol i roi mesuriad gwaelodlin o ddatblygiad y plentyn. Fodd bynnag, tynnwyd hwn yn ôl yn ystod 2011/12 yn dilyn pryderon ynghylch pa mor addas i ddiben ydoedd a'r hyd amser yr oedd yr asesiad yn ei gymryd. Bydd offeryn gwaelodlin newydd yn cael ei ddatblygu cyn bo hir.
29. Dechreuwyd rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith gyda Chyfnod Peilot yn 2004/05 mewn 22 o ysgolion a 22 o leoliadau nas cynhelir a ariennir. Gohiriwyd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn derfynol i'r holl ysgolion a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir o'r amserlen wreiddiol tan 2008/09. Yn y cyfamser, caniatwyd i 22 o ysgolion a 22 o leoliadau nas cynhelir a ariennir ychwanegol gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn 2006/07 i gysylltu â rhaglen Dechrau'n Deg, sef ymyrraeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd a chymunedau dan anfantais. Ym mhob cyfnod, cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn ddilyniannol i un neu ddwy garfan o blant.
30. Ariannwyd gwerthusiad o ysgolion y Cyfnod Peilot gan Lywodraeth Cymru yn 2004/06 ac wedyn, astudiaeth ar bontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 yn ddiweddarach yn 2009/10.

Allbynnau, Canlyniadau ac Effeithiau'r Cyfnod Sylfaen

31. Mae addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru wedi cael ei chyflwyno trwy'r Cyfnod Sylfaen erbyn hyn.
32. Wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a'i gyflwyno, cyhoeddwyd nifer o ddogfennau ar gyfer ymarferwyr a rhieni.
33. Ariennir y Cyfnod Sylfaen trwy ddwy ffrwd ariannu. Y ffrwd gyntaf yw'r Grant Cymorth Refeniw (GCR) a fydd yn ariannu hawl ran-amser am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed. Lle pob awdurdod lleol yw penderfynu sut i

wario'r arian o'r GCR, er bod ganddynt ddyletswydd statudol i gynnig y ddarpariaeth hon. Yr ail ffrwd ariannu yw Grant y Cyfnod Sylfaen. Mae ei delerau ac amodau yn datgan bod yn rhaid defnyddio'r cyllid i ariannu'r cymarebau 1:8 ac 1:15 oedolyn i blentyn yn y sector a gynhelir, penodi swyddog hyfforddiant a chymorth a rhaglen hyfforddi ddynodedig ar gyfer yr holl ymarferwyr, a darparu o leiaf 10% o amser athro cymwys ar gyfer yr holl leoliadau nas cynhelir a ariennir.

34. Er gwaethaf y telerau ac amodau a amlinellir ar gyfer Grant y Cyfnod Sylfaen, cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar gymarebau gwirioneddol oedolyn i blentyn yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen.
35. Darparwyd hyfforddiant a chymorth trwy awdurdodau lleol, er nad oes unrhyw ddata cenedlaethol yn ymwneud â chyfranogiad ar weithgareddau hyfforddi. Nid oes unrhyw dargedau ychwaith ar gyfer cyfranogi mewn hyfforddiant ar lefelau unigol, ysgol, awdurdod lleol na chenedlaethol.
36. Yn y ddogfennaeth wreiddiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, amlinellir rhai canlyniadau neu dargedau eglur. Fodd bynnag, gellir nodi ystod o ganlyniadau, er y bydd yn cymryd rhai blynyddoedd cyn y gellir cadarnhau effaith y Cyfnod Sylfaen:
 - mwy o gymhelliant a chanolbwyntio ac agweddau dysgu gwell erbyn i blant fod yn 7 oed
 - ychydig o welliant mewn cyflawniad addysgol cyfartalog erbyn i blant fod yn 11 oed ac yn hŷn (e.e. llythrennedd, rhifedd, yr iaith Gymraeg)
 - gostyngiad mewn cyrhaeddiad gwahaniaethol rhwng grwpiau penodol o blant erbyn iddynt fod yn 11 oed ac yn hŷn (e.e. yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd)
 - cyflawniad addysgol cyfartalog gwell erbyn i blant fod yn 15 oed, a llai yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau
 - cyfraddau cyfranogiad uwch mewn addysg ôl-orfodol (AB ac AU)
 - lles gwell ac agweddau tuag at ddysgu ymhlith pob dysgwr, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig

- cyfraddau is o ddiffyg presenoldeb cyfartalog i bob dysgwr, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig
- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gwell ymhlith plant, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig
- mwy o gyfranogiad gan rieni/gofalwyr ym mhrofiad addysg plant.

37. Yn ychwanegol, gellir nodi nifer o effeithiau ehangach, megis:

- paratodau gwell ar gyfer dysgu yn CA2 a thu hwnt
- cyflawniad addysgol gwell plant yn 15 oed (CA4)
- cyfranogiad cynyddol mewn addysg ôl-orfodol (e.e. AB ac AU) neu hyfforddiant galwedigaethol arall
- lliniaru rhywfaint o effaith anfantais economaidd-gymdeithasol i ddysgwyr
- lles cymdeithasol ac emosiynol cynyddol i blant a phobl ifanc
- trosglwyddo agweddau cadarnhaol yn well rhwng cenedlaethau a dylanwad ar addysg a dysgu
- llai o wahaniaethau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

Trafodaeth a Chasgliadau

38. Bydd datblygu'r model rhesymeg polisi hwn yn helpu i arwain gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn barhaus, er y disgwylir y bydd y model hwn yn datblygu wrth i ragor o wybodaeth a thystiolaeth gael ei chasglu.

39. Fodd bynnag, wrth baratoi'r model rhesymeg polisi cychwynnol, nodwyd nifer o faterion a chwestiynau y mae'n rhaid i'r gwerthusiad ymdrin â nhw, a mynd i'r afael â nhw wrth iddo ddatblygu. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- problemau ac amodau lefel micro yn erbyn nodau lefel macro
- dim dangosyddion wedi eu pennu ymlaen llaw ar gyfer mesur effaith y Cyfnod Sylfaen
- mae'n anodd mesur 'dimensiynau ansoddol' nodau'r Cyfnod Sylfaen
- nid yw'r rhesymwaith ar gyfer elfennau allweddol wedi cael ei nodi'n eglur nac yn ffurfiol

- dim targedau penodol ar gyfer rhai o fewnbynnau'r Cyfnod Sylfaen (e.e. cyfranogi mewn hyfforddiant)
 - tensiynau yn addysgeg a chwricwlwm sylfaenol y Cyfnod Sylfaen
 - ffurfioli natur anffurfiol y Cyfnod Sylfaen.
40. Awgryma'r adroddiad fod y materion hyn yn cyfyngu'r gwerthusiad mewn ffyrdd amrywiol, yn anad dim wrth bennu'r ffordd fwyaf priodol o fesur effaith y Cyfnod Sylfaen, p'un a yw hynny o ran gweithredu neu ganlyniadau.
41. At hynny, mae'n bosibl y gallai'r materion a amlygwyd yma fod wedi cyfyngu gallu Llywodraeth Cymru, ysgolion ac ymarferwyr i roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus ac yn llawn. Bydd y gwerthusiad parhaus yn gallu archwilio hyn ymhellach.
42. Ymddengys bod y dull, yr addysgeg a'r cwricwlwm sy'n cael eu hyrwyddo yn y Cyfnod Sylfaen yn mynd i'r afael â'r pryderon a'r nodau fel y maent wedi eu nodi yn *Y Wlad sy'n Dysgu* (CCC 2001a) ac ymarfer ymgynghori'r Cyfnod Sylfaen (CCC 2003a). O fabwysiadu dull 'datblygiadol' ategol ac addysgeg luniadaethol a chymdeithasol-ddiwylliannol yn bennaf, ynghyd â sicrhau mai 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' sydd wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen, gellid sicrhau bod dysgu a datblygiad plant, gan gynnwys eu lles, eu hagweddau dysgu cadarnhaol a'u hymagweddau cadarnhaol at amrywiaeth ddiwylliannol, yn cael eu cefnogi trwy weithgareddau a phrofiadau priodol, diddorol ac ystyrlon. Dylai hyn arwain at gymhwysedd cymdeithasol a chyflawniad uwch yn y tymor hwy, a'r cymhelliant i ddod yn ddysgwyr gydol oes.
43. O gadw cwricwlwm statudol, manwl, sy'n canolbwyntio ar sgiliau, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau ar Ddatblygiad Mathemategol a Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a disgwylid y bydd ymarferwyr yn ymgymryd â rhywfaint o addysgu uniongyrchol, gellid sicrhau bod plant ifanc, yn enwedig y rheiny o gartrefi difreintiedig, yn cael eu cefnogi o ran datblygiad cynnar eu llythrennedd a'u rhifedd; gallai hyn fod yn hanfodol ar gyfer eu cyflawniad yn ddiweddarach. Gallai'r dull hwn, sy'n cael ei adleisio yn y cynigion diweddar i gyflwyno Fframwaith

Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRhC) i ddysgwyr 5-14 oed ochr yn ochr â Phroffion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol i ddysgwyr rhwng 7 ac 14 oed, hefyd sicrhau nad oes unrhyw lithriant sylweddol mewn cyflawniadau a chanlyniadau asesedig cyn i blant ddechrau addysg uwchradd. Yn ychwanegol, o nodi bod Datblygu'r Gymraeg yn faes dysgu ar wahân mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg gyda disgwyliadau sy'n cyd-fynd yn fras â disgwyliadau'r maes dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, gellid cefnogi datblygiad Cymru fel cenedl ddwyieithog.

44. Awgrymwn fod dwy her allweddol ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Yr her gyntaf yw cadarnhau beth yw ystyr rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfennaeth – yn enwedig mewn perthynas ag addysgeg. Yr ail yw cadarnhau beth yw'r ffordd orau o integreiddio neu gydblethu addysgeg yn seiliedig ar chwarae, a ategir gan ddull datblygiadol cryf, gyda chwricwlwm statudol manwl lle mae disgwyliadau mewn perthynas â chanlyniadau yn parhau'n ddigyfnewid i bob pwrpas. Wrth werthuso'r Cyfnod Sylfaen, bydd ffocws allweddol ar y graddau y mae ymarferwyr wedi deall ac ymateb i'r galwadau/gofynion hyn sydd fel petai'n gwrthdaro â'i gilydd.
45. Yn sgil bydehangu, dechreuwyd byd rhaglenni plentyndod cynnar ac effeithiau tymor hir ymddangosiadol y rhain. Codwyd cwestiynau ynghylch p'un a yw'n bosibl neu'n briodol defnyddio rhaglenni sydd â gwahanol wreiddiau a gwerthoedd athronyddol a gwleidyddol sydd wedi'u hymgorffori'n ddiwylliannol. Ymddengys bod bydehangu wedi ysgogi angen i wledydd sicrhau bod ganddynt weithlu sydd wedi cael addysg dda er mwyn cystadlu yn y farchnad fyd-eang: sef un o'r sbardunau allweddol ar gyfer sefydlu'r Cyfnod Sylfaen.
46. Mewn perthynas ag effeithiau bydehangu, un o'r prif densiynau a ystyriwyd yw'r tensiwn rhwng rhaglenni sy'n cyd-fynd â'i gilydd o fewn model 'addysgeg gymdeithasol' sy'n gysylltiedig â rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn Sgandinafia, er enghraifft, a 'pharodrwydd ar gyfer yr ysgol' neu fodel 'cyn-cynradd' a welir yn Lloegr ac UDA, er enghraifft. Fodd bynnag, yn hytrach nag edrych ar y modelau hyn mewn

cyferbyniad â'i gilydd, mae modd eu gweld fel petaent ar y ddwy ochr i'r un continwmm.

47. Enghraifft o ddull sy'n croesawu parodrwydd ar gyfer yr ysgol ond yn cydfynd ag agweddau ar addysgeg gymdeithasol yw 'Arfer sy'n Briodol i Ddatblygiad' (DAP), sef set o egwyddorion a chanllawiau sy'n defnyddio gwahanol syniadau damcaniaethol ac yn cael ei hategu gan ymrwymiad i ddatblygiad y plentyn. O amlinellu elfennau allweddol DAP a'r Cyfnod Sylfaen, mae'n amlwg bod llawer o debygrwydd rhwng y ddwy raglen ond rhai gwahaniaethau hefyd: yn benodol o ran y ffaith fod nodau cwricwlaidd DAP yn debygol o fod yn rhoi cyffyrddiad ysgafn, ac wedi'u cytuno yn rhanbarthol neu'n lleol.
48. Yn y blynyddoedd diwethaf, yn sgil pwysau yn y farchnad fyd-eang, mae rhaglenni'r blynyddoedd cynnar a ategir yn gadarn gan fodel addysgeg gymdeithasol (megis rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn Sweden a Norwy) yn cael eu rheoli mwy gan y wladwriaeth ac yn ymgorffori agweddau ar y dull 'parodrwydd ar gyfer yr ysgol' neu 'cyn-cynradd' – hynny yw, yn ymgorffori addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar.
49. Nid yw'r her allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn unigryw felly: sut i gefnogi lles plant a'u datblygiad fel dysgwyr gydol oes gan sicrhau ar yr un pryd eu llwyddiant academaidd yn ddiweddarach. Gallai rhaglenni sy'n mabwysiadu addysgeg gymdeithasol-ddiwylliannol arwain at fanteision tymor hir mewn perthynas â datblygiad cymdeithasol a chymhelliant i fynd i addysg uwch, felly mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch ymddieithrio ymhlith disgyblion. Fodd bynnag, gall dulliau sy'n cael eu dechrau gan yr athro sy'n cynnwys 'addysgu eglur' (dulliau 'dan gyfarwyddyd ymarferwr') leihau bylchau mewn gwybodaeth yn sgiliau llythrennedd a rhifedd plant, sy'n rhagfynegyddion cryf o lwyddiant academaidd plant yn ddiweddarach. Gallai'r dulliau hyn fod yn hynod bwysig fel ymyrraeth i blant ifanc sydd dan anfantais yn sgil amgylcheddau dysgu gwael gartref. Efallai ei bod yn gall felly sicrhau bod rhaglenni plentyndod cynnar yn cynnwys gweithgareddau dan gyfarwyddyd ymarferwr ochr yn ochr â gweithgareddau wedi'u dechrau gan y plentyn yn bennaf.

Ffigur 1: Model Rhesymeg Polisi (Fersiwn 1) ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

Amodau a phroblemau cyd-destunol

- Pryder am fabwysiadu dulliau ffurfiol o addysgu a dysgu mewn dosbarthiadau derbyn ac yn CA1.
- Pryderon am ansawdd a safonau, yn enwedig yn CA1.
- 'Ymddieithrio' tuag at addysgu a dysgu ymhlith y rhai sy'n gadael yr ysgol.
- Cymariaethau rhyngwladol gwan mewn perthynas â chyflawniad addysgol diweddarach.
- Anfantais gymdeithasol (gan gynnwys iechyd a lles) a'i pherthynas ag addysg.
- Pryderon am ddatblygu'r iaith Gymraeg.

Nodau ac amcanion

- Codi safonau cyflawniad plant.
- Gwella eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu.
- Mynd i'r afael â'u hanghenion datblygol.
- Eu galluogi i elwa ar gyfleoedd addysgol yn ddiweddarach yn eu bywydau.
- Eu helpu i fod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau.

Rhesymwaith

Datblygu cwricwlwm newydd sy'n cysylltu ac yn cryfhau egwyddorion ac arferion 'Canlyniadau Dymunol' cynysgol gyda rhaglenni astudio a datganiadau ffocws CA1 (CCC, 2003a:9). Mae'n defnyddio arfer sy'n briodol i ddatblygiad, dulliau lluniadaethol a chymdeithasol-ddiwylliannol ar gyfer addysgu a dysgu.

Mewnbynnau

- Y saith Maes Dysgu statudol.
- Asesiadau ar Ddiwedd Cyfnod.
- Cymarebau uwch oedolyn i blentyn (1:8 i blant 3 i 5 oed, ac 1:15 i blant 5 i 7 oed).
- Cyllid i wella amgylcheddau dysgu awyr agored.
- Swyddogion Hyfforddiant a Chymorth a darpariaeth/cymorth hyfforddiant cysylltiedig.

Effeithiau

- Agweddau dysgu gwell.
- Cynyddu cyfranogiad mewn addysg ôl-orfodol a dysgu gydol oes.
- Sgiliau sylfaenol cynyddol o fewn y boblogaeth.
- Llai o effaith anfantais economaidd-gymdeithasol i ddysgwyr.
- Defnydd cynyddol o'r Gymraeg.
- Llai o wahaniaethau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.
- Profiad proffesiynol gwell ar gyfer y gweithlu addysgu.

Canlyniadau

- Y sefyllfa bresennol mewn cyflawniad addysgol cyfartalog erbyn i blant fod yn 7 oed.
- Cyflawniad addysgol gwell erbyn i blant fod yn 12 a 15 oed.
- Llai o gyflawniad gwahaniaethol rhwng grwpiau breintiedig a difreintiedig.
- Cyfraddau is o ddiffyg presenoldeb cyfartalog.
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gwell ymhlith plant ifanc.
- Cynnwys rhieni/gofalwyr yn effeithiol yn y profiad addysgol.
- Mwy o ddinasyddiaeth weithgar ymhlith pobl ifanc.

Prosesau a gweithgareddau

- Ymgynghoriad a Chynllun Gweithredu (2003).
- Cyfnod Peilot (2004/05).
- Cyfnod Dechrau'n Gynnar (2006/07).
- Cyflwyno'n derfynol (2008/09).
- Datblygu'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant a deunyddiau arweiniad ategol gan ACCAC (2003/05).
- Gwerthuso'r cyfnod peilot.
- Astudiaeth ar drosglwyddo o'r CS-CA2.

Allbynnau a chanlyniadau canolraddol

- Pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yn dilyn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd.
- Cyhoeddwyd y Fframwaith a dogfennau arweiniad.
- Cyflwynir modiwlau hyfforddi.
- Cynadleddau blynyddol ar y CS.
- Asesiadau ar Ddiwedd Cyfnod;
- Newidiadau i amgylcheddau dysgu ffisegol (dan do ac yn yr awyr agored).

1 Cyflwyniad

- 1.1. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o blith cyfres o adroddiadau o'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a arweinir gan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD). Mae'r gwerthusiad tair blynedd (2011-2014) yn cynnwys pedwar prif nod, sef:
- gwerthuso pa mor dda y caiff y Cyfnod Sylfaen ei roi ar waith, ac amlygu ffyrdd y gellir gwella
 - gwerthuso beth fu effaith y Cyfnod Sylfaen hyd yn hyn
 - asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen
 - rhoi fframwaith gwerthuso ar waith ar gyfer olrhain allbynnau a chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol.
- 1.2. Ymddengys bod y Cyfnod Sylfaen yn nodi gwyrriad radical oddi wrth y dull mwy ffurfiol, sy'n seiliedig ar gymhwysedd o ran addysg plentyndod cynnar, a fu weithiau'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Gan ddefnyddio tystiolaeth o raglenni da ar y blynyddoedd cynnar yn Sgandinafia, Reggio Emilia a Seland Newydd (Te Whāriki) sy'n dangos y gall mabwysiadu cwricwlwm rhy ffurfiol ac addysgu ffurfiol helaeth cyn i blentyn fod yn chwech neu'n saith oed arwain at safonau cyrhaeddiad is yn y tymor hwy, mae'n hyrwyddo dull arbrofol o ddysgu, yn seiliedig ar chwarae i blant rhwng 3 a 7 oed. Mae'n pwysleisio canologrwydd y plentyn ac arwyddocâd lles plant, ac yn eirioli cydbwysedd rhwng gweithgareddau wedi'u dechrau gan y plentyn a than gyfarwyddyd ymarferwr² (neu wedi eu dechrau gan ymarferwr) mewn amgylcheddau dan do ac awyr agored symbylol.
- 1.3. Un o gamau cyntaf y gwerthusiad hwn yw datblygu '*model rhesymeg polisi*' sy'n amlinellu amcanion a chanlyniadau bwriadedig y Cyfnod Sylfaen ac yn "disgrifio'r theori, y rhagdybiaethau a'r dystiolaeth sy'n sail i'r rhesymwaith ar gyfer polisi. Gwna hyn trwy gysylltu'r canlyniadau


² Yn yr holl ohebiaeth bresennol a dogfennaeth newydd, cyfeirir at hyn bellach fel gweithgareddau wedi eu dechrau gan y plentyn ac wedi eu harwain gan yr oedolyn.

bwriadedig (tymor byr a thymor hir) â mewnbynnau, gweithgareddau, prosesau a rhagdybiaethau damcaniaethol y polisi” (Trysorlys EM 2011:41).

- 1.4. Nod yr adroddiad hwn, felly, yw cyflwyno model rhesymeg polisi cychwynol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn bennaf i gynorthwyo dyluniad a chynnydd y gwerthusiad, trwy nodi'r hyn y gellid ei alw'n 'ymdriniaeth swyddogol' â'r Cyfnod Sylfaen, yn unol â'r hyn a amlinellir gan Lywodraeth Cymru. Mae model rhesymeg polisi yn ceisio esbonio'r modd y bwriedir i'r polisi gyflawni ei amcanion, ac yn ei dro helpu i “nodi'n glir amcanion y gwerthusiad a'r cwestiynau ymchwil a fydd yn cyfeirio'r dull gwerthuso, ac yn llywio'r mathau o ddata a gwybodaeth y mae angen eu casglu” (Trysorlys EM 2011:39). Cyflawnir hyn trwy archwilio'r ddogfennaeth sydd ar gael yn ymwneud â sefydlu, datblygu a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ers datganoli ym 1999 gan arwain at ddechrau'r gwerthusiad yn 2011. Y brif ddogfen bolisi sy'n ategu'r cwricwlwm newydd hwn ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant i blant 3 i 7 oed yng Nghymru, a gefnogir gan gyfres o ddogfennau arweiniad ychwanegol.
- 1.5. Wrth ddatblygu model rhesymeg polisi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mae'r adroddiad yn ceisio amlinellu a disgrifio'r *cyd-destun* ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, ei *nodau*, ei *resymwaith* addysgol (gan gynnwys y *dull* damcaniaethol ategol ac *addysgeg* awgrymedig), ei *fewnbynau* (gan gynnwys ei *gwricwlwm statudol*), ei *brosesau a'i weithgareddau*, a'i *ganlyniadau* bwriadedig (Ffigur 2).
- 1.6. Yn unol â'r hyn a ddangosir trwy gydol yr adroddiad, mae nifer o ddamcaniaethau pwysig yn ymwneud â datblygiad ac addysg plentyndod cynnar yn ategu'r Cyfnod Sylfaen. Felly, er mwyn deall cyd-destun, rhesymwaith a dyluniad y Cyfnod Sylfaen yn llawn, mae angen archwilio'r damcaniaethau hyn yn fanwl. Rydym yn galw hyn yn '*theori rhaglen*' y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cyfrannu at y model rhesymeg

polisi mewn nifer o ffyrdd (Ffigur 2), yn enwedig wrth sefydlu'r rhesymwaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ac mae'n cynnig y dull, yr addysgeg a'r cwricwlwm y disgwylir i ymarferwyr eu defnyddio.

Ffigur 2: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen



1.7. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol gweld y model rhesymeg polisi a'r theori rhaglen yn wahanol mewn dwy ffordd allweddol. Yn gyntaf, mae eu tarddiadau ychydig yn wahanol – gwelwn y model rhesymeg polisi o ganlyniad i ddatblygu a llunio polisi, tra bod tarddiad y theori rhaglen sy'n ategu llawer o'r polisi, wedi'i seilio ar ddamcaniaethau addysgol,

sy'n deillio o ymchwil mewn addysg, seicoleg, niwrowyddoniaeth a chymdeithaseg, ac o archwilio rhaglenni eraill y blynyddoedd cynnar mewn gwledydd eraill.

- 1.8. Yn ail, fe'u cyflawnir yn wahanol - gellir nodweddu llawer o elfennau o'r Cyfnod Sylfaen fel cyfres o offer polisi, a gyflawnir trwy ddeddfwriaeth, cyllid ac arolygu; ond dimensiwn allweddol i'r Cyfnod Sylfaen yw dull newydd o addysgu a dysgu, a gyflawnir trwy arweiniad a deunyddiau cwricwlaidd i annog ymarferwyr i ymdrin ag addysg plant rhwng 3 a 7 oed yn wahanol. Golyga hyn fod dull, addysgeg ac i ryw raddau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu 'hargymell' i raddau helaeth, ac nad ydynt yn orfodol yn yr un ffordd y gellir 'gorfodi' *mewnbynnau* eraill y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae'r ffordd y caiff y theori rhaglen ei deall (gan lunwyr polisi), wedyn ei chyflwyno (i ymarferwyr) ac wedyn ei galluogi (gan ymarferwyr) o bosibl yn hanfodol wrth ddeall sut mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei roi ar waith a beth fu effaith hyn. Felly, o ystyried ei bwysigrwydd a'i gymhlethdod, caiff llawer o'r adroddiad ei neilltuo i drafod theori rhaglen y Cyfnod Sylfaen.
- 1.9. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad bwriad yr adroddiad hwn yw gwerthuso priodoldeb, gweithredu nac effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd. Nid yw'n bwriadu gwerthuso cynnydd datblygiad polisi a gweithredu polisi chwaith. Fodd bynnag, wrth ddatblygu model rhesymeg polisi, ac o ddadansoddi'r ymdriniaeth swyddogol â'r Cyfnod Sylfaen, mae'r adroddiad yn codi nifer o gwestiynau a materion a fydd yn helpu i ffurfio ac arwain gweddill y gwerthusiad. Yn benodol, mae'r adroddiad yn archwilio eglurder esboniadau a chydlyniad syniadau a therminoleg o fewn ac ar draws y ddogfennaeth swyddogol, ac yn ceisio datgelu'r rhesymeg ategol, neu'r 'sail', ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'i elfennau. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried effaith ymchwil ddiweddar ar addysg y blynyddoedd cynnar a'i disgyblaethau cytras ar resymwaith a dyluniad sylfaenol y Cyfnod Sylfaen.

- 1.10. Dylid nodi hefyd y gall y model rhesymeg polisi ond fod yn un dros dro mewn gwerthusiad o'r natur hon, ac y bydd yn cael ei fireinio wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo. Defnyddir yr un dull gan y gwerthusiad interim o raglen Llywodraeth Cymru, Dechrau'n Deg (White a McCrindle 2010). Un o brif nodau'r gwerthusiad yw datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer effaith y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys datblygu ail fodel rhesymeg polisi, mwy cynhwysfawr, un sy'n seiliedig ar fwy o dystiolaeth fanwl ar gynnwys a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, ac o brofi amrywiaeth o ddulliau ar gyfer dadansoddi effaith y Cyfnod Sylfaen.
- 1.11. Mae'n werth nodi hefyd nad yw'r Cyfnod Sylfaen yn bolisi syml gyda set wahanol o 'nodau' (h.y. sy'n wyriad clir oddi wrth nodau'r rhaglen addysgol flaenorol, neu 'reolaeth'). Yn yr un modd, nid oes gan y Cyfnod Sylfaen set glir a gwahanol o 'gampau gweithredu' ar gyfer ymarferwyr (h.y. set o offer neu arferion sy'n amlwg yn wahanol i'r 'rheolaeth'). Er bod y Cyfnod Sylfaen yn hyrwyddo dull addysgegol newydd (fel y dangosir), dylid nodi ei fod, yn hytrach, yn *datblygiad parhaus* o'r Canlyniadau Dymunol blaenorol ar gyfer Dysgu Plant Cyn Oedran Ysgol Gorfodol a Chwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1 sydd o ganlyniad yn cynnwys llawer o ragdybiaethau ymhlyg ynglŷn â'i nodau a'i weithredoedd. Mae'r ffaith ei fod yn parhau i gyfrannu at addysg orfodol, yn parhau i arwain at Gwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2, yn parhau i gael ei gyflwyno o fewn system addysg gymharol ddigyfnewid (ysgolion, athrawon, awdurdodau lleol), ac ati, yn amlygu'r ffaith y gallai addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru heddiw, yn ei synnwyr ehangaf, gael ei nodweddu i'r un graddau gan ei gyffredinedd yn hytrach na'r ffaith ei fod yn wahanol i addysg gynnar bum mlynedd yn ôl.
- 1.12. Mae'r adroddiad yn ceisio amlinellu model rhesymeg polisi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac mae wedi'i strwythuro yn unol â hynny. Mae Pennod 2 yn dechrau trwy amlinellu'r cyd-destun ar gyfer sefydlu'r Cyfnod Sylfaen, ac yn bwysig, yr angen i symud oddi wrth y Cwricwlwm

Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1 blaenorol. Mae'n archwilio'r ddogfen ymgynghori gychwynnol ar y Cyfnod Sylfaen arfaethedig ac yn cadarnhau'r pryderon yr ymddangosodd eu bod yn paratoi'r ffordd ar gyfer diwygio, mewn perthynas ag arfer ystafell ddosbarth. Mae hyn yn arwain at gyflwyno rhesymwaith a nodau 'swyddogol' y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y damcaniaethau a'r egwyddorion sylfaenol – y theori rhaglen – wrth ddatblygu dull newydd o addysgu a dysgu yn addysg y blynyddoedd cynnar.

- 1.13. Er mwyn datblygu'r theori rhaglen, cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r dogfennau cyhoeddedig sy'n ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen. Er mwyn adeiladu fframwaith ar gyfer dadansoddi, rydym yn archwilio elfennau allweddol nifer o'r rhaglenni hyn ac yn disgrifio rhai o'r dylanwadau a'r damcaniaethau dysgu sylfaenol ym Mhennod 3.
- 1.14. Bwriad Pennod 4 yw cyflwyno'r theori rhaglen ar sail y dadansoddiad hwn. Mae'n dechrau gyda disgrifiad byr o'r modd yr aethom ati i ddadansoddi dogfennaeth cyn cyflwyno ein canfyddiadau: gan grynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol mewn perthynas â'r dull, yr addysgeg, y cwricwlwm a'r canlyniadau cysylltiedig. Eir i'r afael ag eglurder a chydlynid yn y bennod hon hefyd.
- 1.15. Mae Pennod 5 yn parhau i amlinellu gweddill elfennau'r model rhesymeg polisi, gan bwysleisio'r mewnbynnau, y prosesau a'r gweithgareddau allweddol a ddefnyddir wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen.
- 1.16. Mae Pennod 6 yn cloi cyflwyniad y model rhesymeg polisi trwy adrodd am allbynnau allweddol y Cyfnod Sylfaen hyd yn hyn, ochr yn ochr â thrafodaeth ar ganlyniadau ac effeithiau bwriadedig y Cyfnod Sylfaen.
- 1.17. Wrth ddatblygu model rhesymeg polisi, nodir nifer o faterion a chwestiynau allweddol i helpu i lywio datblygiad y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen. Cyflwynir y rhain ym Mhennod 7, ac mae trafodaeth am natur a diffiniad o'r Cyfnod Sylfaen yn dilyn. Mae'r adroddiad yn cloi

trwy drafod y Cyfnod Sylfaen yn ehangach ac yn ystyried y modd yr ymddengys y mae pwysau bydehangu yn effeithio ar bolisiau addysg gynnar mewn gwledydd sydd wedi ymrwymo i fodel addysgeg gymdeithasol yn y gorffennol: hynny yw, symudwyd tuag at 'barodrwydd ar gyfer yr ysgol'. Mae'n amlinellu'n fras y pethau tebyg niferus a rhai o'r gwahaniaethau rhwng elfennau allweddol o 'Arfer sy'n Briodol i Ddatblygiad' hefyd, sef dull sy'n cynnwys 'parodrwydd ar gyfer yr ysgol' ond yn cyd-fynd ag agweddau ar 'addysgeg gymdeithasol', a'r Cyfnod Sylfaen. Yn olaf, mae'n gofyn sut gall llywodraethau sicrhau bod pob plentyn yn barod i gystadlu yn y farchnad fyd-eang (a allai awgrymu ffocws ar addysgu llythrennedd a rhifedd yn uniongyrchol) wrth sicrhau hefyd fod pob plentyn yn cael ei gefnogi i fod yn ddysgwyr gydol oes effeithiol ac yn ddinasyddion cyflawn (a allai awgrymu ffocws ar gefnogi anghenion cymdeithasol/emosiynol plant).

2 Cyd-destun, Rhesymwaith a Nodau'r Cyfnod Sylfaen

- 2.1 Yn dilyn datganoli ym 1999, amlinellwyd strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer addysg a dysgu gydol oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi* (CCC 2001a). Byddai'r polisi hwn yn cyhoeddi cyfnod newydd o ymraniad o ran polisi addysg yng Nghymru. Dyma a nododd Jane Davidson, y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd yn y rhagair: "rydym yn rhannu nodau strategol allweddol gyda Lloegr – ond yn aml, mae angen i ni ddilyn llwybr gwahanol i'w cyflawni. Byddwn yn defnyddio ein cyfeiriad polisi ein hunain, lle bydd angen, i gael y gorau i Gymru" (2001:2). Yn benodol, nododd yr olaf o'r rhain fod angen "adeiladu sylfeini cryfach ar gyfer dysgu mewn ysgolion cynradd" (tud.12) a "rhoi dechrau teg i bob plentyn" (tud.15). Yn *Y Wlad sy'n Dysgu* (2001a), nodwyd hefyd fod angen hyrwyddo cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol.
- 2.2 Roedd 'Cael y gorau i Gymru' yn cynnwys bodloni blaenoriaethau penodol y wlad. Roedd y rhain yn cynnwys bodloni heriau'r farchnad fyd-eang (pwysau technolegol a chystadleuol oddi mewn i Ewrop a thramor, ibid 2001:1), yn enwedig o ystyried y sylfaen sgiliau gymharol isel, a mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle anghyfartal. Felly, roedd angen canfyddadwy i godi'r sylfaen wybodaeth a sgiliau, codi safonau llythrennedd a rhifedd a hyrwyddo diwylliant o ddysgu gydol oes, cymorth a gwella iechyd a lles, adeiladu diwylliant mentrus a chreadigol sy'n dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo traddodiadau Cymru a'i hiaith (2001).
- 2.3 Yn ei dro, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (e.e. *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer partneriaeth* (Llywodraeth Cymru 2000)) wedi bod â rhan mewn datblygu polisi addysg yng Nghymru. Er enghraifft, roedd cyfranogi yn cael ei ystyried yn ddull allweddol: trwy sicrhau mai "anghenion

awdurdodau lleol, cymunedau lleol ac anghenion a blaenoriaethau a bennwyd yn lleol sydd wrth wraidd yr agenda ar gyfer ysgolion” (CCC 2001:2); trwy annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol; a thrwy sefydlu cynghorau ysgolion, er enghraifft.

2.4 Datblygwyd y nodau polisi hyn yn ddiweddarach yn *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid* (2006) i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc:

- yn cael dechrau teg mewn bywyd a'r sylfaen orau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael manteisio ar ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael medrau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael yr iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid oddi wrth gam-drin, erledigaeth a cham-fanteisio
- yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael eu clywed, eu parchu, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- nid ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais yn sgil unrhyw fath o dlodi.

2.5 O ran addysg y blynyddoedd cynnar, nododd *Y Wlad sy'n Dysgu* (2001a) mai bwriad y llywodraeth oedd ymgynghori ynghylch p'un a ddylid integreiddio'r cyhoeddiad presennol, *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant cyn Oedran Addysg Orfodol* (ACCAC, 1996) yn y cwricwlwm cynradd, ac os felly, beth fyddai'r ffordd orau o wneud hynny, a galluogi ymarferwyr i gefnogi “cynnydd cyffredinol plant” (2001:20) trwy Gyfnod Sylfaen arfaethedig i blant 3 i 7 oed.

2.6 Arweiniodd hyn at ddogfen ymgynghori, sef *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3 i 7 oed* (2003a), a nododd ddeg o 'ddiffygion' yn

addysg y blynyddoedd cynnar (tud.5) ac wyth o 'ddiffygion' yng Nghyfnod Allweddol 1. (tud.5-6). Ymddengys mai'r brif ffynhonnell ar gyfer y materion hyn yw arolygiadau ac adroddiadau Estyn. Nodwyd y 'diffygion' hyn fel a ganlyn:

Addysg y blynyddoedd cynnar

- Mae canran y safonau a'r addysgu 'da iawn' yn isel ar y cyfan.
- Mae plant yn treulio gormod o amser yn gwneud tasgau wrth eistedd wrth fyrddau yn hytrach na dysgu trwy gyfleoedd wedi eu cynllunio'n dda ar gyfer chwarae. Nid ydynt yn cael digon o gyfle i ddatblygu eu medrau iaith trwy siarad am eu gweithgareddau. Nid yw'r pwyslais ar waith desg anrhyngweithiol yn cyfrannu'n dda at ddatblygu annibyniaeth a gwneud penderfyniadau.
- Ni roddir digon o bwyslais ar ddatblygu mynegiant creadigol a dealltwriaeth ddiwylliannol plant.
- Gwneir llai o gynnydd o ran hyrwyddo medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant, nag yn y meysydd dysgu eraill.
- Yn rhy aml, caiff plant eu cyflwyno i fedrau ffurfiol darllen ac ysgrifennu cyn iddynt fod yn barod, gyda llawer o ffurfioldeb, sy'n golygu bod perygl y bydd rhai ohonynt yn colli hyder a chariad at ddysgu.
- Mewn rhai lleoliadau, nid yw oedolion yn rhoi dechrau da i blant o ran dysgu Cymraeg.
- Nid yw bron i hanner y lleoliadau yn cynllunio nac yn asesu'n effeithiol, ac nid ydynt yn cadw cofnodion sy'n hawdd i unrhyw un eu deall, ar wahân i'r unigolyn a'u lluniodd.
- Mae mwy o waith 'da' a 'da iawn' mewn ysgolion ac unedau meithrin na mewn dosbarthiadau derbyn.
- Mewn rhai dosbarthiadau, mae'r gymhareb uchel o ran plentyn i oedolyn yn golygu nad oes digon o staff i ddarparu'r cymorth a'r ystod o brofiadau sy'n ofynnol.
- Mae cyflwr anfoddhaol adeiladau yn aml yn cyfyngu ar y lle y tu mewn a'r tu allan sydd ar gael ar gyfer chwarae a gweithgareddau ymarferol.

Cyfnod Allweddol 1

- Mae safonau cyflawniad disgyblion yn cynnwys gwendidau mewn rhai agweddau mewn ychydig dros draean o ddsbarthiadau.
- Mae ansawdd yr addysgu yn cynnwys rhai agweddau gwan mewn bron i 40% o ddsbarthiadau.
- Mewn rhai dosbarthiadau, nid yw athrawon yn gosod gwaith sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol, ac ni roddir digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu annibyniaeth, nid y lleiaf fel dysgwyr.
- Mae bwlch rhwng Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yng nghanran y safonau 'da' a 'da iawn' bron ym mhob pwnc. Bu canran y disgyblion sy'n cyflawni safonau 'da' a 'da iawn' ym Mlwyddyn 1 yn is nag ym Mlwyddyn 2 ar gyfer y tair blynedd diwethaf.
- Mae bwlch rhwng y swm o addysgu 'da' a 'da iawn', yn enwedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, rhwng Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Bu ansawdd yr addysgu ym Mlwyddyn 1 yn is nag ym Mlwyddyn 2 yn y rhan fwyaf o bynciau yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Ychydig o ddefnydd a wneir o asesu gan lawer o athrawon i hyrwyddo safonau uchel.
- Dim ond mewn tua chwarter o ysgolion cynradd y caiff y rhieni adroddiadau asesu llawn gwybodaeth am gynnydd eu plant.
- Ychydig o sylw a roddir i'r *Cwricwlwm Cymreig* mewn rhai dosbarthiadau ac ni chaiff y disgyblion ddigon o wybodaeth am ddiwylliannau eraill.

2.7 Dangosodd llawer o'r 'diffygion' hyn fod pryder ynglŷn â defnyddio dulliau ffurfiol o addysgu a dysgu yn ystod blynyddoedd cyntaf addysg. Fel y nodwyd uchod, honnwyd bod "athrawon yn cyflwyno dysgu ffurfiol yn rhy gynnar, cyn bod rhai disgyblion yn barod" (*Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3 i 7 oed*, CCC 2003a:5). Dadleuwyd y "gallai rhai plant dangyflawni a chyrraedd safonau is" (CCC 2003a:14) o ganlyniad. Ystyrid bod hyn yn destun pryder mawr mewn perthynas ag addysgu darllen ac ysgrifennu: "gall pwyslais gormodol ar orfodi plant i ddarllen

ac ysgrifennu, cyn eu bod yn barod i wneud hynny, fod yn wrthgynhyrchol” (Ibid:11) gyda pherygl y bydd plant “yn colli hyder a chariad at ddysgu” (Ibid:5).

- 2.8 Yn yr un ddogfen, nodwyd nifer o wledydd lle caiff dulliau ffurfiol o ddysgu eu gohirio nes bod plant yn hŷn. Mae'r gymhariaeth ryngwladol hon (o ran cyflawniad ac yn ansawdd canfyddadwy addysg) yn tueddu i dreiddio trwy lawer o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru, gyda barn glir y dylid ystyried yr arfer gorau o bob cwr o'r byd wrth ddatblygu polisïau addysg yng Nghymru, ac yn arbennig wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen.
- 2.9 Nododd yr adroddiad mai ychydig iawn o addysgu llythrennedd a rhifedd yn ffurfiol a geir, os o gwbl, nes bod y plant yn hŷn mewn gwledydd fel Awstralia, Sweden, Denmarc, Y Ffindir a Norwy. O ganlyniad, “pan gyflwynir y sgiliau llythrennedd mwy ffurfiol i blant yn y gwledydd hyn, gwnânt gynnydd cyflym” (Ibid: 11). Mewn perthynas â datblygu iaith, dylai prif ffocws y sector hwn, felly, fod ar “ddatblygu sgiliau siarad a gwranddo plant, gan y bydd y rhain yn sail gadarn i lwyddiant wrth ddarllen ac ysgrifennu yn y dyfodol” (Ibid: 11).
- 2.10 Awgrymodd y ddogfen ymgynghori wreiddiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, felly, y dylid “cynllunio rhaglen newydd i baratoi yn well ar gyfer dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ac ychwanegu ato'n gadarn” (CCC 2003a:6).
- 2.11 Mae'n bwysig nodi mai ychydig iawn o gyfeiriad at y materion penodol sy'n ymwneud â chyflawniad mewn addysg (e.e. cyrhaeddiad yn CA1) a roddir yn llawer o ddogfennaeth gynnar y Cyfnod Sylfaen, ond nodwyd ychydig o gyfeiriadau at gyflawniad disgyblion yn nogfen ymgynghori wreiddiol y Cyfnod Sylfaen (uchod). Mae hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried mai un o nodau allweddol y Cyfnod Sylfaen yw gwella safonau cyflawniad plant, fel y dangosir yn ddiweddarach.

2.12 Fodd bynnag, amlygwyd yn *Y Wlad sy'n Dysgu* (CCC 2001a) bod angen cynnal cynnydd wrth wella lefelau cyflawniad Cyfnod Allweddol 2 – gan nodi bod yr amrediad targed i 60 i 70 y cant o ddisgyblion 11 oed fodloni lefel 4 neu'n uwch wedi cael ei fodloni yn 2000 (tud.19). Amlygwyd yn *Y Wlad sy'n Dysgu* (CCC 2001a) hefyd fod angen lleihau'r bwch mewn cyflawniad rhwng bechgyn a merched (tud.19). Ond, mae'n werth nodi eto mai prin yw'r cyfeiriadau at gyrhaeddiad gwahaniaethol unrhyw grŵp o blant yn nogfennaeth gynnar y Cyfnod Sylfaen. Roedd *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (CCC 2003b) hefyd yn canolbwyntio'n bennaf ar safonau cyflawniad yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, a nododd fod lefelau cyflawniad isel mewn TGAU (yn 15 oed) yn gallu arwain at ymddieithrio cynyddol tuag at addysg a dysgu ar ôl addysg orfodol.

2.13 Fodd bynnag, ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, efallai ei bod yn werth nodi mai ychydig iawn o sôn a thrafod fu am y dystiolaeth ymchwil (gynyddol) i gefnogi'r honiad bod ymyrraeth yn addysg y blynyddoedd cynnar yn ganolog i gyflawniad addysgol diweddarach, er y gallai hynny fod ymhlyg. Yn allweddol, ychydig iawn o sylw a roddir i fanylion y dystiolaeth ymchwil honno ar wahân i'r ffaith y byddai ymyrraeth gynnar wedi bod yn ganlyniadau cadarnhaol (e.e. Melhuish 2004). Ni chydabuwyd hyn mewn gwirionedd nes bod y Cyfnod Sylfaen eisoes yn cael ei ddatblygu (e.e. *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid* (CCC 2006).

2.14 Nod trosfwaol y Cyfnod Sylfaen felly oedd darparu cwricwlwm statudol newydd ar gyfer plant 3 i 7 oed (*Y Wlad sy'n Dysgu* 2001a). Ac yn unol â'r materion a amlygwyd uchod, dyma oedd prif nodau'r Cyfnod Sylfaen, fel y maent wedi eu nodi yn y cynigion gwreiddiol:

- codi safonau cyflawniad plant
- gwella eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu
- mynd i'r afael â'u hanghenion datblygol

- eu galluogi i elwa ar gyfleoedd addysgol yn ddiweddarach yn eu bywydau
- eu helpu i ddod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau (CCC 2003a:6).

2.15 Ar wahân i'r prif nodau, mae'n werth nodi nad oedd mwy o amcanion manwl a thargedau cysylltiedig. Un yn unig o'r prif nodau hyn (codi safonau cyflawniad) y gellid ei fesur ar unwaith ac mewn modd dibynadwy.

2.16 Roedd y cynigion am Gyfnod Sylfaen i blant 3 i 7 oed, a gyhoeddwyd yn 2003, yn adeiladu ar ganfyddiadau Adroddiad 'Hanney'³ (CCC 2001b) (Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Gosod y Sylfaen: *Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd*) a'r *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (ACCAC 1996). Fe'u llywiwyd gan "dystiolaeth gadarn a gafwyd o adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth" (rhagair, CCC 2003a) ynghyd â thystiolaeth o drafodaethau gydag Estyn, Panel Ymgynghorol y Cynulliad ar y Blynyddoedd Cynnar a rhanddeiliaid allweddol, ymhlith pobl eraill, yn ogystal â chanfyddiadau a gyflwynwyd ganddynt.

2.17 Honnwyd bod y cynnig i gael Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd helaeth o dystiolaeth a gafwyd o "ymchwil i arfer da yng Nghymru a thramor" (2003a:1). Felly, roedd y dull a nodwyd yn fwriadol eclecticig a chafwyd cyfeiriadau eglur ac ymhlyg at raglenni o bob cwr o Ewrop a thramor, ac yn arbennig o Sgandinafia, Seland Newydd (Te Whāriki) a Reggio Emilia yng Ngogledd Yr Eidal.

³ Adroddodd Margaret Hanney (CCC 2001b) ar ganfyddiadau ymgynghori helaeth a gynhaliwyd i ystyried patrwm presennol y ddarpariaeth addysgol i blant 3 oed yng Nghymru, ac asesu priodoldeb, costau ac effaith unrhyw ehangu. Nododd Hanney fod y dystiolaeth ryngwladol sylweddol sy'n seiliedig ar ymchwil bod dechrau dysgu ffurfiol yn rhy gynnar – cyn 16 oed – "yn niweidiol i ddatblygiad y plentyn" (2001b:8) ac y dylid darparu'r sylfaen ar gyfer dysgu yn y dyfodol trwy "gwricwlwm datblygiadol priodol ar y cyd ag anghenion a diddordebau penodol y plentyn" (2001b:16).

- 2.18 Cadarnhaodd y cynigion y byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy “addasu ac integreiddio'r Canlyniadau Dymunol gyda'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yn y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol ar gyfer CA1” (CCC 2003a:9).
- 2.19 Cynigiwyd dull mwy priodol – datblygiadol briodol – a fyddai'n galluogi plant i “elwa ar gyfleoedd addysgol yn ddiweddarach yn eu bywydau... [ac felly] cyflawni eu potensial” (Ibid 2003a:6). Roedd hwn yn ddull o ddysgu sy'n ‘canolbwyntio ar y plentyn’⁴, sy'n cryfhau, yn egluro ac yn ymestyn yr egwyddorion a'r arfer a nodir yng nghyhoeddiad Canlyniadau Dymunol (ACCAC 1996:9,14) ac sy'n ymgorffori cwricwlwm cyfannol – cwricwlwm sy'n seiliedig ar Feysydd Dysgu yn hytrach na phynciau ar wahân.
- 2.20 Mewn perthynas ag addysgeg, nododd yr adroddiad fod “y rhaglenni mwyaf effeithiol yn y blynyddoedd cynnar yn pwysleisio gwaith archwilio, datrys problemau, cymryd rhan weithredol, datblygu iaith a mathau gwahanol o chwarae” (CCC 2003a:9) yn ogystal â gweithgareddau ymarferol ac ymchwilio (tud.5). Roedd hyn yn cynnwys chwarae ac archwilio yn yr amgylchedd awyr agored (tud.13). Honnodd yr adroddiad y dylid gwneud y defnydd gorau posibl o'r amgylchedd awyr agored (tud.15) sy'n “rhan fawr o'r profiadau a gynigir i blant ifanc mewn llawer o wledydd, gan gynnwys y rhai sydd â hinsawdd sy'n debyg i'n hinsawdd ni neu sy'n fwy cyfnewidiol na'n hinsawdd ni” (tud.13) gan felly roi cyfleoedd i blant “ddatrys problemau go iawn a'u galluogi i ddysgu am eu hamgylchedd, i'w fwynhau ac i ofalu amdano” (tud.13).
- 2.21 Amlinellwyd rôl glir ar gyfer yr ymarferwr sy'n gweithio “ochr yn ochr â grwpiau o blant ac unigolion, gan ymateb yn ddigymell i'w hanghenion a'u diddordebau a chan eu herio a'u hysgogi i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu” (tud.13). Honnodd hefyd y dylid “cyflwyno ffyrdd

⁴ Nodir bod y cynigion “yn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion sy'n canolbwyntio ar blant sy'n sail y Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc” (rhagair).

mwy ffurfiol o weithio i blant yn raddol” (tud.13) ym mlwyddyn olaf y Cyfnod Sylfaen, “neu’n gynharach ar gyfer y rheiny sy’n dangos eu bod yn barod” (tud.15).

2.22 Y materion eraill a amlygwyd yn y cynnig oedd y dylai datblygiad personol a chymdeithasol a lles plant fod yn ganolog i’r Cyfnod Sylfaen - fel yn Nenmarc, Reggio Emilia a Seland Newydd (tud.11); y dylai athrawon annog plant i fod yn annibynnol a gwneud penderfyniadau - fel yn Nenmarc, Yr Almaen, Reggio Emilia a Seland Newydd, yn ogystal ag yn y rhaglen Cwmpas Uchel (tud.10); eu sgiliau creadigol a mynegi ac arsylwi - fel yn Reggio Emilia a Sbaen (tud.12); a chefnogi plant fel dysgwyr gydol oes - er enghraifft, datblygu sgiliau meddwl plant (tud.9) a chryfhau eu trefniadau dysgu (tud.10) - fel sy’n cael ei hyrwyddo yn Seland Newydd).

2.23 Cydnabuwyd arwyddocâd profiadau dysgu plant gartref hefyd, yn yr un modd â’r angen i roi sylw i ddatblygu dwyieithrwydd a dealltwriaeth amlddiwylliannol plant (tud.12-13) (fel sy’n cael ei hyrwyddo yn Seland Newydd) er mwyn “sicrhau bod plant yn datblygu dealltwriaeth o’u rolau fel dinasyddion cymdeithas ddwyieithog ac amlddiwylliannol yn y dyfodol” (tud.6).

2.24 Felly, yn gryno, y rhesymwaith a nodwyd ar gyfer cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen oedd pryder bod y cwricwlwm a’r addysgeg bresennol sy’n rhy ffurfiol yn amhriodol ar gyfer plant ifanc ac y gallai fod yn niweidiol i’w dysgu a’u cyrhaeddiad yn ddiweddarach. Yn unol â rhaglenni effeithiol y blynyddoedd cynnar a welwyd ledled Ewrop a thu hwnt, dylid gohirio dulliau mwy ffurfiol a’u cyflwyno’n raddol dim ond pan fydd plant yn barod yn ddatblygiadol. Dylai dulliau o ddysgu gweithredol yn seiliedig ar chwarae gefnogi datblygiad sgiliau iaith a meddwl plant, er enghraifft, a’u trefniadau dysgu cadarnhaol. Byddai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn deillio o fabwysiadu ac integreiddio’r Canlyniadau Dymunol gyda’r rhaglenni astudio a’r datganiadau ffocws yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1.

2.25 Cynigiodd y Cyfnod Sylfaen ddull newydd o addysgu a dysgu plant ifanc yng Nghymru y gellid ei ystyried yn radical o ran addysgeg ac yn newydd o ran y ffocws ar ddatblygiad unigol plant. Roedd y pwyslais ar addysgeg yn seiliedig ar ddealltwriaeth a dehongliad o nifer o ddamcaniaethau addysgol allweddol ac ar yr arfer a'r polisiâu yn addysg y blynyddoedd cynnar o nifer o wledydd gwahanol ledled y byd. Fel y byddwn yn ei ddangos, roedd y ffordd benodol yr oedd y Cyfnod Sylfaen yn datblygu yng Nghymru yn golygu nad oedd dyluniad na model o'r achos i'r effaith ar gyfer y dull neu'r cwricwlwm newydd hwn. I ryw raddau, roedd hyn ymhlyg yn y pryderon am y Cyfnod Allweddol 1 blaenorol a'r rhesymwaith sylfaenol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen newydd. Fodd bynnag, er mwyn deall yn llawn beth yw'r Cyfnod Sylfaen, sut bwriedir ei gyflwyno, ac felly, sut dylid ei werthuso, mae angen gwneud y dull hwn yn eglur. Cyfeiriwn at hyn fel y theori rhaglen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sydd yn ein barn ni yn sail i lawer o'r model rhesymeg polisi (gweler Ffigur 2). O ganlyniad, mae'r adroddiad yn awr yn ceisio datblygu'r theori rhaglen hon cyn mynd ymlaen i amlinellu gweddill elfennau'r Cyfnod Sylfaen (*mewnbynnau, prosesau a gweithgareddau*).

3 Adeiladu Theori Rhaglen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

- 3.1 O ystyried y rhesymwaith blaenorol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mae'n ddefnyddiol amlinellu dwy sefyllfa ddamcaniaethol fras sy'n gynhenid i draddodiad y blynyddoedd cynnar yn y gorllewin, sef: 'lluniadaethol' a 'cymdeithasol-ddiwylliannol'. Er bod y damcaniaethau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd mewn rhaglenni'r blynyddoedd cynnar, maent yn cynrychioli gwahanol safbwyntiau am y modd y mae plant yn creu ystyr, ac yn arwyddocaol, y ffordd orau y gallai oedolion gefnogi plant. Er bod lluniadaethwyr yn pwysleisio adeiladwaith unigol ystyr trwy weithredu ar y byd, mae lluniadaethwyr cymdeithasol yn honni na ellir cyflawni hyn heb rai eraill – proses gymdeithasol yw hi. Mae theori cymdeithasol-ddiwylliannol yn rhannu'r ffocws hwn ar y 'cymdeithasol' ond yn pwysleisio pwysigrwydd gweithgarwch ar y cyd mewn cyd-destunau a diwylliannau penodol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, fel Anning et al. (2009), rydym yn defnyddio'r term 'cymdeithasol-ddiwylliannol' i ymgorffori ystod eang o ddamcaniaethau cysylltiedig sy'n pwysleisio'r 'cymdeithasol', gan gynnwys lluniadaeth gymdeithasol.

Traddodiad y Blynyddoedd Cynnar

- 3.2 Mae rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn y byd gorllewinol, i raddau mwy a llai, yn cyd-fynd â syniadau a gynigiwyd gan 'arloeswyr y blynyddoedd cynnar'. Mae creadigaeth y plentyn yn nhraddodiad y blynyddoedd cynnar yn groes i'r Plentyn Piwritan sydd wedi'i ddifwyno gan bechod gwreiddiol ac angen ei ddisgyblu (gweler James a James 2008); â phlentyn John Locke fel 'llechen wag' (tabula rasa) y mae angen cyfarwyddyd ac arweiniad arno; ac â phlentyn truenus y Traddodiad Elfennol, yr oedd ei addysg yn canolbwyntio ar oddefoldeb ac ufudd-dod (Smith 1931), cwricwlwm cul (y '3R'), dulliau addysgu traddodiadol (drilio ac ymarfer) a disgyblaeth gadarn. Caiff syniadau allweddol yr arloeswyr mwyaf adnabyddus eu disgrifio isod.

- 3.3 Roedd Jean-Jacques Rousseau (1712-1778), a oedd yn rhan o fudiad Rhamantaidd yr Almaen, yn honni bod plant yn dysgu trwy eu synhwyrau a thrwy ganlyniadau eu gweithredoedd yn hytrach na thrwy ymyrraeth gan oedolyn a chosb. I Rousseau, roedd plentyndod yn gyfnod o ddiniweidrwydd, a dylid ei gadw felly. Wrth ddefnyddio syniadau Rousseau, roedd Johann Pestalozzi (1746-1827) am weld sut y gellid gweithredu'r rhain yn ymarferol. Credai mewn addysgu'r plentyn cyfan, a honnai y dylid galluogi plant i ymgymryd â'u diddordebau eu hunain a dod i'w casgliadau eu hunain. Roedd am i blant ymgymryd â gweithgarwch ymarferol, a datblygu eu pwerau arsylwi a rhesymu yn hytrach na dysgu 'geiriau diystyr' ar y cof. Mynychodd Friedrich Froebel (1782-1852) sefydliad hyfforddi Pestalozzi ond roedd yn idealydd ac yn gweld bod gwir addysg yn cael ei sefydlu yn unol â chrefydd a natur. Credai bod plant yn cael eu geni'n dda a'u bod yn dysgu trwy brofiad a hunanweithgarwch rhydd; trwy chwarae, roedd plant, fel Duw, yn ddyfeisgar a chreadigol. Felly, roedd yr ysgol feithrin yn lle y gallai plant dyfu a datblygu mewn cytgord â natur.
- 3.4 Roedd Maria Montessori (1870-1952), a weithiai mewn cymuned dlawd yng nghanol dinas Rhufain, yn gweld y tŷ yn drosiad ar gyfer addysg gynnar. Roedd plant mewn dosbarthiadau oedran cymysg yn rhydd i ddewis gweithgareddau ond roedd hyn o blith ystod o ddeunyddiau neu dasgau strwythuredig a chyfarwyddiadol o bosibl mewn amgylchedd parod a oedd yn pwysleisio harddwch, cytgord a threfn, er enghraifft. Diwygiwr cymdeithasol yn gweithio yn slymiau Deptford oedd Margaret McMillan (1860-1931), ac aeth ati i drawsnewid safle diffaith yn feithrinfa awyr agored er mwyn gwella iechyd plant a chefnogi eu datblygiad trwy chwarae a thyfu llyisiau, er enghraifft. Bu Susan Isaacs (1885-1948) yn rhedeg ysgol arbrofol i blant hynod freintiedig yng Nghaergrawnt rhwng dwy a hanner a saith oed, sef Ysgol y Tŷ Bragu (Malting House School) – a oedd yn anelu at gefnogi plentyndod ac addysg yn seiliedig ar hunanddarganfyddiad ac ymchwilio gwyddonol, heb gyfyngu llawer ar ryddid plant. Yn olaf, ymatebodd John Dewey

(1859-1952), sef athronydd o America a oedd â'i fryd ar ddemocratiaeth a diwygio cymdeithasol, yn wrthun i'r syniad fod addysg yn ymwneud â dysgu ffeithiau ar y cof a phynciau sefydledig. Yn hytrach, honnodd y dylid galluogi plant i ddysgu trwy brofiad uniongyrchol mewn ffyrdd sydd hefyd yn cefnogi eu hymdeimlad o fod yn rhan o gymuned ddemocrataidd.

- 3.5 Felly, mewn gwahanol ffyrdd ac at wahanol ddibenion, roedd yr arloeswyr i gyd yn cefnogi addysg 'sy'n canolbwyntio ar y plentyn', ac addysg sydd, yn gyffredinol, yn gweld y plentyn yn gynhenid chwilfrydig a galluog; yn gwerthfawrogi chwarae rhydd a dysgu uniongyrchol sy'n deillio o ddiddordebau plant unigol a thorri ar draws ffiniau pynciol; ac yn gweld yr athro fel arweinydd a hyrwyddwr yn hytrach na hyfforddwr (Kwon, 2002). Mewn cymdeithasau gorllewinol, mae'r traddodiad hwn, gan ddefnyddio *theori luniadaethol* am ddysgu, yn ategu o bosibl yr hyn sy'n cael ei weld gan lawer o ymarferwyr heddiw fel addysg 'dda' y blynyddoedd cynnar.

Y Plentyn sy'n Datblygu

- 3.6 Mae syniadau lluniadaethol ynglŷn â dysgu wedi eu gwreiddio yn namcaniaethau Jean Piaget - er iddo ymdrin yn bennaf â datblygiad plant ac nid eu haddysg. Roedd Piaget yn ystyried mai gweithredu wedi'i fewnoli yw meddwl (e.e. Piaget ac Inhelder 1969) a rhannodd datblygiad gwybyddol - datblygu meddwl rhesymegol - yn nifer o gamau ar wahân sy'n pennu ac yn cyfyngu ar y modd y mae'r plentyn yn gwneud synnwyr o'r byd. Gwelir bod symud trwy'r camau hyn - er enghraifft, datblygu o'r pethau syml a diriaethol i'r pethau mwy cymhleth a haniaethol - yn dibynnu i raddau helaeth ar archwilio gweithredol y plentyn o'r byd ac arbrofi (dysgu trwy achos ac effaith) a phrosesau cymathu ac addasu profiadau newydd, wedi'i sbarduno gan ymdeimlad o ddiffyg cydbwysedd rhwng dealltwriaeth newydd a dealltwriaeth gyffredol. Fel hyn, dadleuid bod dysgu'n cael ei gymell gan ymgais i adennill cydbwysedd gwybyddol (Siegler 1998).

- 3.7 Felly, yn ôl damcaniaethau lluniadaethol, mae plant yn creu ystyr trwy weithredu yn unol â'r byd⁵, trwy adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod eisoes (datblygu sgema cynyddol gymhleth). Tybir yn gyffredinol felly bod datblygiad yn arwain dysgu. Mae athrawon lluniadaethol yn darparu adnoddau a gweithgareddau sy'n briodol i gyfnod datblygu presennol y plentyn, yn cefnogi ei chwarae a'i ddysgu gweithredol, ei sgiliau ymchwiliol a datrys problemau ac yn monitro ei 'barodrwydd' i symud ymlaen i'r cam nesaf. Awgrymwyd y gallai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ystyried bod chwarae yn rhywbeth sy'n perthyn i'r plentyn, o ganlyniad i bŵer traddodiad y blynyddoedd cynnar: dyma ffordd y plentyn o wneud synnwyr o'r byd ac mae'n rhywbeth na ddylai athrawon ymyrryd ag ef (Maynard a Chicken 2010).
- 3.8 Mae Walkerdine (1990) yn cyfeirio at gydblythu'r ddwy ymdriniaeth, sef addysgeg sy'n canolbwyntio ar y plentyn a seicoleg ddatblygiadol gyda'i ffocws ar y plentyn unigol. Mae 'theori datblygiad y plentyn' – sy'n ategu'r syniad o arfer 'sy'n briodol ddatblygiadol' – wedi cael ei beirniadu'n helaeth (e.e. Dahlberg et al. 2006). Mae Burman (2007), er enghraifft, yn datgan bod dysgu'n tueddu i gael ei bortreadu fel rhywbeth cul, llinol a mesuradwy yn y theori hon; mae'r plentyn cyffredinol mewn cyferbyniad â'r plentyn unigryw yn symud trwy gyfres o gamau – ysgol cymhwysedd – gyda cherrig milltir yn dynodi'r hyn y dylai plant o oedran penodol fod yn ei wneud, gan geisio ffurfio pob plentyn mewn ffyrdd a bennwyd ymlaen llaw (O'Loughlin 2009).
- 3.9 Mae Robson (2006) yn nodi bod amheuaeth sylweddol ymhlith ymchwilwyr ynghylch p'un a yw "pob datblygiad yn cefnogi un patrwm, dros gyfnod ac ar draws diwylliannau" (2006:16) ac awgrymwyd y gallai'r damcaniaethau hyn olygu bod plant o grwpiau diwylliannol penodol yn cael eu gwthio i'r cyrion a'u rhoi dan anfantais (Cannella 2005). Gan gyfeirio at waith Siegler (2000), mae Robson yn nodi bod

⁵ Yn ôl DeVries (1997), efallai nad yw'r rôl yr oedd Piaget yn ei phriodoli i ryngweithio cymdeithasol yn natblygiad plant wedi cael ei phwysleisio'n ddigonol.

datblygiad gwybyddol yn awr yn cael ei weld fel “busnes llawer mwy anniben, sydd wedi'i nodweddu gan drosiad o we pry cop, neu donnau sy'n gorgyffwrdd” (Robson 2006:17). Ni ystyrir bod damcaniaethau am ddatblygiad y plentyn yn adlewyrchu amrywiaeth ac arwyddocâd profiadau unigol plant; cymhlethdod y dysgu; a'r amrywiadau yn llwybrau datblygiadol plant.

Y Plentyn Cymdeithasol (mewn cyd-destun diwylliannol)

3.10 Fel theori luniadaethol, mae damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol hefyd yn ystyried plant yn wneuthurwyr ystyr gweithgar ond yn rhoi rhyngweithio cymdeithasol yn ganolog i ddysgu a datblygiad plant ac yn pwysleisio rôl diwylliant, gweithgarwch cydweithredol a rhyngweithio ag oedolion neu blant eraill mwy gwybodus. Trwy eu gweithredoedd a'u rhyngweithio mewn cyd-destunau penodol, gwelir bod y plentyn yn mewnoli offer diwylliannol fel iaith a rhif ac i ystyron diwylliannol priodol. Dywedir bod angen i'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant ifanc felly ddeall y teuluoedd a'r cymunedau y mae plant yn byw ynddynt – dylent “gymryd diwylliant o ddifrif” (Brooker 2011:147).

3.11 Mae cysyniad Vygotsky o barth datblygiad procsimol (zpd) yn bwysig yma. Diffiniodd Vygotsky y zpd fe “y pellter rhwng y lefel ddatblygiadol wirioneddol fel y pennwyd gan ddatrys problemau yn annibynnol a lefel y datblygiad posibl fel y pennwyd trwy ddatrys problemau o dan arweiniad oedolion neu ar y cyd â chyfoedion mwy galluog” (Vygotsky 1978:86). Honnodd mai'r “unig ddysgu da yw'r dysgu sy'n digwydd cyn datblygiad” (Vygotsky 1978:89). Gall athrawon ‘sgaffaldio’ (Wood, Bruner a Ross, 1976) dysgu plant⁶; er enghraifft, gallant roi cymorth i'r plentyn er mwyn gweithio ar y lefel datblygiad ‘posibl’, gan roi'r gorau i sgaffaldio – neu ‘roi'r gorau i sgaffaldio yn raddol’ wrth i'r plentyn ddangos y gall gwblhau'r dasg ar ei ben ei hun (Wood a Wood 1996).

⁶ Disgrifir rhai o'r llu ddehongliadau o 'sgaffaldio' yn Daniels (2001).

- 3.12 O fewn yr ystod o syniadau y gellir nodi eu bod yn gymdeithasol-ddiwylliannol, mae Jordan (2009) yn gwahaniaethu rhwng 'sgaffaldio', lle mae gan yr athro amcan dysgu clir fel arfer, yn dangos ac yn modelu sgiliau ac yn rhoi adborth ar sgiliau gwybyddol, ac yn 'cyd-adeiladu'. Wrth gyd-adeiladu, mae'r athro a'r plentyn yn gyfranogwyr cyfartal a gweithredol. Nid yw'r athro wedi pennu canlyniad y cynnwys ymlaen llaw, ac mae'n fodlon dilyn arweiniad y plentyn, gan ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i brofiadau cyd-destunol a diwylliannol ei hun a chreu cysylltiadau "dros amser ac ar draws gweithgareddau" (2009:50). Diben y cyd-adeiladu yw creu ystyr ar y cyd, ond mae Jordan yn honni ei fod yn fwy tebygol o gynnwys plant mewn meddwl ar lefel uwch o gofio eu rhan mewn profiadau gwerthfawr dilys. Gellid gweld y syniad o 'gyfranogiad dan arweiniad' (Rogoff 2003), lle mae dysgu'n digwydd o ganlyniad i ystod o weithgareddau dilys mewn cyd-destunau penodol – rhai yn fwriadol, eraill ddim – fel pont rhwng cyd-adeiladu a sgaffaldio.
- 3.13 Mae damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu ar y cyd a 'siarad', arwyddocâd diwylliant ac yn nodi rôl glir ar gyfer yr athro sy'n gallu sgaffaldio neu gefnogi – cadarnhau, herio neu ymestyn – dealltwriaeth neu syniadau plant – trwy ryngweithio medrus neu 'gythruddion' (Maynard a Chicken 2010). Mae'r pwyslais ar feddiannu a mewnnoli agweddau, gwerthoedd a strategaethau penodol a ddatblygwyd i ddechrau trwy weithredu ar y cyd a rhyngweithio, hefyd yn dangos pŵer efelychu a rôl bwerus ar gyfer yr athro wrth fodlu nodweddion dysgu penodol (gweler, er enghraifft, Claxton 2008).
- 3.14 Wrth gysylltu safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol, mae Claxton a Carr (2004) yn cyfeirio at 'drefniadau dysgu cadarnhaol: o'i roi yn syml, 'agwedd' yw ffordd nodweddiadol unigolyn o ymateb i'r amgylchedd. Gellir cryfhau neu wanhau agweddau dysgu, y mae llawer ohonynt yn gynhenid, trwy weithredoedd a rhyngweithio wrth weithio gyda phlant. Mae Claxton a Carr yn honni bod angen i ni feddwl am y ffordd y mae athrawon yn gweithio gyda phlant os ydym am i blant ddod yn

ddysgwyr gydol oes gwell – i gryfhau neu ddatblygu agweddau cadarnhaol o ddysgu fel hyder, chwilfrydedd, cadernid, gwydnwch, bywiogrwydd, dwyochredd, ac ati.

3.15 Mae Claxton a Carr (2004) yn gwahaniaethu rhwng amgylchedd ‘ataliol’ lle caiff dewisiadau ac ymddygiad plant eu rheoli’n llym; amgylchedd sy’n rhoi cyfleoedd i ddatblygu agweddau dysgu cadarnhaol, ond ni chaiff y rhain eu pwysleisio na’u gwerthfawrogi; amgylchedd ‘deniadol’ lle caiff y cyfle i holi cwestiynau, er enghraifft, ei werthfawrogi’n glir; ac amgylchedd ‘grymusol’ (pwerus) lle caiff agweddau cadarnhaol eu hymestyn a’u datblygu’n weithredol, yn aml trwy brofiadau ar y cyd lle mae plant yn ogystal ag oedolion yn cymryd cyfrifoldeb am gyfarwyddo gweithgareddau.

3.16 Fel y nodwyd uchod, honnir y dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr cymwys ddewis rhwng gweithgareddau a phrofiadau sy’n briodol i’w diddordebau a’u datblygiad a chael eu cefnogi gan oedolion cynnes, ymatebol; dylai plant gael eu clywed, eu gwerthfawrogi a theimlo bod ganddynt reolaeth. Mae hyn hefyd yn ymwneud â theori ‘hunanbenderfyniad’. Mae’r theori hon wedi cael ei diwygio nifer o weithiau, ond yn ei hanfod, mae Deci a Ryan (2002) yn nodi tri angen seicolegol sylfaenol sy’n cefnogi gweithredu dynol iach – gan alluogi’r unigolyn i gyflawni ei botensial. Y rhain yw:

- cymhwysedd (teimlo’n effeithiol yn rhyngweithio parhaus rhywun gyda’r amgylchedd cymdeithasol a chael cyfleoedd i arfer a mynegi’ch galluoedd)
- perthynas (teimlo bod gennych gyswllt â phobl eraill, cael ymdeimlad o berthyn gydag unigolion eraill a gyda’ch cymunedau)
- ymreolaeth (teimlo’n gyfforddus gyda’ch ymddygiad).

3.17 Mae Deci a Ryan (2002) yn nodi bod angen cefnogi cymhelliant cynhenid plant sydd hefyd yn cyd-fynd â gwaith Dweck (2000), gan ddangos bod ffocws o’r fath yn hanfodol os yw plant am ddatblygu

'cyfeiriadedd meistrolaeth' tuag at ddysgu mewn cyferbyniad â 'diymadferthedd dysgedig'. Mae Dweck (2000) yn honni y dylai'r ffocws fod ar nodau dysgu yn hytrach na chystadleuaeth a nodau perfformiad. Mae theori hunanbenderfyniad hefyd yn pwysleisio'r cyswllt agos sy'n bodoli rhwng gwybyddiaeth ac emosiwn. Mae Goleman yn honni bod 'deallusrwydd emosiynol' yn cyfeirio at "y gallu i gydnabod ein teimladau ein hunain a theimladau pobl eraill, i gymell ein hunain, ac ar gyfer rheoli emosiynau yn dda ynom ni ein hunain ac yn ein perthnasoedd" (Goleman 1999:317), gan felly ymgorffori hunanymwybyddiaeth, hunanreoleiddio, cymhelliant ac empathi.

Tair o Raglenni'r Blynyddoedd Cynnar

- 3.18 Nodwyd uchod bod cynigion y Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at raglenni o bob cwr o Ewrop a thu hwnt, ond eu bod yn benodol yn pwysleisio addysg plentyndod gynnar yn 'Reggio Emilia' yng Nogledd Yr Eidal, Seland Newydd (Te Whāriki) a Sgandinafia. Er eu bod yn defnyddio theori luniadaethol i raddau, mae'r rhaglenni hyn i gyd wedi eu hategu gan ddamcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol – damcaniaethau sy'n pwysleisio arwyddocâd perthnasoedd, cyfranogiad a diwylliant, er enghraifft. Mae Aasen a Waters (2006) wedi dadlau bod angen i lunwyr polisi ac ymarferwyr fabwysiadu golwg cymdeithasol-ddiwylliannol o'r plentyn, os yw lles am fod yn ganolog i'r Cyfnod Sylfaen.
- 3.19 Wrth ddisgrifio'r tair rhaglen hyn, rydym yn gwneud defnydd helaeth o ddogfen y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), 'Five Curriculum Outcomes', a gyhoeddwyd yn 2004, a ddeilliodd o weithdy ar gyfer cydlynwyr cenedlaethol polisi plentyndod cynnar, a gynhaliwyd yn Stockholm yn 2003. Yn adroddiad yr OECD, seiliwyd y disgrifiad o Reggio Emilia ar nodiadau gan Dr Carlina Rinaldi; roedd gwybodaeth am Te Whāriki yn seiliedig ar gyflwyniad gan yr Athro Helen May; a disgrifiwyd cwricwlwm Sweden gan yr Athro Ingrid Pramling.

Reggio Emilia

- 3.20 Ardal yng Ngogledd Yr Eidal yw Reggio Emilia, sy'n adnabyddus am y sefydliadau cyn-ysgol arloesol. Mae'r syniad bod gan y plentyn hawliau a'i fod yn ddysgwyr cymwys, gweithgar 'sy'n adeiladu ac yn profi damcaniaethau amdani hi ei hun a'r byd o'i chwmpas yn barhaus' (OECD 2004:12) yn ganolog i'r dull hwn. Perthnasoedd sydd wrth wraidd addysg – tra bod plant yn creu eu hystyr eu hunain, caiff hyn, a datblygu hunangysyniad cadarnhaol, ei gefnogi pan gaiff y plentyn 'ei amgylchynu gan berthnasoedd cynnes ar y ddwy ochr' (OECD 2004:12). Mae natur ganolog perthnasoedd – rhwng pobl a rhwng syniadau a'r amgylchedd – yn arwain at bwyslais ar gyfathrebu a 'gwrando o ddifrif' ar y plentyn (OECD 2004:12). Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar fynegiant plant a'u damcaniaethau a chreu ystyron. Caiff plant ifanc eu hannog i archwilio eu damcaniaethau a'u profiadau yn symbolaidd gan gynrychioli'r rhain trwy wahanol ffyrdd o fynegi – geiriau, ystumiau, trafod, meim, symud, arlunio, paentio, ac ati – ieithoedd niferus plant.
- 3.21 Mae Reggio Emilia yn cefnogi cwricwlwm ymddangosol, a bennir gan blant trwy gydweithio â'i gilydd a'u hathrawon, sy'n cael ei amgylfred fel taith i ddarganfod (OECD 2004:13); nid oes unrhyw nodau neu safonau wedi'u cynllunio gan y byddai'r rhain yn "gwthio ysgolion tuag at addysgu heb ddysgu" (Malaguzzi 1993). Mae athrawon yn gyd-ddysgwyr neu'n gyd-ymchwilwyr, yn adnodd ac yn ganllaw. Mae athrawon yn gwrando'n ofalus i arsylwi a 'dogfennu' gwaith plant a "thwf y gymuned yn yr ystafell ddosbarth" (OECD 2004:15) gan ennyn, cyd-adeiladu ac ysgogi meddwl a chydweithio plant gyda chyfoedion. Ystyrir bod amgylchedd yn bwysig: y trydydd athro. Mae dogfennaeth yn cynnig cof gweladwy o'r hyn y mae plant wedi ei wneud a'i ddweud; mae'n rhoi cipolwg ar brosesau dysgu plant; ac yn rhoi gwybodaeth i rieni a'r gymuned am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

Te Whāriki

- 3.22 Fframwaith ar gyfer cefnogi dysgu a datblygiad plant o ddiwrnod eu geni nes eu bod yn chwech oed yn Seland Newydd yw Te Whāriki. Mewn cyd-destun o ddatblygu parhad mewn dysgu o'r dydd y caiff plentyn ei eni hyd addysg drydyddol, cyhoeddwyd tendr ar gyfer cwricwlwm plentyndod cynnar gan lywodraeth Seland Newydd. Cyflwynwyd cynnig gan Helen May a Margaret Carr o Brifysgol Waikato, yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddatblygu 'cwricwlwm math ysgol' gyda sgiliau a gwybodaeth wedi'u diffinio ymlaen llaw a gwybodaeth neu "fframwaith seicoleg ddatblygiadol" (OECD 2004:16) yn seiliedig ar ddatblygiad deallusol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol. Derbyniwyd hyn, ac ar ôl ymgynghori eang (gan gynnwys rhieni), datblygwyd Te Whāriki gyda chysylltiadau â theuluoedd/rhieni/y gymuned a'r Iaith Māori a'i diwylliant fel ei brif bileri.
- 3.23 Mae Te Whāriki yn cyfieithu fel 'mat wedi'i wehyddu' i bawb sefyll arno, a gwelir hyn yn drosiad sy'n cynrychioli'r ffaith ei fod yn cynnwys safbwyntiau, diwylliannau a dulliau lluosog. Mae'n fframwaith o egwyddorion a dulliau cytûn sy'n cael eu hategu gan ddull cymdeithasol-ddiwylliannol yn seiliedig ar awydd i feithrin agweddau dysgu plant, hyrwyddo deu-ddiwylliannedd ac adlewyrchu gwirioneddau bywydau plant. Dyma egwyddorion arweiniol y fframwaith: dylai adlewyrchu datblygiad cyfannol plant; hyrwyddo rhoi grym i blant; cryfhau cysylltiadau teuluol a chymunedol; hyrwyddo dysgu trwy berthnasoedd ymatebol a dwyochrog.
- 3.24 Y pum elfen allweddol i ddysgwyr yw lles, perthyn, cyfrannu, cyfathrebu ac archwilio. Nodir tri i bedwar o nodau bras ar gyfer pob elfen. Mae'r rhain yn ymwneud, er enghraifft, â meithrin lles emosiynol plant, gwybod beth yw cyfyngiadau ymddygiad derbyniol; datblygu sgiliau cyfathrebu llafar at ystod o ddibenion a phrofi storïau a symbolau'r diwylliannau a gwerthfawrogi chwarae, gan gynnwys chwarae digymell. Caiff nodau ac elfennau eu datblygu ymhellach gyda chanlyniadau

dysgu a awgrymir neu bosibl, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn eang a chyfannol.

Cwricwlwm Sweden

- 3.25 Mae'r cwricwlwm cyn-ysgol yn eistedd o fewn system o ddatganoli a dadreoleiddio. Er mai'r wladwriaeth sy'n pennu'r nodau a'r canllawiau cyffredinol, mae bwrdeistrefi ac ymarferwyr yn cymryd cyfrifoldeb am ei roi ar waith. Caiff sefydliadau cyn-ysgol eu hannog i weithio ar bob agwedd ar ddatblygiad y plentyn - ei ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol a'i ddysgu - gan gynnwys ennyn diddordeb mewn iaith ysgrifenedig a mathemateg - yn ogystal â chanolbwyntio ar 'werthoedd a normau'. Gwelir bod dysgu wedi'i seilio ar chwarae, rhyngweithio cymdeithasol, archwilio a chreadigrwydd, yn ogystal â thrwy arsylwi, trafod a myfyrio. Nodir bod iaith, dysgu a hunaniaeth yn cydberthyn yn agos a bod plant yn creu ystyr - ffocws canolog y dysgu - trwy gyfathrebu a chwarae. Gwelir bod y plentyn yn creu ei ystyr ei hun gyda'r goblygiad bod yn rhaid gwneud dysgu yn briodol i'r plentyn unigol. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff yr ystyr hwn ei greu hefyd yn dibynnu ar y plentyn cyfan ac mewn cyd-destun penodol.
- 3.26 Mae cwricwlwm Sweden yn amlinellu pum grŵp o nodau sy'n ymgorffori'r canlynol: dealltwriaeth o werthoedd democrataidd cyffredin, parch at bobl eraill a chyfiawnder a chydaddoldeb; mabwysiadu dull addysgegol sy'n cyfuno gofal, meithrin a dysgu trwy weithgareddau sy'n ysgogi chwarae, creadigrwydd a dysgu llawen; hyrwyddo democratiaeth a rhoi cyfrifoldeb cynyddol i blant am eu gweithredoedd a'r amgylchedd; cydweithredu rhwng y sefydliad cyn-ysgol a'r cartref.
- 3.27 Dylai sefydliadau cyn-ysgol sicrhau bod plant, er enghraifft, yn datblygu: hunangysyniad cadarn a chadarnhaol; y gallu i wrando a mynegi eu safbwyntiau; eu geirfa, eu gallu i chwarae gyda geiriau a diddordeb yn yr iaith ysgrifenedig; sgiliau bywyd fel sgiliau cydweithredol, blaengaredd, hyblygrwydd, myfyrdod, sgiliau datrys problemau, creadigrwydd; a nodau sy'n benodol i bwnc yn

canolbwyntio ar feysydd dysgu penodol (OECD 2004:23). Mae rhagdybiaethau sy'n ategu dysgu yn cynnwys cydnabod bod y plentyn yn profi pob sefyllfa mewn ffordd unigryw; bod angen cefnogi plant i ddewis a gosod eu nodau eu hunain ar gyfer dysgu; bod plant yn creu ystyr newydd mewn cyfathrebu gyda phobl eraill neu'r byd; bod gwneud plant yn agored i amrywiaeth yn eu helpu i sylweddoli bod ffyrdd eraill o feddwl a gwneud; a bod dysgu yn broses gydol oes (OECD 2004:24).

Sylw

- 3.28 Roedd arloeswyr y blynyddoedd cynnar wedi eu huno yn y ffordd y maent yn hyrwyddo dull – addysg sy'n canolbwyntio ar y plentyn – a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi'r hyn a oedd yn cael eu hystyried yn ffyrdd 'naturiol' plant o fodoli a chreu ystyr: sut maent yn gweld y byd. Gallai traddodiad y blynyddoedd cynnar, sy'n gysylltiedig â theori luniadaethol, adlewyrchu barn gyffredin ymhlith ymarferwyr presennol ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud addysg 'dda' yn y blynyddoedd cynnar, ac felly gall fod ganddo oblygiadau i'r ffordd y maent yn gweithio gyda phlant.
- 3.29 Efallai bod rhaglenni blynyddoedd cynnar Reggio Emilia, Seland Newydd a Sweden yn defnyddio theori luniadaethol ond maent yn pwysleisio safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol – mae ffocws penodol, er enghraifft, ar arwyddocâd siarad, perthnasoedd, lles a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol; gweld plant fel dysgwyr galluog; plant 'yn teimlo'n gartrefol' mewn cymunedau penodol; ac ar ddatblygu sgiliau ac agweddau sy'n eu galluogi i ddod yn ddysgwyr gydol oes. Dylid nodi bod gan y rhaglenni hyn fframweithiau/cwricwlwm ymddangosol (Reggio Emilia) neu 'gyffyrddiad ysgafn' (Seland Newydd, Sweden).
- 3.30 Gellid beirniadu addysgeg luniadaethol am ddiffyg ymyrraeth gyffredinol gan oedolion; gellid beirniadu addysgeg gymdeithasol-

ddiwylliannol am nad ydynt yn canfod yr angen am ymyrraeth gynnar fwy ffurfiol neu systematig (addysgu uniongyrchol) mewn perthynas â datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd – yn enwedig ar gyfer y plant ifanc hynny nad ydynt wedi profi amgylchedd dysgu cadarnhaol gartref.

4 Y Cyfnod Sylfaen: Y Theori Rhaglen

- 4.1 Yn y bennod hon, rydym yn ceisio sefydlu theori rhaglen y Cyfnod Sylfaen trwy ddadansoddi dogfennaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddogfennaeth hon yn darparu'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel yr ymdriniaeth polisi swyddogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Bydd y gwerthusiad yn ymddiddori yn y graddau y mae'r disgrifiad 'swyddogol' hwn o'r Cyfnod Sylfaen, yn wahanol i ddealltwriaeth ac arfer y Cyfnod Sylfaen ymhlith ymarferwyr a grwpiau rhanddeiliaid eraill.
- 4.2 Diben nodi'r theori rhaglen yw helpu nodi dull ategol, addysgeg a awgrymir, cwricwlwm statudol a chanlyniadau cysylltiedig y Cyfnod Sylfaen. Yn ei dro, mae hyn yn cyfrannu at ddatblygiad a dealltwriaeth well o fodel rhesymeg polisi'r Cyfnod Sylfaen. Eto, nid bwriad y dadansoddiad hwn yw gwerthuso theori rhaglen y Cyfnod Sylfaen, ond wrth ddadansoddi'r ddogfennaeth swyddogol, rydym yn ceisio cadarnhau *eglwurder* esboniadau a *chydlyniad* syniadau a therminoleg mewn dogfennau ac ar eu traws, ac yng ngoleuni ymchwil ddiweddar, nodi ble gallai rhai cyfyngiadau fod i'r dehongliad gwreiddiol o ddamcaniaethau addysgol a thystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r Cyfnod Sylfaen.
- 4.3 Ar ôl amlinellu'r weithdrefn, rydym yn gyntaf yn ystyried y *dull ategol* a'r *addysgeg* a *awgrymir*. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi ymestyn y term 'addysgeg' i gynnwys popeth a wna ymarferwyr i alluogi i ddysgu ddigwydd. Wedyn, rydym yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau yn ymwneud â *chynnwys* a *chanlyniadau'r cwricwlwm*.

Y Fethodoleg

4.4 Yn unol â dadansoddi ansoddol, roedd y weithdrefn yn aml-haenog, ailadroddol a myfyriol (Srivastava a Hopwood 2009): hynny yw, cafodd dogfennau eu dadansoddi nifer o weithiau ac mewn ffyrdd gwahanol i alluogi i ni egluro, gwirio ac ailwirio materion ac ystyron o fewn ac ar draws y ddogfennaeth, ac ailystyried a chwestiynu ein rhagdybiaethau cychwynnol. Mae'n cyd-fynd yn fras â'r dull sy'n cael ei eirioli gan Ritchie a Spencer (2002).

- i. Nodwyd y dogfennau fydd yn cael eu dadansoddi (dosbarthwyd y ddogfennaeth graidd i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen) a'r sefyllfa y lluniwyd y dogfennau ynddi – ystyriwyd y cyddestun gwleidyddol a diwylliannol. Ar hyn o bryd, y nod oedd ymgyfarwyddo ag ystod ac amrywiaeth y dogfennau fydd yn cael eu dadansoddi.
- ii. Datblygwyd fframwaith. Nododd y 'fframwaith' y syniadau allweddol, y damcaniaethau ategol a'r eirfa ddangosol sy'n gysylltiedig â dau ddull damcaniaethol bras sy'n gysylltiedig â'r rheiny a nodwyd ym Mhennod 3: 'y plentyn sy'n datblygu' (lluniadaethol) a'r 'plentyn cymdeithasol' (cymdeithasol-ddiwylliannol) (gweler Atodiad A).
- iii. Gwnaed dadansoddiad cychwynnol o 'Fframwaith y Cyfnod Sylfaen'; 'Chwarae/Dysgu Gweithredol'; 'Addysgeg Dysgu ac Addysgu' ac 'Arsylwi ar blant'. Defnyddiwyd y fframwaith fel dyfais hewristig; roedd yn cefnogi ein barnau o fewn ac ar draws y ddogfennaeth ynghylch ystyron, perthnasedd, arwyddocâd, cysylltiadau, eglurder a chydlyniad.
- iv. Ailddadansoddwyd yr un dogfennau mewn perthynas â materion allweddol yn deillio o'r dadansoddiad cychwynnol ynghyd â'r rheiny a amlygir yn Y Wlad sy'n Dysgu (CCC 2001a) a dogfen ymgynghori'r Cyfnod Sylfaen. Y rhain oedd:

- Y dull ategol – beth a olygir o ran ‘datblygiadol’/‘canolbwyntio ar y plentyn’?
 - ‘Addysgeg’ gysylltiedig: dehongliad o natur a chwmpas ‘Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol’; chwarae; rôl yr ymarferwr (beth a olygir o ran ‘cydbwysedd’ rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd yr ymarferwr a gweithgareddau wedi eu dechrau gan y plentyn?); arsylwi; dysgu yn yr awyr agored; a phartneriaethau gyda rhieni/gofalwyr.
- v. Gan fod y mater yn ymwneud â ‘chydbwysedd’ rhwng dysgu wedi’i ddechrau gan y plentyn a dysgu dan gyfarwyddyd ymarferwr yn parhau i fod yn aneglur, fe wnaethom archwilio *Modiwl Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar DDysgu Drwy Brofiad ar Waith*. Cadarnhawyd gwybodaeth ychwanegol am ddysgu yn yr awyr agored trwy archwilio’r *Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored*.
- vi. Cynhaliwyd dadansoddiad terfynol o’r ddogfennaeth hon er mwyn archwilio a chymharu ystyron a diffiniadau rhywfaint o’r derminoleg allweddol a ddisgrifiwyd yn y gwerthusiad Peilot (Siraj-Blatchford et al. 2005) nad oeddent yn eglur. Y rhain oedd: chwarae, chwarae rhydd, chwarae strwythuredig, dysgu gweithredol ac agweddau dysgu cadarnhaol.
- vii. Mewn perthynas â’r cwricwlwm, holwyd am *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* a dogfennau arweiniad cysylltiedig ar gyfer pob un o’r saith Maes Dysgu (MD), Canlyniadau Dymunol a’r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 er mwyn cadarnhau:
- P’un a oedd y dull a’r addysgeg a amlinellir yn y canfyddiadau hyd yn hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y dogfennau hyn; a ph’un a oedd cyfeiriadau at sgiliau meddwl, defnyddio TGCh a’r *Cwricwlwm Cymreig* wedi eu cynnwys yn y dogfennau hyn.

- Alinio'r datganiadau ffocws rhagarweiniol; y datganiadau sgiliau ac ystod; a'r wybodaeth a ddarperir yn y dogfennau arweiniad (gan gynnwys datganiadau cynnydd).
- Yr alinio rhwng canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen, y Canlyniadau Dymunol a chanlyniadau CA1.

Y Dogfennau

4.5 I grynhoi, dadansoddwyd y dogfennau canlynol:

- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (2008)
- Addysgeg Dysgu ac Addysgu (2008)
- Chwarae/Dysgu Gweithredol (2008)
- Arsylwi ar blant (2008)
- Y dogfennau arweiniad ar gyfer pob maes o'r saith Maes Dysgu (pob un 2008)
- Y Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored (2009)
- Modiwl Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar 'Ddysgu Arbrofol yn Ymarferol' (2007)
- 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant cyn Oedran Addysg Orfodol' (ACCAC 1996)
- 'Cyfnodau Allweddol 1 a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru' (ACCAC 2003)
- Y Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008).

Mae'r acronymau a ddefnyddir ar gyfer y dogfennau hyn wedi'u rhestru yn Nhabl 1.

Dull Ategol y Cyfnod Sylfaen

4.6 Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen wedi'i adeiladu o amgylch anghenion datblygiadol a chynnydd plant unigol. Ymddengys bod hwn

yn deillio o'r Canlyniadau Dymunol (CD) (1996) ac Adroddiad Hanney (2001)⁷. Er enghraifft, mae CD yn nodi bod addysg o ansawdd da yn y blynyddoedd cynnar “yn cyfrannu at dwf cyffredinol pob plentyn” (1996:3) ac mae'n pwysleisio “Egwyddorion Priodoldeb” y mae'n “rhaid iddynt ategu addysg ar gyfer y plant dan bump oed” (gweler isod). Yn yr un modd, yn ei hadroddiad ar gyfer Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cymru, honnodd Hanney (CCC 2001b) y dylai darpariaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru (ar gyfer plant o ddydd eu geni nes eu bod yn 3 oed) fod yn seiliedig ar “gwricwlwm priodol, datblygiadol sy'n gyson ag anghenion a diddordebau penodol y plentyn” (NAFWb 2001:3). Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar yr egwyddor hon; mae'n datgan mai'r hyn sydd wrth wraidd y fframwaith cwricwlwm statudol “yw datblygiad cyfannol plant a'u sgiliau ar draws y cwricwlwm” gyda'r “plentyn yn ganolbwynt i unrhyw gwricwlwm arfaethedig” (tud.5).

- 4.7 Wrth gysylltu â theori luniadaethol, rhoddir pwyslais ar ddysgu fel continwmm a phwysigrwydd cydnabod ac adeiladu ar anghenion, diddordebau a phrofiadau blaenorol plant – yr hyn y maent eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud, eu diddordebau a'r hyn y maent yn ei ddeall (Ff, tud.6) gan gynnwys y rheiny yn yr amgylchedd cartref (DacA, tud. 6, tud. 24). Crybwyllir ‘theori Schema’ (sydd wedi'i seilio ar waith Chris Athey 1990 ac a ddatblygwyd gan Cathy Nutbrown 2011): sef trwy ailadrodd profiad dysgu, mae plant yn datblygu sgema neu batrymau o feddyliau sy'n cael eu cryfhau nes y gallant wneud cysylltiadau (DacA, tud. 9). Yn yr un modd, nodir y dylid rhoi cyfleoedd i blant ymarfer, ailadrodd, atgyfnerthu ac adolygu eu gwaith hefyd (DacA, tud.9, tud.18) er mwyn “gwneud cysylltiadau” rhwng profiadau newydd a dysgu blaenorol (DacA, tud.30).

⁷ Mae'n bosibl bod ymrwymiad i'r dull hwn wedi cael ei gefnogi gan arsylwadau Jane Davidson o bolisi'r blynyddoedd cynnar yn Cuba (gweler Barton 2002).

Tabl 1: Y Dogfennau a Ddadansoddwyd a'r Acronymau a Ddefnyddiwyd

Dogfennau	Acronym
Fframwaith y Cyfnod Sylfaen	Ff
<i>Arweiniad</i>	
Addysgeg Dysgu ac Addysgu	DacA
Chwarae/Dysgu Gweithredol	Ch/G
Arsylwi ar blant	AP
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	DPChLIADd
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	ILlCh
Datblygiad Mathemategol	DM
Datblygu'r Iaith Gymraeg	DIG
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	GDB
Datblygiad Corfforol	DCorff
Datblygiad Creadigol	DCre
Y Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored	LIDAA
Modiwl Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar Ddysgu Profiadol yn Ymarferol	DPY
Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3-19 Oed	FfS
<i>Cwricwla blaenorol</i>	
Canlyniadau Dymunol	CD
Cyfnodau Allweddol 1 a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru	CC

4.8 Rhoddir pwyslais ar y plentyn unigol: er enghraifft, cyfeirir at “ymateb i anghenion unigolion” (DacA tud.26) ac: “Ystyried anghenion unigolion” (DacA tud.16). Mae cydnabyddiaeth fod plant yn symud ar hyd y continwrm dysgu ar gyfraddau gwahanol (Ff tud.5) mewn gwahanol feysydd datblygu (DacA tud.11) ac nad yw dilyniant yn gyfartal, wedi'i halinio'n agos ag “egwyddorion priodoldeb” CD (CD tud.4) CD: bydd plant yn mynd trwy gyfnodau o ddatblygiad cyflym ac adegau lle yr ymddengys eu bod yn llithro'n ôl (e.e. Ff tud.4). Yn ychwanegol, mae angen amser i blant ymarfer sgiliau mewn gwahanol sefyllfaoedd a myfyrio ar eu gwaith a'i werthuso. Felly, dylai'r cwricwlwm fod yn

briodol i gam dysgu plentyn “yn hytrach na chanolbwyntio’n unig ar gyflawni canlyniadau yn gysylltiedig ag oedran” (Ff p.4). Dylai plant symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol ac ar eu cyflymder eu hunain (Ff tud.4).

4.9 O gofio hyn, honnir bod angen i ymarferwyr gael gwybodaeth am ddatblygiad y plentyn er mwyn cynllunio cwricwlwm sy’n briodol i anghenion datblygiadol y plentyn unigol a’r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn dod yn ddysgwr hyderus (Ff tud.5). Yn ychwanegol, a chan adlewyrchu CD yn agos, nodir trwy arsylwi agos y dylai ymarferwyr fod yn sensitif i unrhyw anawsterau (datblygiad corfforol, synhwyrdd, emosiynol, cymdeithasol neu wybyddol) nad ydynt “o fewn patrwm amlwg neu allan o drefn” (DacA tud.11) gan felly nodi’r angen am asesiad anghenion ychwanegol⁸.

4.10 Mae’r ddogfennaeth yn pwysleisio hawl plant i fanteisio ar “gwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol sy’n diwallu ei anghenion datblygiadol” (DacA tud.5). Yn y Cyfnod Sylfaen, mae hwn yn gwricwlwm cyfannol. Wrth adlewyrchu syniadau traddodiadol sy’n canolbwyntio ar y plentyn (lluniadaethol), nodir nad yw plant “yn rhannu eu dysgu a’u dealltwriaeth yn feysydd o’r cwricwlwm” (DacA tud.5). Mae’r Fframwaith felly’n nodi na ddylid ymdrin â meysydd dysgu ar eu pen eu hunain (Ff tud.14). Mae’r arweiniad DacA yn honni y gallai fod ymarferwyr eisiau ymgymryd â chynllunio ar wahân ar gyfer pob maes dysgu (DacA tud.13) ond mae’n anorfod y bydd cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu gan fod dysgu a datblygiad plant yn cydberthyn (DacA tud.13). Heb ystyried p’un a yw cynllunio ymarferwr yn gyfannol neu’n cynnwys cyfuniad o ddulliau (DacA tud.15), honnir y dylai DPChLIAdd fod yn rhan annatod o gynllunio ar draws yr holl feysydd dysgu.

⁸ Caiff y dull hwn ei gefnogi a’i gryfhau gan Broffil Datblygiad Plentyn y CS (2009). Mae’r arweiniad yn cynnwys manylion am ystodau oedran eang sy’n gysylltiedig â phob cam datblygu a nodwyd o fewn y meysydd datblygiad personol, datblygiad cymdeithasol, lles/datblygiad emosiynol, datblygiad gwybyddol a sgiliau cyfathrebu a datblygiad corfforol. Mae rhai o’r rhain yn cyd-fynd â chanlyniadau’r CS a’r datganiadau Cynnydd mewn Dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen arweiniad cysylltiedig ar feysydd dysgu.

4.11 Er y nodir y dylai plant brofi “amrywiaeth o arddulliau addysgu a dysgu” (Ff tud.8), mewn DacA, rhoddir pwyslais ar weddu dulliau i arddulliau dysgu ‘unigol’ plant. Hynny yw, honnir bod gan blant eu hoff ffyrdd o ryngweithio gyda’r amgylchedd – gweledol, clybodol neu ginesthetig (VAK) ac y dylid “bob amser rhoi cyfleoedd i blant wneud dewisiadau yn ôl eu hoff arddull dysgu” neu “ddewis trwy gyfuniad o’r rhain” (DacA tud.10). Yn wir, nodir y dylai’r amgylchedd dysgu “ddarparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu a chmau datblygu” (DacA tud.18).

Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

4.12 Fel y nodwyd uchod, at ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir ‘addysgeg’ yn fras i gynnwys popeth a wna ymarferwyr i alluogi i ddysgu ddigwydd.

Cefnogi Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLIADd) plant

4.13 Mae’r Fframwaith yn ei gwneud yn glir mai DPChLIADd sydd wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen ac y dylid ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm (Ff tud.14; DacA tud.5). Ymddengys bod hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol: er enghraifft, nodir bod y maes dysgu hwn “yn canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau â chyfoedion ac oedolion, pwysigrwydd cymhelliant, dyfalbarhad, hunan-barch ac awydd cadarnhaol i ddysgu” (DacA tud.5). Cyfeirir hefyd at waith Goleman (DacA tud.32) ar ‘ddeallusrwydd emosiynol’ (e.e. 1999) a gwaith Ferre Laever ar gynnwys plant a dysgu lefel ddofn (DacA tud.6, tud.34).

4.14 Ymddengys bod dod o hyd i ffyrdd o gymell plant i ddysgu – hynny yw, cymhelliant cynhenid, er mwyn adeiladu ar eu “chwilfrydedd naturiol” (DacA tud.9) – yn agwedd arwyddocaol ar addysgeg y CS. Hefyd, er bod ‘grymuso’ yn cael ei weld yn gysyniad canolog yn y CS (gweler isod hefyd), mae rhoi perchnogaeth i blant dros eu dysgu trwy roi

cyfleoedd iddynt ymwneud â ffocws, cynllunio a sefydlu manau chwarae yn yr awyr agored, er enghraifft, (Ch/G tud.7) yn cael ei weld fel ffordd o gynyddu ymgysylltiad plant er mwyn gwella eu profiadau dysgu (DacA tud.16)⁹.

4.15 Wrth ailadrodd y testun a gynhwysir yn y 'Fframwaith Sgiliau' (2008), nodir y gall ymarferwyr ddatblygu meddwl plant trwy brosesau "cynllunio, gwneud a myfyrio" ond pwysleisir na ddylid gweld hyn fel arddull dysgu ac addysgu benodol (FfS tud.10, tud.13; DacA tud.23; Ff tud.10).

4.16 Hefyd, gellir cefnogi dilyniant yn sgiliau plant ar draws y cwricwlwm gyda chyfleoedd i blant ymgymryd â *gweithgareddau chwarae strwythuredig* (DacA tud.18) sy'n cynnwys arbrofi, rhagfynegi, datrys problemau (Ch/G tud.46) a, chan adlewyrchu dull Reggio Emilia, trwy siarad a thrafod, 'mynegi eu syniadau mewn ffyrdd amrywiol' (DacA tud.18). Gwelir bod hyn yn cefnogi – yn 'meithrin' – creadigrwydd¹⁰ plant (Ch/G tud.34), eu lles emosiynol (e.e. DacA tud.27) a datblygu meddwl plant hefyd (DacA tud.35).

4.17 Ni chaiff amrywiaeth ddiwylliannol a datblygu'r iaith Gymraeg eu pwysleisio yn y dogfennau DacA a Ch/G, ond eir i'r afael â nhw yn glir yn y ddogfen arweiniad ar gyfer DPChLIADd.

Chwarae

4.18 Ymddengys bod chwarae, a deall beth a olygir wrth chwarae, yn ganolog i'r Cyfnod Sylfaen. Mae CD yn disgrifio pwysigrwydd sylfaenol "busnes difrifol" chwarae i ddatblygiad a dysgu plant, a nodir hyn (bron air am air) yn y ddogfen Fframwaith (Ff tud.4, tud.6). Mae manylion am gamau datblygiadol chwarae, gwahanol 'fathau' o chwarae/dysgu

⁹ Ymddengys bod hyn yn ymwneud â gweithgareddau sy'n cael eu 'dechrau gan y plentyn'.

¹⁰ Gallai'r disgrifiadau hyn o creadigrwydd gydweddu mwy â 'meddwl yn greadigol' (gweler Robson, 2006).

gweithredol, a rôl yr ymarferwr i'w cael yn y ddogfen Chwarae/Dysgu Gweithredol (Ch/G tud.13-19).

- 4.19 Trwy chwarae, gall plant ddysgu trwy “weithgareddau profiadol uniongyrchol” (Ff tud.4). Gyda ‘chwarae’, mae Ch/G yn datgan ei fod yn cyfeirio at “ran weithredol yn eu dysgu”; yn yr eirfa, diffinnir ‘dysgu gweithredol’ fel “bod yn weithredol a chymryd rhan yn eu dysgu” (Ch/G tud.52) sydd felly'n awgrymu, ac yn cyd-fynd â theori Piaget, bod angen i blant ymgysylltu'n gorfforol ac yn wybyddol yn ogystal. Ymddengys bod hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y datganiad: “Dylid cynllunio a strwythuro'r cwricwlwm a'r amgylchedd i alluogi plant i fod yn ddysgwyr gweithredol” (Ch/G tud.7) – e.e. dewis eu deunyddiau eu hunain, arbrofi gydag adnoddau a cheisio datrys problemau.
- 4.20 Caiff gwerth chwarae (hynny yw, chwarae a siarad fel rhan o'u chwarae, Ch/G tud.6) wrth gefnogi datblygiad a dysgu plant ifanc ei gydnabod a'i esbonio, yn yr un modd â'r gwahanol fathau o feysydd dysgu a gweithgareddau chwarae/gweithredol (Ch/G tud.24, tud.37). Nodir hefyd ei bod yn hanfodol cael “nodau clir ar gyfer dysgu'r plant” (Ch/G tud.7) gan ei bod hi'n “hawdd iawn dehongli ‘chwarae’ fel rhywbeth dibwys a dibwrpas” (Ch/G tud.5) a “Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn *chwarae'n ddibwrpas*” (DacA tud.38). I chwarae fod yn ‘effeithiol’, felly – hynny yw, yn effeithiol o ran cefnogi dysgu priodol – mae cynllunio gofalus yn hanfodol (Ch/G tud.5). Ymddengys bod hyn yn cyd-fynd â datganiad y CD, bod “gweithgareddau chwarae strwythuredig a phwrpasol yn gwella ac yn ymestyn dysgu'r plant” (CD tud.3).
- 4.21 Mae'r arweiniad Ch/G felly'n canolbwyntio'n bennaf ar “chwarae addysgol strwythuredig” (Ch/G tud.5). Cyfeirir at hyn hefyd yn Ch/G fel “chwarae/dysgu gweithredol addysgol strwythuredig” (tud.4) a “chwarae gweithredol addysgol” (tud.8), er bod y termau “chwarae

strwythuredig” (DacA tud.23), “chwarae gweithredol, profiadol” (DacA tud.9) a “chwarae/dysgu gweithredol” (DacA tud.38) hefyd yn cael eu defnyddio yn nogfennaeth y CS. Mae diffiniad yr eirfa o “chwarae addysgol strwythuredig” yn aneglur: “Mae profiadau chwarae strwythuredig yn cynnwys canlyniadau arfaethedig penodol i ymestyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylid cynllunio chwarae strwythuredig gyda hyblygrwydd er mwyn rhoi cyfleoedd i blant ddewis ac ymestyn gweithgarwch yn unol â’u diddordebau a’u gwybodaeth” (e.e. Ch/G tud.57).

- 4.22 Mae chwarae strwythuredig yn wahanol i chwarae ‘rhydd’ neu ‘ddigymell’. Mae Ch/G yn nodi y dylid rhoi cyfleoedd i blant “ddilyn trywydd eu diddordebau a’u syniadau eu hunain trwy chwarae rhydd” (tud.5) yn ogystal â chwarae strwythuredig. Mae DacA yn cyfeirio at “weithgareddau wedi’u cynllunio a gweithgareddau ar hap” (DacA tud.19) ac yn Ch/G, nodir y dylai ymarferwyr gynllunio’r amgylchedd dysgu yn ofalus iawn i sicrhau bod gan blant ystod o weithgareddau chwarae/dysgu gweithredol “sy’n caniatáu iddyn nhw fod yn ddigymell, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau gosod strwythuredig” (Ch/G tud. 40). Fodd bynnag, mae’r modd y mae chwarae strwythuredig a chwarae digymell yn ymwneud â dechrau ac arwain gweithgareddau yn hanfodol i ddeall y ‘cydbwysedd’ y dylid ei gyflawni rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dechrau gan y plentyn a gweithgareddau dan gyfarwyddyd yr ymarferwr. Felly, caiff y materion hyn eu harchwilio’n fanylach isod.

Rôl yr ymarferwr – gweithgareddau dan gyfarwyddyd ymarferwr a gweithgareddau wedi’u dechrau gan y plentyn

- 4.23 Un o’r negeseuon allweddol yn nogfennaeth y CS yw y dylid cael ‘cydbwysedd’ rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd yr ymarferwr a gweithgareddau wedi’u dechrau gan y plentyn (DacA tud.10; Ff

tud.6)¹¹. Fodd bynnag, mae'r ddogfennaeth hefyd yn cyfeirio at y 'cydbwysedd' y dylid ei gyflawni rhwng gweithgareddau wedi'u dechrau gan y plentyn a'r rheiny sy'n cael eu 'dechrau' gan ymarferwyr (yn hytrach na than eu cyfarwyddyd). Mae hyn yn arwyddocaol gan ei bod yn ymddangos bod y termau hyn (wedi'u dechrau gan ymarferwr a than gyfarwyddyd ymarferwr) yn ymwneud â gwahanol fathau o chwarae ac yn awgrymu rôl wahanol i'r ymarferwr.

4.24 Er enghraifft, mae DacA yn datgan: "Dylid cael cydbwysedd o weithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan ymarferwr, yn cynnwys gweithgareddau chwarae strwythuredig wedi'u cynllunio, a gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan blant yn unol â'u diddordebau a'r adnoddau sydd ar gael" (DacA tud.16). Mae hyn yn awgrymu bod gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan yr ymarferwr yn cynnwys chwarae strwythuredig yn ogystal ag addysgu uniongyrchol, ac y dylid sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau o'r fath a chwarae rhydd a digymell plant.

4.25 Ar yr un pryd, mae dogfen Fframwaith y CS yn nodi: Rhaid cael cydbwysedd rhwng 'dysgu strwythuredig' trwy weithgareddau sy'n cael eu dechrau gan blentyn a'r rheiny sydd *dan gyfarwyddyd* ymarferwyr (Ff tud.6). Yn ôl diffiniad yr eirfa o addysgu uniongyrchol (e.e. DacA, 23) mae gweithgareddau dan gyfarwyddyd yr ymarferwr (h.y. addysgu uniongyrchol) yn wahanol i 'weithgareddau chwarae strwythuredig a gweithgareddau chwarae wedi'u dechrau gan y plentyn' (gweler Ffigur 3). Felly, ymddengys bod 'gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan yr ymarferwr' a 'gweithgareddau *dan gyfarwyddyd* yr ymarferwr' yn ymgorffori gwahanol fathau o chwarae a'u bod yn awgrymu rôl wahanol i ymarferwyr.

¹¹ Fodd bynnag, mae'r Arweiniad DPChLIADd yn honni bod "caniatáu i blant ddechrau rhai o'u gweithgareddau eu hunain trwy drafod gydag ymarferwr" yn helpu i hyrwyddo lefel uchel o gyfranogiad ac agweddau cadarnhaol (tud.24).

Ffigur 3: Gweithgarwch wedi'i ddechrau gan y Plentyn ac wedi'i ddechrau gan yr Ymarferwr/Gweithgarwch dan gyfarwyddyd yr Ymarferwr

Gweithgarwch wedi'i ddechrau gan y plentyn	C Y D B W Y S E D D	Gweithgarwch wedi'i ddechrau gan yr ymarferwr
<i>Chwarae rhydd digymell</i>		<i>Chwarae addysgol strwythuredig</i> <i>Addysgu uniongyrchol</i>

NEU

Gweithgarwch wedi'i ddechrau gan y plentyn	C Y D B W Y S E D D	Gweithgarwch wedi'i ddechrau gan yr ymarferwr
<i>Chwarae rhydd digymell</i> <i>Chwarae addysgol strwythuredig</i>		<i>Addysgu uniongyrchol</i>

4.26 Mewn perthynas â'r term 'wedi'i ddechrau gan y plentyn/yn canolbwyntio ar y plentyn' nid yw diffiniad yr eirfa yn dra chywir: "Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfyndedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r 'cwricwlwm a gynlluniwyd' gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion" (DacA tud.38).


- 4.27 Er mwyn cadarnhau'r hyn sy'n cael ei awgrymu o ran 'cydbwysedd', archwiliwyd Modiwl Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar Ddysgu Profiadol yn Ymarferol, 2007.
- 4.28 Nod modiwl y pecyn hyfforddi (DPY), sydd wedi'i adeiladu o amgylch y model a ddatblygwyd gan y Ganolfan Rhagoriaeth Gynnar (www.earlyexcellence.com), yw nodi'r hyn a olygir o ran 'cydbwysedd' ar draws yr holl elfennau dysgu ac addysgu (DPY tud.5) mewn "cwrwclwm priodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn" (DPY tud.6). Mae'n cyfeirio at dair ffordd o strwythuro'r cwrwclwm a gynlluniwyd: darpariaeth barhaus, darpariaeth well a thasgau â ffocws (DPY tud.9): mae'r rhain yn ymwneud â thriangl segmentaidd gyda darpariaeth barhaus ar y gwaelod, wedyn darpariaeth well, wedyn tasgau â ffocws.
- 4.29 *Sicrheir bod darpariaeth barhaus* o ran cyfleoedd dysgu (DPY tud.10): caiff manau eu sefydlu a darperir adnoddau ynddynt fel bod ymarferwyr yn gwybod pa ddysgu sy'n digwydd yn ystod chwarae (DPY tud.25). Mae rhan oedolion yn chwarae'r plant yn y manau hyn – hynny yw, chwarae *ochr yn ochr* â phlant (DPY tud.58) – yn hanfodol "i fodelu sut i chwarae ym mhob man, hyrwyddo/ymestyn y dysgu" (DPY tud.39). Mae angen i ymarferwyr arsylwi ar blant hefyd i bennu beth yw eu diddordebau, eu hanghenion a ble maent wedi cyrraedd yn eu dysgu, beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei wella/addasu (DPY tud.39). Fodd bynnag, mae'n nodi bod dysgu sy'n cael ei ddechrau gan y plentyn ynglŷn â'r plentyn yn chwarae ac yn cael hwyl, nid yw ynglŷn â chwblhau tasgau (DPY tud.79).
- 4.30 *Darpariaeth well* yw'r modd y mae ymarferwyr yn *gwella, yn cyfoethogi ac yn ymestyn* dysgu plant (DPY tud.10); dyma ble mae'r oedolyn yn cyflwyno syniadau ac adnoddau newydd, posibiliadau modelu rôl ac yn rhoi amser i archwilio (DPY tud.58). Honnir bod darpariaeth barhaus a gwell yn sicrhau bod plant yn cael amser i archwilio, ymchwilio, ymarfer ac atgyfnerthu eu dysgu a'u dealltwriaeth, dilyn a datblygu eu diddordebau, mentro mewn amgylchedd nad yw'n fygythiol ac

ailedrych ar sgiliau a chysyniadau nes eu bod wedi gwneud y cysylltiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer deall (DPY tud.6).

4.31 Tasgau penodol, wedi'u cynllunio yw *tasgau â ffocws* – addysgu sgiliau/cysyniadau/gwybodaeth yn uniongyrchol – lle mae'r oedolyn yn arwain y dysgu (DPY tud.49) a ble caiff y dysgu ei fesur: asesu dysgu ac asesu 'ar gyfer' dysgu (DPY tud.5).

4.32 Er bod pob un o'r tair elfen yn rhyngweithio – un yn arwain at un arall (DPY tud.50) – honnir mai dull o'r gwaelod i fyny yw hwn: dylai cydbwysedd adlewyrchu'r triongl gyda darpariaeth barhaus ar ei waelod llydan (DPY tud.14) (Ffigur 4).

Ffigur 4: Model Datblygu'r Cwricwlwm (Powerpoint DPY, Sleid 93)



Hawlfraint © 2001 Early Excellence Ltd

4.33 Gallai'r term 'wedi'i ddechrau gan y plentyn' ymwneud felly â'r hyn sydd yn y Pecyn Hyfforddi hwn yn cael ei alw'n 'ddarpariaeth barhaus' – lle mae plant yn chwarae 'yn ddigymell' gydag adnoddau (strwythuredig) sydd ag amcanion dysgu wedi'u cynllunio – tra gallai 'cyfleoedd

chwarae strwythuredig' (chwarae addysgol strwythuredig), a gynlluniwyd i ymateb i awgrymiadau gan blant (DacA tud.22), ymwneud â 'darpariaeth well'. Mae 'chwarae addysgol strwythuredig' yn cynnwys canlyniadau penodol a gynlluniwyd i ymestyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant (DacA tud.43). Er hynny, fel y nodwyd uchod, ni ddylid gwneud i blant ymgymryd â gweithgarwch penodol (DacA tud.6), na chael eu hannog i beidio â datblygu eu syniadau eu hunain (Ch/G tud.43), gan y byddant yn rhoi'r gorau i chwarae (Ch/G tud.43). Yn y modd hwn, mae chwarae addysgol strwythuredig yn galluogi plant i fod yn ddigymell hefyd.

Rôl yr ymarferwr mewn dysgu sy'n cael ei ddechrau gan y plentyn

4.34 Mewn chwarae wedi'i ddechrau gan y plentyn, ymddengys mai rôl yr ymarferwr yw 'hyrwyddo' dysgu'r plant – fe'i disgrifir "yn ganolog i addysgeg y CS" (DacA tud.26). Fel hyrwyddwr, mae'r ymarferwr yn ymateb i anghenion unigolion ac mae'n barod i ddysgu ochr yn ochr â'r plant (DacA tud.26). Gallai hyn fod yn arbennig o wir gyda gweithgareddau sy'n cael eu dechrau gan y plentyn (darpariaeth barhaus) ond hefyd gyda chwarae addysgol strwythuredig (darpariaeth well). Mae DacA yn nodi "Efallai y bydd angen cymryd rhan ryngweithiol mewn gweithgaredd chwarae rôl er mwyn ymestyn sgiliau iaith, gyda'r ymarferwr a'r plentyn yn cymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'i gilydd" (DacA tud.23) a "gellir gwella sgiliau gwybyddol a chymdeithasol pan fydd yr ymarferwr a'r plentyn yn datrys problem gyda'i gilydd" (DacA tud.23).

4.35 Mae hyn yn cyd-fynd â'r cysyniad o 'gyd-adeiladu' - lle mae "pawb yn ymgysylltu â dealltwriaeth y llall" (Siraj-Blatchford et al. 2002:5) fel rhan o feddwl cynaliadwy a rennir (DacA tud.35). Mae DacA yn nodi, er enghraifft, y gallai fod angen ymyrraeth gydag adnoddau ychwanegol mewn 'sefyllfa chwarae strwythuredig' (dysgu parhaus neu well) neu awgrymiadau i ymestyn meddwl a symud y chwarae ymlaen. Dylai'r ymarferwr hefyd "gydnabod pryd i ymyrryd yn sensitif mewn chwarae a phryd i adael i blant barhau heb gymorth hyd nes cyrhaeddau nhw eu

casgliadau eu hunain” (DacA tud.24)¹². Caiff y sgiliau i lunio'r farn hon eu datblygu trwy arsylwi ar blant a deall datblygiad plant (AP tud.14).

- 4.36 Caiff y syniad cymdeithasol-ddiwylliannol o 'sgaffaldio' ei hyrwyddo hefyd. Trwy gyd-fynd â syniad Vygotskia am y zpd (gweler 3.11), mae DacA yn nodi y gall ymarferwyr weithio ochr yn ochr ag un plentyn neu grŵp bach o blant, a “chynorthwyo dysgu trwy ddarparu adnoddau ychwanegol, gwneud awgrymiadau neu ofyn cwestiynau pen agored i herio ac ymestyn y meddwl” (DacA tud.22). Honnir bod sgaffaldio yn holl bwysig pan fydd plant yn cael trafferth gyda gweithgaredd neu pan na fyddant yn llwyddo heb ymyrraeth gan ymarferwr.
- 4.37 Fodd bynnag, gall ymrwymiad cyffredinol i 'ymyrraeth' gael ei herio gan y datganiad canlynol: “Mae dysgu plant yn fwyaf effeithiol pan fydd yn deillio o brofiadau uniongyrchol, p'un a ydynt yn ddigymell neu'n strwythuredig, a phan roddir amser iddynt chwarae heb ymyriadau a dod i gasgliad boddhaol” (Ch/G tud.5). Mae'r datganiad hwn yn cyd-fynd yn fwy ag ymagwedd luniadaethol at addysgeg.

Addysgu uniongyrchol

- 4.38 Mae'r arweiniad DacA yn nodi y bydd angen addysgu sgil newydd yn uniongyrchol trwy weithgaredd wedi'i gynllunio gyda grŵp bach ar adegau (mae Modiwl Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar Ddysgu Profiadol yn Ymarferol, 2007 yn awgrymu y gall addysgu uniongyrchol ddigwydd gyda grŵp cyfan, grŵp bach, parau ac unigolion). “Gallai gweithgaredd o dan gyfarwyddyd gynnwys dangos sgiliau newydd ac eglurhad clir o wybodaeth” (DacA tud.23). Mewn addysgu uniongyrchol, dylid rhannu'r canlyniadau dysgu gyda phlant, a dylid annog plant i drafod eu gwaith er mwyn cyflwyno elfen o hunanwerthusiad (DacA tud.23).

¹² Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r CD ar dudalen 3, ac fe'i nodir yn y Fframwaith ar dudalen 6 hefyd.

4.39 Felly, tra bod ‘darpariaeth barhaus’ efallai’n cael ei hategu gan theori luniadaethol, caiff ‘darpariaeth well’ ei hategu yn ei hanfod gan ddamcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol. Gallai ‘tasgau â ffocws’, sy’n cynnwys addysgu uniongyrchol, hefyd ddefnyddio damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol – sgaffaldio, modelu ac arddangos – neu gwmpasu syniadau ymddygiadwr am ddysgu hynod strwythuredig a dilyniannol neu ddrilio ac ymarfer (gweler Tabl 2, sy’n adeiladu ar Ffigur 3).

Tabl 2: Gwahaniaethu rhwng Dulliau wedi'u dechrau gan y Plentyn, wedi'u dechrau gan yr Ymarferwr a Dulliau dan gyfarwyddyd Ymarferwr

	Gweithgarwch wedi'i dechrau gan y plentyn	Gweithgarwch wedi'i dechrau gan yr ymarferwr	Gweithgarwch dan gyfarwyddyd yr ymarferwr
Math o ddarpariaeth	Darpariaeth barhaus	Darpariaeth well	Tasgau â ffocws
Chwarae/tasgau	Chwarae rhydd (mewn amgylchedd dysgu strwythuredig)	Chwarae strwythuredig	Tasgau penodol
Amcanion a/neu ganlyniadau	Amcanion a gynlluniwyd	Canlyniadau a gynlluniwyd – ond hyblygrwydd	Canlyniadau a gynlluniwyd
Pwy sy'n arwain/rhoi cyfarwyddyd ar gyfer y gweithgaredd	Wedi'i arwain gan y plentyn	Wedi'i arwain gan y plentyn neu wedi'i arwain gan yr ymarferwr	Dan gyfarwyddyd yr ymarferwr
Rôl yr ymarferwr	Hyrwyddo	Hyrwyddo, cyd-adeiladu/ arwain/ sgaffaldio/ modelu/ dangos	Arwain/ sgaffaldio/ modelu/ dangos/ ‘addysgu’ (gallai gynnwys drilio ac ymarfer)
Theori luniadaethol	Theori luniadaethol	Damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol	Damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol/ ymddygiadwr

- 4.40 Gallai fod yn arwyddocaol, fodd bynnag, fod angen archwilio ystod eang o ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen yn fanwl, ynghyd â dealltwriaeth gadarn o theori addysgol ar gyfer y dadansoddiad cymhleth hwn o'r hyn y gallai'r termau gweithgareddau 'wedi'u dechrau gan y plentyn', 'wedi'u dechrau gan yr ymarferwr' a 'than gyfarwyddyd yr ymarferwr' ei olygu, a'r modd y mae pob un o'r rhain yn ymwneud ag agweddau allweddol at rôl a gwaith yr ymarferwr a gwahanol fathau o chwarae.
- 4.41 Amlygwyd bod tri mater arall yn hynod bwysig yn fframwaith y CS, sef: arsylwi, chwarae yn yr awyr agored a'r berthynas gyda rhieni/gofalwyr. Mae arsylwi yn rhan ddyddiol annatod o rôl yr ymarferwr, ac fe'i defnyddir i fonitro plant o ran eu canolbwyntio, eu hagweddau dysgu, rhyngweithio cymdeithasol, annibyniaeth, cryfderau a galluoedd ar draws yr holl feysydd dysgu a'r meysydd datblygu ac i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (DacA tud.33). Yn ogystal ag arsylwadau arferol, gellir cynnal arsylwadau at ddiben penodol, megis gwerthuso'r defnydd o weithgarwch chwarae strwythuredig (DacA tud.22) neu ganolbwyntio ar gyrhaeddiad canlyniadau a bennwyd ymlaen llaw (AP tud.4). Gall arsylwadau olygu bod ymarferwyr yn cymryd rôl weithredol mewn gweithgaredd (AP tud.4). Nid oes nod wedi'i bennu ymlaen llaw ar gyfer yr holl arsylwadau; gallai'r nod ddeillio o arsylwi (AP tud.4). Fodd bynnag, prif ddiben arsylwi yw "gwybod ble mae plant ar y continwrm dysgu er mwyn eu symud yn eu blaenau, nodi unrhyw anawsterau, camddeongliadau neu gamddealltwriaeth" (AP tud.6).
- 4.42 Yn unol ag arloeswyr cynnar megis Rousseau, Pestalozzi, Froebel a McMillan, ac ymagweddau at addysg gynnar a welir yn Sgandinafia, rhoddir pwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored ar draws y ddogfennaeth: honnir y dylai hyn ymestyn yr amgylchedd dysgu dan do a chyhyd ag y bo hynny'n bosibl, dylai plant allu symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan trwy gydol y dydd (Ch/G tud.55; DacA tud.41). Mae'r Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored (2009) (LIDAA) yn cyfeirio at Ysgolion Coedwig, sef dull a ddechreuwyd yn

Sgandinafia, ac mae hefyd yn pwysleisio gwerth yr amgylchedd awyr agored mewn perthynas â'r canlynol, er enghraifft: gwella iechyd a ffitrwydd; galluogi plant i brofi natur yn uniongyrchol, datrys problemau fel rhan o brofiadau dilys a chael eu profiad cyntaf o sgwrsio, cynaliadwyedd a chariad at natur (LIDAA tud.2).

4.43 Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni/gofalwyr sy'n cael eu hadnabod fel addysgwyr cyntaf y plentyn (Ff tud.4; DacA tud.5; Ch/G tud.3). Nodir y gellid cyflawni hyn trwy ofyn am wybodaeth am ddiddordebau plant; rhannu gwybodaeth am weithgareddau dysgu; trafod datblygiad plant; ac ymgynghori ynghylch cynnydd plant (DacA tud.24). Ymddengys mai prif ddiben y bartneriaeth hon yw sicrhau parhad y ddarpariaeth rhwng y cartref a'r lleoliad/ysgol (DacA tud.12)¹³.

Crynodeb a sylw

4.44 Mae'r dull sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen yn amlwg yn ddatblygiadol, gyda ffocws clir ar y plentyn unigol. Gwelir bod datblygiad yn rhywbeth llinol yn ei hanfod, ond nid yw ynghlwm wrth oedran cronolegol, ac mae'n cydnabod amrywiadau unigol mewn cyfradd mewn meysydd datblygu a dysgu ac ar eu traws. Dylai arsylwadau a gwerthusiadau'r ymarferwr ganolbwyntio ar gynnydd, cyflawniadau ac anghenion y plentyn yn hyn o beth, ynghyd â'i ddiddordebau, er enghraifft. Dylai lywio cynllunio'r ymarferwr hefyd. Gallai hyn fod yn heriol, ond fel y nodwyd uchod, mae'r syniadau hyn wedi cael eu beirniadu gan y rheiny sy'n mabwysiadu safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol.

¹³ Mae'r syniad bod rhieni/gofalwyr yn bartneriaid mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â dulliau yn Reggio Emilia, er enghraifft, yn cael ei herio yn yr arweiniad Datblygiad Corfforol (2008) sy'n awgrymu y dylai ymarferwyr, er enghraifft, annog rhieni/gofalwyr i ddarparu cyfleoedd addas ar gyfer chwarae corfforol gartref; ymuno â chlybiau y tu allan i'r ysgol a chynlluniau gwyliau i ymestyn eu diddordeb mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon; cymryd rhan mewn tasgau cartref sy'n hyrwyddo sgiliau corfforol a bod yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach (tud.9). Mae hyn yn cyd-fynd yn fwy â'r syniad o 'ymyrraeth gynnar'.

- 4.45 Gan fod theori ddatblygiadol wedi'i chydblethu â theori luniadaethol, mae cyfatebiaeth, er enghraifft, gyda llunio sgema a gyda'r syniad o 'barodrydd' hefyd. Awgrymir ym Modiwl Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ar Ddysgu Profiadol yn Ymarferol mai sefydlu 'darpariaeth barhaus' yw'r sylfaen ar gyfer datblygiad a dysgu plant. Mae'n galluogi plant i chwarae'n ddigymell mewn amgylcheddau dysgu strwythuredig, ac yn cyd-fynd â syniadau lluniadaethol hefyd.
- 4.46 Er bod lluniadaeth hefyd yn amlwg mewn perthynas â rôl yr athro fel hyrwyddwr, awgrymir rôl bwysig ar gyfer yr ymarferwr o ran cefnogi dysgu a datblygiad plant yn gyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd â damcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol. Yn wir, pwysleisir syniadau a theminoleg o ddamcaniaethau cymdeithasol-ddiwylliannol trwy gydol y ddogfennaeth: er enghraifft, pwysigrwydd cyfathrebu, mynegiant a chreadigrwydd a hyrwyddo dysgu dan arweiniad a sgaffaldio fel strategaethau addysgegol (yn enwedig mewn perthynas â dysgu gwell). Cyfeirir hefyd at 'yr awydd i ddysgu' (e.e. DacA 6, 9, 10). Fodd bynnag, disgrifir yr 'awydd' (unigol) hwn yn yr eirfa fel rhywbeth sy'n gyfystyr ag agwedd gadarnhaol at ddysgu ac mae'n wahanol i 'chwilfrydedd' a 'dyfalbarhad', er enghraifft, sef dau o blith yr enghreifftiau niferus o 'agwedd' gadarnhaol a allai gefnogi dysgu gydol oes. Mae hyn yn dangos dehongliad symlach na'r hyn a welir yn gyffredinol yn y llenyddiaeth.
- 4.47 Hefyd, er bod termau cymdeithasol-ddiwylliannol fel 'grymuso'¹⁴, 'perchnogaeth' a 'chyfranogiad' yn cael eu defnyddio, ymddengys nad yw'r brif swyddogaeth (ond nid yr unig swyddogaeth) i roi sylw i blant yn ymwneud â hawliau neu dwf personol plant, ond hyrwyddo ymgysylltiad plant yn eu dysgu. Yn yr un modd, er bod dull yn seiliedig ar chwarae yn cael ei eirioli, ymddengys bod gwerth cynhenid chwarae – er enghraifft, fel y mae'n ymwneud â mwynhad ac ansawdd bywyd plant (Powell 2009) – yn eilaidd i'w rôl i gefnogi dysgu effeithiol.

¹⁴ Mae Gweledigaeth ar Waith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) yn nodi y dylid 'grymuso' plant i gyflawni lles cymdeithasol ac economaidd.

- 4.48 Nid yw'n glir chwaith p'un a oes dau gyfeiriad dilys i 'bartneriaethau' gyda rhieni/gofalwyr, yn unol â'r hyn a bwysleisir, er enghraifft, yn Te Whāriki a Reggio Emilia; gellir dadlau eu bod yn cael eu gweld yn fwy fel ffordd o gefnogi dysgu plant yn yr ysgol/lleoliad; fel ffordd o wella amgylchedd dysgu'r cartref; neu hyd yn oed i reoleiddio gwerthoedd/arferion y cartref (gweler troednodyn 13). Efallai na fydd y pwyslais ar 'gyfranogiad' neu gydnabod 'cronfeydd gwybodaeth' a ymgorfforir mewn cymunedau lleol (gweler Moll a Greenberg 1990) yn unol â'r hyn a nodir yn Y Wlad sy'n Dysgu (CCC 2001a) yn cael ei wireddu'n llawn yn y ddogfennaeth (gweler isod).
- 4.49 Nid yw'r syniad bod y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio syniadau lluniadaethol a chymdeithasol-ddiwylliannol ynddo'i hun yn anarferol. Fodd bynnag, er bod y naill a'r llall yn nodi mabwysiadu dysgu gweithredol yn seiliedig ar chwarae, mae'r damcaniaethau hyn yn adlewyrchu syniadau gwahanol iawn am y modd y mae plant yn dysgu a'r ffordd orau o gefnogi'r dysgu hwn. Efallai mai un o'r heriau cyntaf i ymarferwyr fydd nodi beth a olygir o ran terminoleg sy'n ganolog i'r addysgeg a awgrymir – megis (ond heb ei gyfyngu i) 'chwarae strwythuredig', 'dysgu gweithredol' a dysgu 'wedi'i ddechrau gan y plentyn' a dysgu 'dan gyfarwyddyd yr ymarferwr'. Nodwyd y 'pryder a'r dryswch' a achosir gan y rhain a themau eraill yn yr adroddiad ar y prosiect gwerthuso peilot (Siraj-Blatchford et al. 2005: 81).
- 4.50 Gallai rhagor o ddryswch fod yn gysylltiedig â phennu'r 'cydbwysedd' a awgrymir rhwng dysgu wedi'i ddechrau gan y plentyn a dysgu dan gyfarwyddyd yr ymarferwr; yn hyn o beth, nid yw'n ymddangos bod y DPY yn cyd-fynd â'r dull sy'n cael ei hyrwyddo yn yr arweiniad DacA a Ch/G. Mae ymchwil gydag ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn awgrymu y gallai cefnogi dysgu wedi'i ddechrau gan y plentyn fod yn heriol, gan ofyn i ymarferwyr roi'r gorau i reoli, datblygu sgiliau gwybyddol newydd ac ail-lunio eu barn am y plentyn a rôl yr athro (Maynard a Chicken 2010). Mae hefyd yn aneglur sut dylid

addasu'r cydbwysedd hwn wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, ac yn arbennig ym mlwyddyn olaf plant yn y Cyfnod Sylfaen.

- 4.51 Yn yr un modd, mae ymchwil gydag ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru wedi awgrymu er ei bod yn ymddangos bod yr amgylchedd yn yr awyr agored yn cefnogi mabwysiadu dulliau addysgegol mwy agored ac ymatebol, y gallai fod amharodrwydd i fynd â phlant y tu allan ac ychydig iawn o ddealltwriaeth o rôl yr ymarferwyr wrth weithio yn yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored (gweler Maynard et al. 2013).
- 4.52 Mae nifer fach o anghysondebau o ystyried datblygiadau diweddar mewn niwrowyddoniaeth a'i gymhwyso i addysg. Hynny yw, mae dogfennau'n cyfeirio at nifer o 'niwrofythau' – syniadau sydd wedi cael eu derbyn mewn diwylliant poblogaidd (ac ysgolion) ond nid ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth ddilys. Yn gyntaf, mae datblygiadau mewn niwrowyddoniaeth wedi cadarnhau 'plastigrwydd' yr ymennydd – ei fod yn gallu newid yn barhaus i ymateb i sbardunau amgylcheddol (Howard-Jones 2010:201). Yn sgil hyn, mae cyfnodau tyngedfennol ar gyfer dysgu sgiliau penodol bellach yn cael eu gweld fel 'cyfnodau sensitif', sef gwahaniaethau cynnil yng ngallu'r ymennydd i gael ei ffurfio gan yr amgylchedd (e.e. Howard-Jones 2010:26).
- 4.53 Mae ymchwilwyr (Howard-Jones 2010; Geake 2008) hefyd yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth y gellir gwella dysgu trwy hyfforddi'r ymennydd. Nid oes tystiolaeth ychwaith i gefnogi'r syniad o feddwl yr ymennydd ar yr ochr chwith yn erbyn meddwl yr ymennydd ar yr ochr dde neu, o ystyried ein camddealltwriaeth am gysylltioldeb gwahanol swyddogaethau'r ymennydd, y gellir cyflawni buddion trwy nodi a chyflwyno deunydd yn unol ag 'arddull dysgu' ganfyddadwy plant – gweledol, clybodol neu ginesthetig. Mae'r ymchwilwyr hyn yn nodi bod y syniad o 'ddeallusrwydd lluosog' wedi cael ei gwestiynu hefyd. Maent yn nodi nad yw astudiaethau sy'n archwilio effeithiolrwydd addysgol y

syniadau hyn yn yr ystafell ddosbarth wedi dangos unrhyw fuddion addysgol.

Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

4.54 Mae 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant' 2008 yn amlinellu'r cwricwlwm a chanlyniadau ar gyfer plant 3-7 oed yng Nghymru (tud.2). Dyma'r saith Maes Dysgu (MD) statudol:

- i. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLIADd)
- ii. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh)
- iii. Datblygiad Mathemategol (DM)
- iv. Datblygu'r Iaith Gymraeg (DIG) (mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg)
- v. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB)
- vi. Datblygiad Corfforol (DCorff)
- vii. Datblygiad Creadigol (DCre)

4.55 Mae'r meysydd dysgu hyn yn ailadrodd y rheiny yn y Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol (CD) (ACCAC 1996) – gyda Datblygu'r Iaith Gymraeg yn ymddangos yn faes ychwanegol ar wahân mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg.

4.56 Caiff y Fframwaith ei ategu gan y saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, a ddatblygwyd o Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae'n cyfeirio at y Fframwaith Sgiliau anstatudol i blant 3-19 oed, a ddatblygwyd er mwyn rhoi arweiniad ar barhad a dilyniant o fewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Pwysleisir yr ymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

4.57 Ar ddiwedd y CS, gofynnir i ymarferwyr asesu ac adrodd ar ganlyniadau pob plentyn trwy asesiadau athrawon mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg;

a Datblygiad Mathemategol. Nodir “er gwybodaeth” (Ff tud.43) bod chwech o ganlyniadau ar gyfer pob maes dysgu yn croesgyfeirio at ddisgrifwyr lefel presennol y CC:

- Mae canlyniad 4 y CS yn cysylltu â lefel 1 y CC
- Mae canlyniad 5 y CS yn cysylltu â lefel 2 y CC
- Mae canlyniad 6 y CS yn cysylltu â lefel 3 y CC

4.58 Mae nodiadau ar ein hystyriaeth fanylach o'r Fframwaith a phob un o'r dogfennau arweiniad cysylltiedig (ystyriwyd y rhain mewn perthynas â datganiadau ffocws rhagarweiniol maes dysgu'r Fframwaith; y datganiadau sgiliau ac ystod; y dull a amlinellir yn y ddogfen arweiniad gysylltiedig; yr adran ar gynnydd dysgu yn y ddogfen arweiniad; a chanlyniadau'r Fframwaith) wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Rhoddir crynodeb o faterion allweddol isod.

Alinio â'r 'Dull'

4.59 At ei gilydd, mae'r disgrifwyr meysydd dysgu yn adlewyrchu'r ymrwymiad i ddull datblygiadol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ILICh/DIG (er enghraifft, cyfeirir at 'barodrwydd ar gyfer darllen', diffinnir 'cyfnodau datblygu ysgrifennu', ac mewn DCorff, cyfeirir at ddilyniant datblygiadol sgiliau echddygol bras a sgiliau echddygol manwl). Mae GDB a Datblygiad Creadigol yn adlewyrchu dull sydd ychydig yn llai datblygiadol na meysydd dysgu eraill, gan ganolbwyntio mwy ar gefnogi datblygiad cysyniadol a sgiliau eang. Ni chafodd cywirdeb y camau datblygiadol ei gwerthuso fel rhan o'r astudiaeth hon.

Alinio â'r 'Addysgeg'

4.60 Yn y Fframwaith, mae disgrifwyr meysydd dysgu yn cyfeirio at ganologrwydd dulliau gweithredol ac ymarferol o ddysgu, pwysigrwydd siarad/cyfathrebu a phlant yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau, er enghraifft. Cyfeirir at ddefnyddio gweithgareddau 'sy'n cael eu dechrau gan y plentyn' yn yr holl feysydd dysgu heblaw

Datblygiad Mathemategol. Mae dogfennau arweiniad ar gyfer yr holl feysydd dysgu yn pwysleisio ymrwymiad i ddulliau o ddysgu yn seiliedig ar chwarae ac i raddau mwy neu lai, canologrwydd lles plant a mabwysiadu dulliau addysgegol sydd wedi'u halinio i raddau helaeth â syniadau cymdeithasol-ddiwylliannol (fel y nodir yn nogfennau arweiniad DacA a Ch/G). Gallai rhoi DPChLIADd yn ganolog i'r Cyfnod Sylfaen gefnogi'r ffocws ar ddulliau mwy agored o addysgeg.

Sgiliau meddwl, TGCh a'r Cwricwlwm Cymreig

4.61 Mae'r holl ddogfennau arweiniad yn cynnwys cyfeiriadau at ddatblygu sgiliau meddwl plant a defnyddio TGCh. Mae cyfeiriadau at hunaniaeth Gymreig a/neu'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn yr holl feysydd dysgu heblaw Datblygiad Corfforol; fodd bynnag, mae wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth arweiniad ar gyfer y maes dysgu hwn. Gallai darpariaeth Datblygu'r iaith Gymraeg fel maes dysgu ar wahân mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, gyda datganiadau sgiliau ac ystod sy'n cyd-fynd â ILICh fod yn heriol, ond mae'n adlewyrchu ymrwymiad i ddatblygu'r iaith Gymraeg a chenedl ddwyieithog.

Alinio datganiadau ffocws, datganiadau 'sgiliau ac ystod' a dogfennau arweiniad

4.62 Yn y Fframwaith, mae'r testun rhagarweiniol, neu'r datganiadau ffocws, ar gyfer pob maes dysgu yn tueddu i bwysleisio dulliau y gellid eu mabwysiadu yng nghamau cynharach y 'continwmm dysgu', gan gyfeirio'n fras yn unig at sgiliau lefel uwch, mwy cymhleth. Er enghraifft, mewn ILICh/DIG, rhoddir pwyslais ar siarad, arwyddo/cyfathrebu a gwrando mewn DM ar "weithgareddau llafar, ymarferol a chwarae" (tud.23).

4.63 Mae datganiadau 'sgiliau ac ystod' mewn meysydd dysgu yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r datganiadau ffocws, neu o leiaf nad ydynt yn eu gwrth-ddweud, ond maent yn fwy eglur o ran 'cynnwys'; mae hyn yn arbennig o wir ar lefelau uwch y continwmm dysgu. Mae enghreifftiau

o'r estyniadau hyn yn amlwg iawn mewn DM a ILICh. Er enghraifft, mae'r datganiad ffocws ILICh sy'n cyfeirio at ysgrifennu, yn nodi'n syml y dylai plant gael "ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a mwynhau profiadau ysgrifennu" (Ff tud.19). O dan 'sgiliau ac ystod', rhoddir llai o bwyslais ar wneud marciau na datganiadau sy'n cyfeirio, er enghraifft, at ysgrifennu mewn gwahanol ffyrdd ac at wahanol ddibenion, cynllunio ac adolygu ysgrifennu, atalnodi, sillafu a llawysgrifen (Ff tud.21b).

4.64 O gymharu â'r datganiadau sgiliau ac ystod, mae'r dogfennau arweiniad hyd yn oed yn fwy eglur mewn perthynas â disgrifio datblygiad a dilyniant plant mewn dysgu yn ogystal â 'chynnwys' sy'n gysylltiedig â phwnc, gyda mwy o ehangiadau sy'n adlewyrchu cynnydd hyd at yr hyn sy'n gyfwerth â lefel 3 yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Felly, er enghraifft, mewn ILICh, caiff y datganiad sgiliau "datblygu eu gallu i sillafu geiriau cyffredin a chyfarwydd yn y fath fodd fel y gellir eu hadnabod" (Ff tud.21b) ei estyn i:

- ysgrifennu pob llythyren o'r wyddor
- defnyddio eu gwybodaeth am berthynas rhwng sain a symbol a phatrymau seinyddol
- adnabod a defnyddio patrymau sillafu syml, ysgrifennu llinynnau llythyren cyffredin o fewn geiriau cyfarwydd a chyffredin
- sillafu geiriau syml cyffredin
- sillafu geiriau gyda rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid cyffredin
- gwirio cywirdeb eu sillafu a defnyddio llyfrau geiriau a geiriaduron, nodi llythrennau cychwynnol fel ffordd o leoli geiriau
- arbrofi gyda sillafu geiriau cymhleth a thrafod cyffredinoliadau wedi'u camdefnyddio a rhesymau eraill dros gamsillafu
- craffu ar deuluoedd geiriau

(ILICh tud.37).

Alinio rhwng canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen, Canlyniadau Dymunol a chanlyniadau Cyfnod Allweddol 1

4.65 Fel y nodwyd yn nogfen ymgynghori'r Cyfnod Sylfaen (CCC 2003a), mae datganiadau canlyniadau, 'sgiliau ac ystod' meysydd dysgu (nad ydynt bob amser yn ymwneud â'r diffiniad a roddwyd o 'sgiliau' ac 'ystod'), a'r ddogfennaeth arweiniad, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu 'cyfuno' Canlyniadau Dymunol a rhaglenni astudio CA1 a chanlyniadau'r CC ochr yn ochr â dull o ddysgu yn seiliedig ar chwarae sy'n canolbwyntio ar les plant (diffinnir yn fras).

Gwybodaeth a chymorth defnyddiol

4.66 Nodir bod y cyfeiriadau at 'wybodaeth a chymorth defnyddiol' y sonnir amdanynt yn y dogfennau arweiniad meysydd dysgu wedi dyddio'n fawr mewn rhai achosion. Er enghraifft, mae'r arweiniad ILICh yn cynnwys dau gyfeiriad at lyfrau a gyhoeddwyd yn y 1970au.

Crynodeb a sylw

4.67 Mae'r cwricwlwm, fel yr amlinellir yn y Fframwaith a'r dogfennau arweiniad, yn adlewyrchu'r dull ategol (datblygiadol) a'r addysgeg a awgrymir (sy'n ymgorffori safbwyntiau lluniadaethol, ac yn benodol, safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol) yn ogystal â hyrwyddo datblygiad sgiliau TGCh, sgiliau meddwl a'r *Cwricwlwm Cymreig*, er enghraifft.

4.68 Mae'r ffaith fod DPChLIADd a DIG wedi cael eu sefydlu yn feysydd dysgu ar wahân yn pwysleisio eu harwyddocâd yn Fframwaith y CS.

4.69 Er y gallai'r datganiadau ffocws nodi y bydd 'cyffyrddiad ysgafn' o ran y cwricwlwm, mae'r datganiadau 'sgiliau ac ystod' ac yn benodol, arweiniad y cwricwlwm, yn dangos bod disgwyliadau o ran cynnwys y cwricwlwm, a chanlyniadau yn benodol – ond nid cyfradd y dilyniant tuag at y canlyniadau hyn – yn parhau i fod yr un fath yn eu hanfod. Yn ychwanegol, mae lefel y manylder a gynhwysir mewn perthynas ag

agweddau penodol ar ILiCh a DM yn dangos y dylid canolbwyntio'n benodol ar y meysydd dysgu hyn.

4.70 Er mwyn deall y Cyfnod Sylfaen (dull, cwricwlwm ac addysgeg), mae angen archwilio ystod o ddogfennau; mae elfennau o'r rhaglen wedi'u dosbarthu ar draws cyhoeddiadau amrywiol. Yn y ddogfen cynnig gychwynnol – Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3 i 7 oed (CCC, 2003a) – nodwyd bod angen llunio fframwaith gyda nodau ac amcanion clir, a welir yn y rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd “fel ffordd o wella ansawdd a safonau” (CCC 2003a:9). Os yw nodau ac amcanion clir hefyd yn cynnwys diffiniadau clir o syniadau a therminoleg allweddol, nid yw hyn wedi cael ei wireddu'n llawn yn y ddogfennaeth a'r deunyddiau arweiniad.

5 Mewnbynnau, Prosesau a Gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen

- 5.1 Fel y dangoswyd, mae'r theori rhaglen sy'n ategu'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, mae'n: helpu i ddeall a gwerthfawrogi'r pryderon gwreiddiol gyda Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol Cyfnod Allweddol 1; mae'n helpu i gyfiawnhau prif nodau'r Cyfnod Sylfaen; mae'n darparu'r prif resymwaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; ac yn llywio dull ac addysgeg fwriadedig, ac awgrymedig y Cyfnod Sylfaen. Fe'i defnyddiwyd hefyd i helpu i ddeall blaenoriaethau cwricwlaidd y Cyfnod Sylfaen yn uniongyrchol. Mae'r adroddiad yn awr yn cyflwyno ac yn trafod gweddill y *mewnbynnau*, y *prosesau* a'r *gweithgareddau* allweddol a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a'i roi ar waith. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o gynnwys cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a gyflwynwyd yn y bennod flaenorol. Yn unol â'r hyn a ddadleuwyd yn gynharach, mae'n ddefnyddiol gweld y mewnbynnau a'r gweithgareddau a amlinellir yn y bennod hon a'r ffordd y maent yn cyfrannu at y model rhesymeg polisi ar wahân i gyfraniad y theori rhaglen sylfaenol.
- 5.2 Yn sgil y Cyfnod Sylfaen, daeth yn statudol i gyflwyno saith maes dysgu. Mae'r canllawiau atodol yn adlewyrchu'n gryf ymrwymiad i ddull datblygiadol. Maent hefyd yn cyfeirio at ganologrwydd dulliau gweithredol ac ymarferol o ddysgu, lles plant, pwysigrwydd siarad/cyfathrebu a phlant yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau, er enghraifft: hynny yw, dulliau sydd wedi'u halinio i raddau helaeth â syniadau lluniadaethol ac yn benodol â syniadau cymdeithasol-ddiwylliannol. Adlewyrchir ymrwymiad i safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol hefyd drwy roi 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol' wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen.

- 5.3 Mae'r holl ddogfennau arweiniad yn cynnwys cyfeiriadau at ddatblygu sgiliau meddwl plant a defnyddio TGCh. Gallai darparu Datblygu'r Iaith Gymraeg fel Maes Dysgu ar wahân mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, gyda datganiadau 'sgiliau ac ystod' sy'n cyfateb i'r maes dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, gynnig her i ymarferwyr, ond mae'n adlewyrchu ymrwymiad i ddatblygu'r iaith Gymraeg a chenedl ddwyieithog.
- 5.4 Yn nogfen y Fframwaith, mae'r datganiadau ffocws rhagarweiniol ar gyfer pob maes dysgu yn tueddu i bwysleisio dulliau y gellid eu mabwysiadu ar ddechrau'r 'continwmm dysgu', gan gyfeirio'n fras yn unig at sgiliau lefel uwch a mwy cymhleth. Gallai hyn awgrymu bod pwyslais ar ddatblygu sgiliau cysyniadol cynnar ar draws y Cyfnod Sylfaen a 'chyffyrddiad ysgafnach' â'r cwricwlwm statudol.
- 5.5 Mae datganiadau 'sgiliau ac ystod' yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r datganiadau ffocws ond maent yn fwy penodol o ran cynnwys yn gysylltiedig â phwnc; mae hyn yn arbennig o wir ar lefelau uwch y continwmm dysgu. Mae dogfennau arweiniad hyd yn oed yn fwy eglur wrth ddisgrifio datblygiad a dilyniant plant mewn dysgu yn ogystal â chynnwys yn gysylltiedig â 'phwnc', gyda rhagor o estyniadau i'r hyn sydd gyfwerth â lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â 'Datblygiad Mathemategol' ac yn arbennig 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'. Gallai hyn awgrymu y dylid rhoi pwyslais penodol ar y meysydd dysgu hyn.
- 5.6 Gyda'i gilydd, mae canlyniadau, datganiadau 'sgiliau ac ystod' meysydd dysgu, a'r ddogfennaeth arweiniad, yn adlewyrchu'r bwriad i 'gyfuno' meysydd dysgu a rhaglenni astudio Cyfnod Allweddol 1 a chanlyniadau'r CC. Gallai mabwysiadu'r dull sy'n seiliedig ar chwarae a amlinellir yn y dogfennau arweiniad a sicrhau bod plant unigol yn gwneud 'cynnydd cyson' ar hyd y continwmm dysgu mewn perthynas ag ystod eang o gynnwys penodol – yn enwedig mewn perthynas â'r

cynnwys manwl a helaeth a amlinellir yn 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Datblygiad Mathemategol' – fod yn heriol i ymarferwyr.

- 5.7 Mewnbyn allweddol arall i'r Cyfnod Sylfaen yw'r Aseidiadau statudol Ar Ddiwedd Cyfnod sy'n disodli aseidiadau statudol blaenorol Cyfnod Allweddol 1. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i gael eu cyflwyno trwy aseidiadau athrawon.
- 5.8 Y prif buddsoddiad ariannol yn y Cyfnod Sylfaen sy'n gysylltiedig â chymarebau oedolyn i blentyn (uwch) newydd:
- 1:8 mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn (3-5 oed)
 - 1:15 ym Mlynyddoedd 1 a 2 (5-7 oed).
- 5.9 Roedd angen recriwtio staff ychwanegol (cynorthwywyr addysgu) ym mhob ysgol¹⁵ ar gyfer y cymarebau oedolyn i blentyn uwch hyn.
- 5.10 Buddsoddiad ariannol pwysig arall yn y Cyfnod Sylfaen oedd adnoddau i ysgolion ddatblygu eu hamgylcheddau dysgu yn yr awyr agored. I ddechrau, rhoddwyd dyraniad cyfalaf i'r holl awdurdodau lleol yn seiliedig ar y fformiwla cyllid Cyfalaf Cyffredinol (Addysg). Roedd gofyn iddynt gyflwyno eu cynnig i ddefnyddio'r grant a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.
- 5.11 Mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen hefyd wedi arwain at ddatblygu a darparu adnoddau ar gyfer modiwlau hyfforddiant newydd a recriwtio Swyddog Hyfforddi a Chymorth (SHCh) ym mhob awdurdod lleol (i weithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr unigol y blynyddoedd cynnar ym mhob awdurdod lleol). Prif nod y swyddogion hyfforddi a chymorth, sydd fel arfer yn athrawon wedi'u secondio i'r awdurdod lleol, oedd cefnogi datblygiad a dysgu ar gyfer ymarferwyr wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a'i ddatblygu (yn aml trwy hyfforddiant).

¹⁵ Ni chafodd y lleoliadau nas cynhelir unrhyw gyfraniad ariannol ar gyfer staffio gan fod gofyn iddynt weithredu cymhareb 1:8 eisoes.

- 5.12 Ochr yn ochr â chymorth a hyfforddiant awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn trefnu cynadleddau blynyddol ar y Cyfnod Sylfaen ar gyfer penaethiaid ac uwch reolwyr ac ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Mae pob cynhadledd yn tueddu i ganolbwyntio ar thema benodol neu set o faterion, ac fe gaiff ei hailadrodd ar draws y gwahanol ardaloedd yng Nghymru.
- 5.13 Y mewnbwn allweddol terfynol oedd cyflwyno Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (PADP) statudol i'w gwblhau ar gyfer pob plentyn o fewn chwe wythnos o ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Cyflwynwyd hwn yn gyntaf yn ystod 2011/12 mewn ysgolion a gynhelir yn unig, ond dylid nodi bod y gofyniad statudol i gwblhau'r rhain wedi cael ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach yn dilyn adolygiad cyflym (Siraj-Blatchford 2012).
- 5.14 Yn 2003, cyhoeddwyd dogfen ymgynghori gan Lywodraeth Cymru, sef *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*, a fu'n sylfaen ar gyfer ymarfer ymgynghori, a arweiniodd at gyhoeddi Cynllun Gweithredu ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (i'w ddiwygio yn ddiweddarach). Y bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn nifer o leoliadau peilot (2004/05) ar gyfer plant 3 i 5 oed, ac wedyn ei gyflwyno'n derfynol i bob plentyn 3 i 5 oed yng ngweddill y lleoliadau yn 2006/07. Cyn dechrau'r cyfnod peilot, dechreuwyd datblygu'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu a Fframwaith drafft ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- 5.15 Datblygwyd prif gynllun a chynnwys y Cyfnod Sylfaen gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) rhwng 2003 nes iddo uno yn 2006 ag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd ACCAC yn gyfrifol am lunio dogfen Fframwaith drafft ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r dogfennau arweiniad dilynol ar bob un o'r saith maes dysgu. Lluniwyd dogfen arweiniad ganddynt yn ddiweddarach ar *Addysgeg Dysgu ac Addysgu* ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen.

- 5.16 Datblygwyd deunyddiau arweiniad diweddarach ochr yn ochr â gweithredu a datblygu'r Cyfnod Sylfaen mewn 44 o leoliadau peilot (gan gynnwys 22 o ysgolion). Roedd y 44 o leoliadau hyn yn cynnwys y cyfnod peilot gwreiddiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gweler isod).
- 5.17 Byddai'n ymddangos mai ychydig iawn o arweiniad ffurfiol oedd ar gael (heblaw dogfen ymgynghori'r Cyfnod Sylfaen a'r Cynllun Gweithredol dilynol) pan gyflwynodd y lleoliadau peilot hyn y Cyfnod Sylfaen i ddechrau. Fodd bynnag, byddai'r lleoliadau hyn wedi cael eu hannog i ddefnyddio ac ymestyn y dulliau a amlinellir mewn Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu'r Plant cyn Oedran Ysgol Gorfodol (ACCAC 1996). Yn ystod y blynyddoedd cyntaf, trefnwyd cyfres o weithdai a digwyddiadau gan ACCAC i weithio gyda lleoliadau peilot wrth ddatblygu cynllun a chynnwys y Cyfnod Sylfaen.
- 5.18 Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen i ddechrau mewn 22 o ysgolion (a 22 o leoliadau nas cynhelir ychwanegol a ariennir) yn y flwyddyn ysgol 2004/05 ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn (h.y. plant 3-5 oed). Cyfeiriwyd at hyn fel cyfnod peilot ysgolion a lleoliadau. Fe'i cyflwynwyd yn ddiweddarach i 22 o ysgolion eraill (a 22 o leoliadau nas cynhelir ychwanegol a ariennir) yn y flwyddyn ysgol 2006/07, eto i blant mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn. Cyfeirir at y set hon o ysgolion a lleoliadau fel y cyfnod Dechrau'n Gynnar. Parhaodd y plant hyn, a grwpiau blwyddyn dilynol i ddilyn y Cyfnod Sylfaen tan ddiwedd Blwyddyn 2 cyn symud ymlaen i Gwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2.
- 5.19 Dewiswyd yr ysgolion yn y cyfnod peilot yn derfynol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn argymhellion a wnaed gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Dewiswyd un ysgol ac un lleoliad nas cynhelir a ariennir o bob awdurdod. Er gwaethaf rhywfaint o arweiniad cychwynol ar gyfer dewis ysgolion peilot gan Lywodraeth Cymru, mae'r dull a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol wrth ddewis ysgolion (ac felly trwy

ddiffiniad, y sampl derfynol o ysgolion peilot) yn aneglur (Siraj-Blatchford et al. 2005).

- 5.20 Yn 2004/05, ariannodd Llywodraeth Cymru werthusiad o gyfnod cyflwyno peilot y flwyddyn gyntaf (Siraj-Blatchford et. al. 2005).
- 5.21 Ysgogwyd y cyfnod Dechrau'n Gynnar a dewis ysgolion ar gyfer y cyfnod hwn o weithredu gan angen i gysylltu ymyrraeth y blynyddoedd cynnar, Dechrau'n Deg, â'r Cyfnod Sylfaen. Teimlid y byddai plant a fu'n cymryd rhan yn Dechrau'n Deg, sef rhaglen gymorth i deuluoedd plant 0-3 oed mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru, yn elwa ar symud ymlaen i'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn oedi i gyfnod cyflwyno terfynol y Cyfnod Sylfaen ym mhob ysgol, penderfynwyd y dylid cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn 22 o ysgolion ychwanegol a 22 o leoliadau nas cynhelir a ariennir cyn y cyfnod cyflwyno terfynol i sicrhau parhad i blant o Dechrau'n Deg.
- 5.22 Yn dilyn oedi, dechreuwyd cyflwyno cyfnod terfynol y Cyfnod Sylfaen i'r holl ysgolion a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir a oedd yn weddill yn 2008/09 i blant mewn dosbarthiadau meithrin (h.y. plant 3-4 oed). Erbyn y flwyddyn ysgol 2011/12, roedd pob plentyn 3 i 7 oed yn dilyn y Cyfnod Sylfaen.
- 5.23 Yn 2010, comisiynwyd astudiaeth gan Lywodraeth Cymru i archwilio profiad y trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 ymhlith yr ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar (Morris a McCrindle 2010).

6 Allbynnau, Canlyniadau ac Effeithiau'r Cyfnod Sylfaen

- 6.1 Prif *allbwn* y Cyfnod Sylfaen oedd cyflwyno rhaglen gwricwla newydd ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar ledled Cymru i blant 3 i 7 oed. O 2011/12, mae pob plentyn 3 i 7 oed yn cael y Cyfnod Sylfaen. Mae plant 3 i 4 oed sy'n mynychu lleoliadau/ystafelloedd dosbarth meithrin a gynhelir neu leoliadau nas cynhelir a ariennir hefyd yn dilyn y Cyfnod Sylfaen, gan sicrhau bod fframwaith cwricwlwm 'cenedlaethol' yn bodoli sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn y sector ysgolion. Mae hefyd yn bosibl bod plant sy'n mynychu lleoliadau meithrin annibynnol yn dilyn y Cyfnod Sylfaen, er nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd.
- 6.2 Yn ystod y cyfnodau Peilot a Dechrau'n Gynnar, cyhoeddwyd cyfres o ddogfennau swyddogol yn amlinellu cynllun a chynnwys y Cyfnod Sylfaen (gweler Atodiad A). Mae'r *allbynnau* hyn yn cynnwys Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant a chyfres o ddogfennau arweiniad ar gyfer ymarferwyr. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am eu defnydd a'u haddasrwydd, a fydd yn ffocws yn y gwerthusiad.
- 6.3 Yn unol â'r hyn yr amlinellwyd yn y Bennod flaenorol, mae cyflwyno cymarebau oedolyn i blentyn uwch yn ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen, a recriwtio staff addysgu ychwanegol mewn ysgolion yn ddiweddarach, wedi bod yn *fewnbwn* allweddol yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd cyllid ar gael o'r adeg y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen am y tro cyntaf mewn lleoliadau peilot ar gyfer y cymarebau oedolyn i blentyn uwch newydd hyn. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer hyn bellach wedi'i seilio'n bennaf ar fecanweithiau cyllid fformiwla fel rhan o Grant y Cyfnod Sylfaen i awdurdodau lleol. Mae'r grant yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei roi i'r ysgolion i'w cefnogi i fodloni'r cymarebau uwch. Gofynnir i bob awdurdod lleol gyflwyno cynllun gwariant a chyflwyno i Lywodraeth Cymru bob chwarter. Nid oes dyletswydd statudol i fodloni'r cymarebau oedolyn i blentyn uwch hyn mewn ystafelloedd

dosbarth, felly lle ysgolion (ac awdurdodau lleol) yn bennaf yw penderfynu sut defnyddir yr adnodd hwn a pha lefel o gymarebau oedolyn i blentyn a gyflawnir ym mhob ystafell ddosbarth. Er bod data ar gael ar feintiau ystafelloedd dosbarth, cymarebau oedolyn i blentyn, a phrofiad ymarferwyr, bydd rhagor o wybodaeth fanylach yn cael ei chasglu trwy gydol y gwerthusiad i weld pa amrywiadau sy'n bodoli ar draws ysgolion a lleoliadau.

- 6.4 Mae elfen allweddol o baratoi ymarferwyr i roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a'i gyflwyno yn dod o weithgareddau hyfforddi a ddarperir gan Awdurdodau Lleol. Nid oes targedau wedi'u cofnodi ar gyfer darparu hyfforddiant nac unrhyw wybodaeth ar gael yn rhwydd am *allbynnau'r* ddarpariaeth hon (e.e. nifer sy'n manteisio) gan Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i hadrodd yn ymwneud â defnyddio neu addasrwydd cynadleddau blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cyfnod Sylfaen. Bydd y gwerthusiad parhaus yn canolbwyntio ar hyn.
- 6.5 Mae Asesiadau Diwedd Cyfnod wedi cael eu cwblhau gan nifer o garfannau o blant mewn ysgolion Peilot a Dechrau'n Gynnar erbyn hyn. Bydd pob plentyn ym Mlwyddyn 2 yn cwblhau Asesiadau Diwedd Cyfnod y Cyfnod Sylfaen yn ystod 2011/12. Bydd canlyniadau'r *allbynnau* hyn yn cael eu dadansoddi'n fanwl yn ystod y gwerthusiad.
- 6.6 Bydd amgylcheddau ysgol (yn enwedig yn yr awyr agored) wedi cael eu haddasu i hyrwyddo egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Eto, nid oes unrhyw adrodd cenedlaethol ar yr adnoddau sydd ar gael a/neu'r defnydd o adnoddau ar gyfer addasu amgylchedd yr ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Bydd rhagor o fanylion am yr *allbwn* hwn yn cael eu casglu yn ystod y gwerthusiad.
- 6.7 Yn y nodau neu'r cynigion gwreiddiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, nodir rhai *canlyniadau* eglur. Yn wir, yn *Y Wlad sy'n Dysgu* (CCC 2001a), ni roddwyd unrhyw dargedau ar gyfer y cyfnod cyn Cyfnod Allweddol 2.

Fodd bynnag, mae'n bosibl dechrau nodi ystod o ganlyniadau y gellid eu disgwyl o'r Cyfnod Sylfaen, a bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn cymryd rhai blynyddoedd cyn i'r Cyfnod Sylfaen gael effaith. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- mwy o gymhelliant ac agweddau dysgu cadarnhaol gwell erbyn i blant fod yn 7 oed
- gwelliant mewn cyflawniad addysgol cyfartalog erbyn i blant fod yn 11 oed ac yn hŷn (e.e. llythrennedd, rhifedd yr iaith Gymraeg)
- llai o gyrhaeddiad gwahaniaethol rhwng grwpiau penodol o blant erbyn iddynt fod yn 11 oed ac yn hŷn (e.e. yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd)
- cyflawniad addysgol cyfartalog gwell erbyn i blant fod yn 15 oed, a llai o blant yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau
- cyfraddau uwch o gyfranogiad mewn addysg ôl-orfodol (AB ac AU)
- lles gwell ac agwedd gryfach o ran dysgu gan bob dysgwr, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig
- cyfraddau is o ddiffyg presenoldeb cyfartalog i bob dysgwr, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig
- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gwell ymhlith plant, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig
- mwy o ran gan rieni/gofalwyr ym mhrofiad addysg plant.

6.8 Mae nodau penodol y Cyfnod Sylfaen wedi'u halinio'n fwy â'r *effeithiau* ehangach y disgwylir iddo eu cael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- paratoi gwell ar gyfer dysgu yn CA2 ymlaen
- cyflawniad addysgol gwell plant yn 15 oed (CA4)
- cyfranogiad cynyddol mewn addysgol ôl-orfodol (e.e. AB ac AU) neu hyfforddiant galwedigaethol arall
- lliniaru rhywfaint ar effaith anfantais economaidd-gymdeithasol i ddysgwyr
- lles cymdeithasol ac emosiynol cynyddol ar gyfer plant a phobl ifanc
- trosglwyddo agweddau cadarnhaol yn well rhwng cenedlaethau a dylanwadu ar addysg a dysgu

- Illai o wahaniaethau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

6.9 Gallai'r Cyfnod Sylfaen hefyd arwain at welliannau ehangach ym mhrofiad proffesiynol athrawon ac ymarferwyr, a allai, yn ei dro, helpu i ddenu athrawon o safon dda yn y dyfodol ac annog datblygiad proffesiynol parhaus gwell.

7 Model Rhesymeg Polisi: Trafodaeth a Chasgliadau

Materion allweddol a chwestiynau ar gyfer y gwerthusiad

- 7.1 Mae'r Model Rhesymeg Polisi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi'i grynhoi yn Ffigur 1. Bydd datblygu'r Model Rhesymeg cychwynnol hwn yn helpu i arwain y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen. Disgwylir hefyd y bydd y Model Rhesymeg yn parhau i ddatblygu trwy gydol y gwerthusiad wrth i ragor o wybodaeth a thystiolaeth gael eu casglu. Byddem yn disgwyl y gallai ail fersiwn o'r Model Rhesymeg gael ei chyhoeddi tuag at ddiwedd y gwerthusiad (yn ystod 2014) er mwyn cynorthwyo'r gwerthusiad parhaus o'r Cyfnod Sylfaen ac yn y dyfodol.
- 7.2 Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r Model Rhesymeg hwn, rydym wedi dechrau nodi nifer o faterion a chwestiynau sy'n bwysig i'w hystyried wrth helpu i lywio datblygiad y gwerthusiad.
- 7.3 Y mater cyntaf yn y ddogfennaeth gyhoeddedig, nid oes cadwyn glir o resymu bob amser rhwng nodi problemau a chyflyrau y bwriadwyd i'r Cyfnod Sylfaen fynd i'r afael â nhw yn wreiddiol (e.e. treulio gormod o amser wrth fyrddau; gallu a safon athrawon), a nodau penodol y Cyfnod Sylfaen (e.e. gwella safonau cyflawniad plant; gwella eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu; mynd i'r afael â'u hanghenion sy'n datblygu; eu galluogi i elwa ar gyfleoedd addysgol yn ddiweddarach yn eu bywydau; a'u helpu i fod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau). Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ei fod yn weddol amlwg bod cynllun a chyfeiriadedd y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu i ymateb i'r math o heriau lefel micro neu 'ddiffygion' a nodwyd ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Ond ar y llaw arall, nid yw'r mathau hyn o faterion cyd-destunol wedi cael eu troi yn set gyfatebol o nodau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae perygl felly o ddibynnu ar werthusiad o'r nodau penodol heb ystyried yr heriau sylfaenol y cynlluniwyd y Cyfnod Sylfaen i fynd i'r afael â nhw. Yn yr un

modd, gallai'r nodau penodol adlewyrchu materion ehangach, mwy strwythurol, y gobeithiwyd y byddai'r Cyfnod Sylfaen yn mynd i'r afael â nhw hefyd. Mae dau gwestiwn allweddol yn deillio o hyn. Y cyntaf yw **a roddwyd digon o ystyriaeth i heriau ac amodau strwythurol ehangach addysg y blynyddoedd cynnar wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen?** Trwy anwybyddu'r fath faterion strwythurol sy'n wynebu plant ifanc ac addysg y blynyddoedd cynnar, mae'n bosibl mai ychydig o effaith a gaiff y Cyfnod Sylfaen ar heriau o'r fath, fel y mae wedi'i ffurfio ar hyn o bryd. Yn wir, efallai nad yw hyd yn oed wedi cael ei dargedu at achosion sylfaenol y diffygion lefel micro y cafodd ei gynllunio'n benodol i fynd i'r afael â nhw. Ail gwestiwn, a chwestiwn cysylltiedig y mae hyn yn ei godi ar gyfer y gwerthusiad yw, **i ba raddau y bydd modd dangos perthynas achosol rhwng y math o ddeilliannau ac effeithiau bwriadedig a'r ysgogiadau polisi ac arfer penodol (y mewnbynnau) sy'n ffurfio'r Cyfnod Sylfaen?** Er enghraifft, pe bai cyflawniad, neu safonau, yn codi yn y blynyddoedd nesaf, a fydd modd dangos 'effeithiau' neu achos cymharol gwahanol rannau cyfansoddol y Cyfnod Sylfaen, megis y cymarebau oedolyn i blentyn uwch, y cyllid ychwanegol ar gyfer amgylcheddau ysgol, yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i ymarferwyr, neu'r dull newydd o addysgu a dysgu. Mae hon yn her hysbys sy'n wynebu'r rhan fwyaf o werthusiadau polisi. Fodd bynnag, ymddengys y caiff ei waethygu'n benodol gan y tensiwn hwn a'r rhesymwaith hynod gymhleth a damcaniaethol, sy'n ategu'r cysylltiad honedig rhwng y 'camau' lefel micro i'r 'effeithiau' lefel macro.

- 7.4 Yr ail fater sy'n codi o hyn yw absenoldeb cymharol unrhyw ddangosyddion a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer mesur effaith (cadarnhaol neu negyddol) y Cyfnod Sylfaen. Mae'n amlwg yn wir nad yw egwyddor sylfaenol y Cyfnod Sylfaen yn cefnogi defnyddio targedau. Mae'r 'sefyllfa athronyddol' hon, o fewn Llywodraeth Cymru, i beidio â gorfodi unrhyw dargedau wedi tueddu i fod yn flaenllaw mewn polisi addysg ym mhob blwyddyn ers cyhoeddi *Y Wlad sy'n Dysgu* yn 2001. Mae hyn yn benodol yn adlewyrchu'r newid mewn dull ac athroniaeth ar gyfer addysg yn ystod blynyddoedd cyntaf addysg. Yn

hytrach, pan osodir targedau eglur, mae'r ffocws ar wneud gwelliannau yn y cyflawniad addysgol ar ôl i blant fod yn 11 oed. Fodd bynnag, er mai prin yw'r cyfeiriadau eglur a wneir at hyn, awgrymir y dylai'r Cyfnod Sylfaen gynnig 'dechrau da' a 'sylfaen gadarn' ar gyfer llwyddiant addysgol yn y dyfodol. Cwestiwn allweddol sy'n codi wedyn yw, **sut gellir monitro effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau cynnydd mewn cyrhaeddiad addysgol ar ôl 11 oed?** Heb fonitro gallu a datblygiad yn rheolaidd yn ystod bywyd plentyn, efallai na fydd modd sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud nes ei bod efallai'n rhy hwyr. Yn yr hinsawdd bresennol o 'godi safonau' yng Nghymru, efallai yr eir i'r afael â hyn yn gynyddol. Ond wedyn mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch a ellir cynnal egwyddorion y Cyfnod Sylfaen os yw ffocws ar godi safonau, a rheoli perfformiad ysgolion ac awdurdodau lleol yn gynyddol (trwy fandio ysgolion cynradd, er enghraifft), yn dechrau cael lle blaenllaw yn nulliau addysgu a dysgu ymarferwyr.

- 7.5 Y trydydd prif fater yw y gellir ond diffinio llawer o nodau'r Cyfnod Sylfaen ochr yn ochr â "dimensiynau ansoddol" (*Y Wlad sy'n Dysgu* CCC 2001a:61). Y broblem yma yw mai ychydig iawn o ddangosyddion ansoddol a gafodd eu nodi neu'u defnyddio wrth sefydlu'r Cyfnod Sylfaen. Gellir datblygu dangosyddion ansoddol o'r fath, ac felly mae'n rhaid cynnal archwiliad manwl ac ansoddol o'r Cyfnod Sylfaen a'i effeithiau. Fodd bynnag, mae dau gwestiwn yn codi o hyn. Y cyntaf yw, **pa ddangosyddion ansoddol ddylai'r gwerthusiad eu datblygu a'u defnyddio, sy'n sicrhau bod nodau gwreiddiol y Cyfnod Sylfaen yn cael eu harchwilio?** Yr ail gwestiwn yw, heb unrhyw ddangosyddion a mesurau ansoddol blaenorol, **i ba raddau all y gwerthusiad ddangos *newidiadau* yn effeithiau mwy ansoddol y Cyfnod Sylfaen?**
- 7.6 Pedwerydd mater allweddol sy'n deillio o baratoi'r Model Rhesymeg, yw'r ffaith nad yw'r tarddiadau a'r rhesymwaith ar gyfer nifer o elfennau allweddol yng nghynllun a chynnwys y Cyfnod Sylfaen (yn enwedig y mewnbynnau) wedi cael eu gwneud yn eglur o reidrwydd yn unrhyw un

o'r dogfennau cyhoeddedig. Er enghraifft, nid yw'n gwbl hysbys beth yw'r penderfyniadau am lefel y cymarebau oedolyn i blentyn yn y Cyfnod Sylfaen, natur yr hyfforddiant a'r cymorth wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, a lefel yr adnoddau a ddarperir a'r buddsoddiad sydd eu hangen i wella amgylcheddau ysgol awyr agored. Yn benodol, nid yw hi bob amser yn glir sut mae'r mewnbynnau hyn yn ymwneud â'r rhesymwaith sylfaenol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, a sut yn benodol maent i fod i fynd i'r afael â nodau a chyflawni canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Er y gellir awgrymu hyn yn aml, mae perygl y daw hyn yn gyfiawnhad ôl-olygol dros eu dewis a'u cynllunio yn hytrach nag adlewyrchiad o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniadau gwreiddiol. I ryw raddau, gellid mynd i'r afael â hyn trwy ddeall mwy am brosesau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio yn ystod y cyfnod dechreuol. Felly, y cwestiwn y mae angen ei ystyried efallai yw, **a fyddai'n ddefnyddiol i'r gwerthusiad gasglu rhagor o dystiolaeth ar benderfyniadau, cynllun a gweithredu cynnar o ran y Cyfnod Sylfaen?** Y broblem yma yw'r ffaith nad yw llawer o unigolion allweddol a gymerodd ran yn y prosesau gwneud penderfyniadau cynnar yn cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen na Llywodraeth Cymru mwyach.

- 7.7 Y pumed mater sy'n gysylltiedig â hyn yw p'un a oes unrhyw dargedau neu fwriadau penodol ar gyfer rhai o'r mewnbynnau, yn enwedig o ran rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a'i gyflwyno. Yn benodol, mae hyn yn codi rhagor o gwestiynau am rôl a natur yr hyfforddiant a'r cymorth y tybir eu bod yn angenrheidiol wrth symud at ddull newydd ar gyfer addysgu a dysgu yn y blynyddoedd cynnar, a chanlyniadau posibl hyn y tu hwnt i ysgolion ac awdurdodau lleol, megis mewn addysg athrawon. **Cwestiwn penodol ar gyfer y gwerthusiad felly yw pa hyfforddiant a chymorth sydd wedi cael ei gynnig a'i dderbyn, sut cafodd hyn ei ddatblygu, a beth oedd y bwriadau gwreiddiol ar gyfer hyfforddiant a chymorth?**

- 7.8 Mae'r chweched mater y mae angen ei ystyried ymhellach yn deillio o'n dadansoddiad manwl o'r rhesymwaith sylfaenol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (yn enwedig o ran ei ymagwedd at addysgu a dysgu). Mae'n weddol glir bod nifer o densiynau oddi mewn a allai ei gwneud yn anodd i ymarferwyr ddehongli'r Cyfnod Sylfaen, a'i roi ar waith yn ddiweddarach. Amlygwyd hyn eisoes gan y ddwy astudiaeth flaenorol ar y Cyfnod Sylfaen, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n eithaf canolog i'r gwerthusiad hwn ofyn, **sut caiff y Cyfnod Sylfaen ei ddeall a sut caiff ei ddehongli mewn awdurdodau lleol, ysgolion, ystafelloedd dosbarth a lleoliadau nas cynhelir a ariennir?**
- 7.9 Y mater olaf a amlygir gan yr adroddiad hwn yw y bydd yn rhaid i'r gwerthusiad gyfiawnhau a datblygu ei offer ei hun yn ofalus ar gyfer nodi a mesur effaith y Cyfnod Sylfaen, yn absenoldeb unrhyw dargedau eglur na mesuriad blaenorol o ffactorau a gynlluniwyd i newid. Fodd bynnag, rhaid i'r gwerthusiad fod yn sensitif i egwyddorion sylfaenol y Cyfnod Sylfaen i gyfyngu ar bwysigrwydd ac effaith canlyniadau mesuradwy ar ddiwedd y Cyfnod. Ni ddylai'r gwerthusiad roi'r argraff ei fod yn darparu parodrwydd yn eglur ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Yn benodol, efallai y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i **sut dylai'r gwerthusiad adrodd am effeithiau a chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen?**
- 7.10 Dylid cydnabod bod llawer o'r materion hyn yn dylanwadu ar y gwerthusiad, gan nid yw hi bob amser yn bosibl asesu'r graddau y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei wireddu'n llawn yn y modd y cafodd ei gynllunio a'i fwriadu yn wreiddiol. Serch hynny, mae'r materion a'r cwestiynau a amlygir uchod yn helpu i gyfeirio ffocws y gwerthusiad, a bwriad y gwerthusiad yw ceisio mynd i'r afael â llawer o'r materion, neu'u cysoni, a ffurfio monitro'r rhaglen yn y dyfodol, a'i gwerthuso'n barhaus.

Trafodaeth

7.11 Fframwaith radical ac eclecticig yw'r Cyfnod Sylfaen, sy'n defnyddio arfer gorau o Gymru, Ewrop a'r tu hwnt. Mae Phillips ac Ochs (2004) yn nodi bod hanes hir i'r syniad o 'fenthycia polisi' – a'r cymhelliant yw cael "gwersi defnyddiol o dramor" (Noah ac Eckstein 1969, dyfynnwyd yn Phillips ac Ochs 2004:774). Fel enghraifft ddiweddar, maent yn dyfynnu'r diddordeb presennol yn Y Ffindir o ganlyniad i'w safle uchel yn yr arolwg PISA diweddar (Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr). Mae Phillips ac Ochs hefyd yn nodi tri cham o 'fenthycia polisi': denu ar draws gwledydd – a allai, fel yng Nghymru, gynnwys anfodlonrwydd mewnol neu newid gwleidyddol; gwneud penderfyniadau; ac yn olaf, mewnoli neu gynefino polisi (integreiddio), lle daw'n rhan o system y wlad sy'n benthyca. Dyma pryd y daw'n bosibl asesu'r effeithiau ar y polisi sy'n bodoli eisoes.

7.12 Gellir dadlau bod y diddordeb hwn wedi cael ei ddwysáu a'i wneud yn fwy hygyrch o ganlyniad i fydehangu a ddaeth â byd rhaglenni plentyndod cynnar i sylw'r gwledydd, ac effeithiau amlwg y rhain yn y tymor hir, ochr yn ochr â'r angen am weithlu addysgedig er mwyn datblygu neu gynnal 'economïau gwerth uchel a medrus' (Diamond 2008 TLRP). Yn y cyflwyniad, fe wnaethom nodi ei bod yn ymddangos mai mynd i'r afael â heriau'r farchnad fyd-eang yw un o'r ysgogwyr allweddol ar gyfer sefydlu'r Cyfnod Sylfaen.

Addysgeg Gymdeithasol a Pharodrwydd ar gyfer Ysgol

7.13 Cwestiynwyd y syniad bod modd defnyddio rhaglenni sydd â gwahanol wreiddiau a gwerthoedd athronyddol a gwleidyddol sydd wedi'u hymgorffori yn ddiwylliannol (gweler Goouch a Bryan 2006, er enghraifft). Mewn perthynas ag effeithiau bydehangu, un o'r prif densiynau a ystyriwyd yw'r tensiwn rhwng rhaglenni sy'n cyd-fynd â model 'addysgeg gymdeithasol' a'r rheiny sy'n cyd-fynd â model 'parodrwydd ar gyfer ysgol' neu fodel 'cyn cynradd'.

- 7.14 Mae Bennett (2006) yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng traddodiad ysgol feithrin (addysgeg gymdeithasol) y gwledydd Llychlynnaid a chanol Ewrop a'r dull cyn cynradd a welir yn Awstralia, Canada, Ffrainc, Iwerddon, yr Iseldiroedd, y DU ac UDA. Mae Bennett (2006) yn honni bod y dull addysgeg gymdeithasol yn cydnabod hawliau ac arwyddocâd children, teuluoedd a chymunedau, gyda phwyslais cryf ar "ddysgu i gyd-fyw ac ar gefnogi plant yn eu tasgau a'u diddordebau datblygiadol presennol" (2006:60) fel "ffordd o baratoi'n fras ar gyfer bywyd" (2006:60).
- 7.15 Mae cwricwla yn tueddu i fod ar ffurf fframweithiau eang sy'n cael eu dehongli'n lleol, er bod yn rhaid i leoliadau barchu "strategaethau dysgu naturiol plant ifanc... dysgu trwy chwarae, rhyngweithio, gweithgarwch ac ymchwilio personol" (tud.60) gyda gwaith prosiect cydweithredol tra ystyrir bod "annog mentrau plant a ffyrdd plant o greu ystyron" yn rhoi cefnogaeth gref i ddatblygiad gwybyddol plant. Gan ddyfynnu Martin-Kopi (2005), mae Bennett (2006) yn nodi mai'r prif amcan yw i blant ddatblygu agwedd meddwl gadarnhaol tuag at ddysgu yn hytrach na bodloni amcanion dysgu a bennwyd ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â lefelau gwybodaeth a sgil.
- 7.16 Mewn cyferbyniad, mae Bennett (2006) yn honni bod cynnwys a dulliau'r ysgol gynradd yn cael eu cyflwyno yn y blynyddoedd cynnar, yn y model 'dull cyn cynradd' neu'r model 'parodrwydd ar gyfer yr ysgol'. Mae ffocws ar 'safonau a chanlyniadau' sy'n rhoi manylion am yr hyn y dylai plant ei wybod a gallu ei wneud ar ddiwedd y rhaglen. Mae'r rhain yn ymwneud â gwybodaeth, sgiliau ac awydd y tybir eu bod yn ddefnyddiol mewn addysg ffurfiol – sy'n dangos bod plant wedi cael 'eu paratoi' i ddarllen ac ysgrifennu a 'chydymffurfio' â gweithdrefnau ystafell ddosbarth (Bennett, 2006).
- 7.17 Yn fuddiol, mae Bennett (2006) yn polareiddio'r modelau hyn er mwyn gwneud eu gwahaniaethau yn weladwy, ond fel y mae'n cydnabod, gallent gynrychioli gwahanol ochrau'r un continwmm mewn gwirionedd.

Enghraifft o fframwaith sy'n cynnwys yn fras y syniad o 'barodrwydd ar gyfer ysgol' – sydd wedi'i wreiddio mewn syniadau lluniadaethol ond hefyd yn defnyddio safbwyntiau cymdeithasol-ddiwylliannol – yw 'Arfer Datblygiadol Priodol' (DAP). Awgrymwyd bod y dull hwn yn cynrychioli'r sefyllfa gytûn yn yr UDA ac ymddengys ei fod yn ddylanwadol yn y DU (gweler Siraj-Blatchford 1999). O ystyried y cyfatebiaethau niferus â'r Cyfnod Sylfaen – mewn perthynas â'r ddogfennaeth o leiaf – rydym yn awr yn ceisio disgrifio DAP yn fanwl, gan ddefnyddio 'Datganiad Sefyllfa ar Arfer Datblygiadol Priodol' NAEYC (2009).

Arfer Datblygiadol Priodol

- 7.18 Fframwaith o egwyddorion a chanllawiau ar gyfer arfer gorau mewn addysg plentyndod cynnar a gofal i blant o ddydd eu geni nes eu bod yn wyth oed yw Arfer Datblygiadol Priodol (DAP); nid yw'n fodel addysgol er ei fod wedi cael ei fabwysiadu yn rhaglen Cwmpas Uchel yr UD, er enghraifft.
- 7.19 Ymddengys mai bwriadoldeb athrawon a'u gwybodaeth am ddatblygiad y plentyn sydd wrth wraidd y DAP. Felly, yn eu gwaith gyda phlant, mae ymarferwyr plentyndod cynnar yn ystyried yr hyn sy'n hysbys am ddatblygiad y plentyn – sut beth yw plant o oedran arbennig yn nodweddiadol er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau am weithgareddau ac adnoddau posibl, ac er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn ystyrllon, beth a wyddant am bob plentyn yng nghyd-destun profiadau blaenorol y plentyn hwnnw, ei deulu, ei ddiwylliant, ei normau ieithyddol, ac ati.
- 7.20 Mae egwyddorion allweddol datblygiad y plentyn sy'n llywio arfer, yn cynnwys cydnabod bod yr holl barthau datblygu a dysgu yn bwysig ac yn gydberthnasol: bod datblygiad yn deillio o'r rhyngweithio rhwng y biolegol a'r cymdeithasol; ac er bod llawer o agweddau ar ddatblygu a dysgu yn dilyn dilyniannau hysbys, mae cynnydd trwy'r dilyniannau hyn yn amrywio o un plentyn i'r llall ac ar gyfraddau anghyfartal ar draws gwahanol feysydd o broffil plentyn. Nodir hefyd, er enghraifft: bod

datblygiad yn mynd ymlaen o'r diriaethol tuag at yr haniaethol a thuag at hunanreoleiddio gwell; caiff profiadau cynnar plant effaith ddwys ar ddatblygiad a dysgu plentyn – gan gynnwys datblygu agwedd meddwl gadarnhaol tuag at ddysgu; a bod y cyfnodau gorau posibl ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad a dysgu yn digwydd.

- 7.21 Pwysleisir gwerth chwarae – yn enwedig ar gyfer ei rôl mewn cefnogi hunanreoleiddio – ac fe gaiff plant eu meithrin i fod yn llunwyr ystyr gweithredol sy'n dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac felly mae angen eu cefnogi trwy ddefnyddio ystod o strategaethau addysgu. Caiff perthnasoedd cynnes ac ymatebol gydag oedolion eu sefydlu, ac anogir perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion. Er enghraifft, mae athrawon yn helpu plant i drafod unrhyw achosion o wrthdaro gyda'u cyfoedion. Gallai athrawon gymryd rhan mewn chwarae plant, gallent ddangos, modelu a chreu heriau. Gwelir bod sgaffaldio yn nodwedd allweddol o rôl yr oedolyn.
- 7.22 Honnir y dylid cael cydbwysedd rhwng profiadau dan arweiniad yr oedolyn a phrofiadau dan arweiniad y plentyn. Gan ddyfynnu Epstein (2007), nododd: "Mae profiad dan arweiniad yr oedolyn yn digwydd yn bennaf ar sail nodau'r athro, ond caiff hefyd ei ffurfio gan ymgysylltiad gweithredol y plant; mae profiad dan arweiniad y plentyn yn digwydd yn bennaf ar sail diddordebau a gweithredoedd y plant, gyda chymorth strategol gan yr athro" (NAEYC 2009:17).
- 7.23 Mae athrawon yn cynllunio'n gyfannol gan integreiddio dysgu plant o fewn ac ar draws holl feysydd datblygiad a dysgu plant (gan gynnwys llythrennedd a mathemateg), gan ystyried diddordebau ac anghenion plant. Gallai nodau cwricwla fod yn 'academaidd' (e.e. yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd) ond dylid cynnwys datblygu cymhwysedd cymdeithasol ac emosiynol hefyd. Mae asesu yn canolbwyntio ar gynnydd plant tuag at y nodau dymunol a nodwyd ac yn cynnwys mewnbwn gan deuluoedd a chan blant.

7.24 Fel y nodwyd uchod, cydnabyddir bod datblygiad a dysgu yn digwydd mewn cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol lluosog, ac yn cael eu dylanwadu ganddynt, a bod angen i athrawon weld pob plentyn yng nghyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol teulu a chymuned y plentyn hwnnw. Sefydlir perthnasoedd parchus a dwyochrog gyda theuluoedd, a dylai athrawon gydnabod angen plant, yn yr economi sy'n fwyfwy byd-eang, i allu gweithredu'n dda mewn cymdeithasol diwylliannol amrywiol.

7.25 Wrth amlinellu rhai o elfennau allweddol DAP, mae'n bosibl nodi llawer o gyfatebiaethau gyda'r Cyfnod Sylfaen (gweler Tabl 3). Er enghraifft, mae'r naill a'r llall yn mabwysiadu dull datblygiadol ac yn canolbwyntio ar y plentyn unigol; mae'r naill a'r llall yn defnyddio safbwyntiau lluniadaethol/cymdeithasol-ddiwylliannol (ymhlith rhai eraill) gan felly hyrwyddo chwarae a dysgu gweithredol a phrofiadol; ac mae'r naill a'r llall yn awgrymu y dylai ymarferwyr fabwysiadu ystod o ddulliau addysgu yn dibynnu ar natur a nod gweithgareddau penodol.

7.26 Nodir, fodd bynnag, fod DAP yn cyfeirio at gydbwysedd rhwng gweithgareddau 'dan arweiniad yr oedolyn' a gweithgareddau 'dan arweiniad y plentyn' yn hytrach na rhwng gweithgareddau 'dan gyfarwyddyd ymarferwr' a gweithgareddau 'wedi'u dechrau gan y plentyn'. Yn arwyddocaol, er bod NAEYC (2009) yn honni y gallai nodau cwricwlaid fod yn academaidd neu'n gymdeithasol/emosiynol, mae'n nodi bod y cwricwlwm yn debygol o fod â chyffyrddiad ysgafn ac wedi'i gytuno yn rhanbarthol neu'n lleol yn hytrach nag yn helaeth ac yn statudol fel yn y Cyfnod Sylfaen.

Symud Tuag at 'Barodrwydd ar gyfer Ysgol'

7.27 Yn y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i bwysau'r farchnad fyd-eang, bu symudiadau canfyddadwy ym mholisiau addysg a gofal plentyndod cynnar rhai gwledydd o addysgeg gymdeithasol tuag at fodel sy'n ymgorffori agweddau ar barodrwydd ar gyfer ysgol.

Tabl 3: Cymhariaeth rhwng y CS a DAP (Cymerwyd gwybodaeth am DAP o NAEYC (2009))

	Arfer Datblygiadol Priodol (DAP)	Y Cyfnod Sylfaen
Statws:	Fframwaith anstatudol o egwyddorion a chanllawiau ar gyfer arfer gorau (geni-8 oed)	Fframwaith cenedlaethol, statudol ar gyfer dysgu plant (3-7 oed)
Dull sylfaenol:	Datblygiadol – ond cydnabod cyfradd cynnydd unigol y plentyn; Mae'r holl barthau datblygu a dysgu yn cydberthyn	Datblygiadol – ond cydnabod cyfradd cynnydd unigol y plentyn; Mae'r holl barthau datblygu a dysgu yn cydberthyn
Damcaniaethau dysgu cysylltiedig:	Lluniadaethol; Cymdeithasol-ddiwylliannol	Lluniadaethol; Cymdeithasol-ddiwylliannol
Syniadau allweddol:	Dysgu trwy chwarae; Hunanreoleiddio; Agweddau dysgu cadarnhaol; Cymhelliant; Hunanhyder; Hunan-barch; Hunan effeithiolrwydd	Dysgu trwy chwarae; Grymuso; Agweddau dysgu cadarnhaol; Cymhelliant; Hunanhyder; Hunan-barch; Cymhwysedd
Creu plant fel:	Llunwyr ystyr gweithredol; Unigolion unigryw (ffocws ar y plentyn unigol)	Llunwyr ystyr gweithredol; Unigolion unigryw (ffocws ar y plentyn unigol)
Nodau'r cwricwla:	Gallent fod yn academaidd a chymdeithasol/emosiynol ond cytunwyd arnynt yn rhanbarthol/lleol	Academaidd a chymdeithasol/emosiynol; Statudol
Dosbarthiad a fframio (gweler troednodyn 18)	Dosbarthiad gwael; Fframio gwael/cymedrol	Dosbarthiad gwael; Fframio gwael/cymedrol
Gweithgareddau/profiadau:	Cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn a gweithgareddau dan arweiniad y plentyn	Cydbwysedd rhwng gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn a gweithgareddau dan arweiniad y plentyn
Rôl yr ymarferwr:	Sgaffaldio, modelu, dangos, herio	Hyrwyddo, cyd-greu, sgaffaldio, modelu, dangos a rhoi cyfarwyddyd
Perthnasoedd oedolyn/plentyn:	Perthnasoedd cynnes, ymatebol	Sôn am berthnasoedd cadarnhaol ond ni chânt eu pwysleisio

Diwylliant cartref/cymuned:	Pwysleisir arwyddocâd y 'bartneriaeth' ddilys gyda rhieni ac ystyried y cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol	Nodi arwyddocâd y bartneriaeth gyda rhieni a chyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol plant
Hunaniaeth/amrywiaeth ddiwylliannol:	Pwyslais ar gefnogi ymwybyddiaeth ddatblygol plant o'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau gwahanol	Pwyslais ar gefnogi ymwybyddiaeth ddatblygol plant o'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau gwahanol

7.28 Yn Sgandinafia, er na ddiwygiwyd polisi addysg Y Ffindir, mae Norwy wedi cyflwyno ‘hyrwyddo gwybodaeth’ sy’n anelu at helpu pob plentyn i “ddatblygu sgiliau sylfaenol i’w galluogi i gymryd rhan yn weithredol yn ein cymdeithas o wybodaeth”. Mae hyn yn cynnwys cryfhau sgiliau sylfaenol gan roi pwyslais ar ddarllen ac ysgrifennu o’r dosbarth cyntaf (6 oed)¹⁶. Mae Sweden wedi egluro ac ymestyn nodau ar gyfer datblygiad plant o ran iaith, mathemateg, y gwyddorau naturiol a thechnegol ac wedi egluro “cyfrifoldebau addysgegol athrawon cynysgol”¹⁷. Mae Einarsdottir (2006) yn dweud bod ‘addysgu’ bellach yn rhan o’r ymdriniaeth ag addysg a gofal plentyndod cynnar mewn gwledydd Llychlynnaid, hyd yn oed oes yw ymarferwyr yn dehongli (ail-ddehongli) hyn fel helpu plant i ddysgu ‘academyddion’ yn anffurfiol.

Yr Her i Lunwyr Polisi yng Nghymru

7.29 Nid yw’r her allweddol sy’n wynebu Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu’r Cyfnod Sylfaen yn unigryw felly. Honnir (OECD, dim dyddiad) bod rhaglenni (cymdeithasol-ddiwylliannol) sydd, er enghraifft, yn cydnabod y gallai gweithrediad plant, pwysleisio dewis ac ymreolaeth, cynnwys dysgu digymell a newydd, hyrwyddo cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau a phwysleisio gweithgareddau wedi’u dechrau gan y plentyn, arwain at fuddion tymor hir mewn perthynas â datblygiad a chymhelliant cymdeithasol i ddilyn addysg uwch, gan felly mynd i’r afael ag unrhyw bryderon ynglŷn ag ymddieithrio disgyblion (OECD, dim dyddiad).

7.30 Ar y llaw arall, mae dulliau wedi’u dechrau gan yr athro sy’n cynnwys ‘addysgu eglur’ yn gallu lleihau bylchau gwybodaeth mewn llythrennedd, iaith a rhifedd yn y tymor byr; mae OECD (dim dyddiad) yn nodi bod sgiliau o’r fath hefyd yn rhagfynegi’n gryf beth fydd

¹⁶ Gweinyddiaeth Addysg ac Ymchwil Norwy, <http://www.regjeringen.no/en/dep/kd.html?id=586>

¹⁷ Cryfhau Statws a thasg Addysgegol cyn-ysgol: Ffeithlen U11.009, Gweinyddiaeth Addysg ac Ymchwil, Sweden, <http://www.sweden.gov.se/sb/d/14051/a/172124>

cyflawniadau plant yn y meysydd hyn yn ddiweddarach (gweler, er enghraifft, Schweinhart a Weikhart 1997; Duncan et al. 2007). Felly, gallai cynnwys gweithgareddau wedi'u dechrau gan yr athro (dan gyfarwyddyd yr ymarferwr) fod yn hynod bwysig fel ymyrraeth i blant sy'n byw mewn amgylchiadau anodd gartref.

- 7.31 Fel y mae'r adroddiad OECD (ibid) yn nodi, (gan ddyfynnu Sheridan 2011, Sheridan et al. 2009), gallai felly fod yn ddoeth i raglenni plentynod cynnar ymgorffori gweithgareddau wedi'u dechrau gan yr athro ochr yn ochr â gweithgareddau wedi'u dechrau gan y plentyn.

Casgliad

- 7.32 Ymddengys bod y dull, yr addysgeg a'r cwricwlwm sy'n cael eu hyrwyddo yn y Cyfnod Sylfaen yn mynd i'r afael â'r pryderon a'r nodau a nodwyd, fel y maent wedi'u hamlinellu yn Y Wlad sy'n Dysgu (CCC 2001a) a chynigion y Cyfnod Sylfaen (CCC 2003a). Hynny yw, gallai mabwysiadu dull datblygiadol a hyrwyddo addysgeg sy'n ymgorffori safbwyntiau lluniadaethol ond yn pwysleisio safbwyntiau cymdeithasol-ddiwyllyannol, a gwneud Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol plant yn ganolog i'r Cyfnod Sylfaen, sicrhau bod dysgu a datblygiad plant – gan gynnwys eu lles, agweddau dysgu cadarnhaol ac ymagweddau cadarnhaol at amrywiaeth ddiwylliannol – yn cael eu cefnogi trwy weithgareddau a phrofiadau priodol, diddorol ac ystyrlon. Gallai hyn ddiogelu rhag ymddieithrio ymhlith disgyblion ac arwain at gymhwysedd cymdeithasol gwell a chyflawniad uwch yn y tymor hwy. Gallai hefyd gefnogi cymhelliant plant i fod yn ddysgwyr gydol oes.
- 7.33 O nodi Datblygu'r Iaith Gymraeg yn Faes Dysgu ar wahân mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg gyda disgwyliadau sy'n cyd-fynd yn fras â rhai maes dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, gellid cefnogi datblygu Cymru yn genedl ddwyieithog.

- 7.34 Yn ychwanegol, o gadw chwricwlwm statudol sy'n canolbwyntio ar sgiliau a disgwyliad y bydd ymarferwyr yn gwneud ychydig o addysgu uniongyrchol ochr yn ochr â gweithgareddau wedi'u dechrau gan y plentyn, gellid sicrhau bod plant ifanc, yn enwedig y rheiny o gartrefi difreintiedig, yn cael eu cefnogi o ran datblygiad cynnar llythrennedd a rhifedd, sy'n hanfodol ar gyfer eu cyflawniad yn ddiweddarach.
- 7.35 Awgrymwn y gallai dwy her wynebu ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Yr her gyntaf yw gwneud synnwyr o rywfaint o'r derminoleg a ddefnyddir yn nogfennaeth y Cyfnod Sylfaen ac ar ei thraws: yn enwedig mewn perthynas ag addysgeg. Yr ail her yw cadarnhau beth yw'r ffordd orau o integreiddio neu gydblethu'r addysgeg gymharol newydd hon sy'n ymgorffori theori luniadaethol ac yn pwysleisio syniadau cymdeithasol-ddiwylliannol, ac sy'n cael ei hategu gan ddull datblygiadol cryf, gyda chwricwlwm statudol manwl – a FfLIRh statudol. Er y gofynnir i ymarferwyr, er enghraifft, gynllunio ar gyfer datblygiad a lles y plentyn unigol a mabwysiadu dull profiadol yn seiliedig ar chwarae o ddysgu, mae disgwyliadau o ran canlyniadau plant mewn perthynas â nifer sylweddol o sgiliau, gwybodaeth a chysyniadau penodol, yn parhau i fod yn ddigyfnewid yn eu hanfod. Bydd y berthynas bosibl hon yn cael ei harchwilio ymhellach yng nghyflwyniadau nesaf y gwerthusiad.

Cyfeiriadau

- Aasen, W. a Waters, J. (2006) A New Curriculum in Wales: a new view of the child? *Education 3-13*, 34(2): 123-129.
- ACCAC (1996) *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol*, Caerdydd: ACCAC.
- ACCAC (2003) *Cyfnodau Allweddol 1 a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru*, Caerdydd: ACCAC.
- Anning, A., Cullen, J. & Fler, M. (2009) (2^{il} Argraffiad) *Early Childhood Education: society and culture*, Llundain: Sage.
- Athey, C. (1990) *Extending Thought in Young Children: a parent teacher partnership*. Llundain: Paul Chapman Publishing.
- Barton, L. (2002) 'Better Late', *The Guardian*, dydd Mawrth 9 Gorffennaf, 2002.
- Bennett, J. (2006) *Starting Strong: Early Childhood Education and Care*, OECD.
- Bernstein, B. (1981) Codes, modalities and the process of cultural reproduction: a model, *Language and Society*, (10): 327-363.
- Bernstein, B. (2000) *Pedagogy, Symbolic Control and Identity: Theory, Research, Critique*, Lanham: Rowman & Littlefield publishers.
- Brooker, E. (2011) Learning to Play in a Cultural Context, yn Broadhead, P., Howard, J. a Wood, E. *Play and Learning in the Early Years: From Research to Practice*, Llundain: Sage.
- Burman, E. (2007) *Deconstructing Developmental Psychology*, Llundain: Routledge.
- Cannella, G.S. (2005) Reconceptualising the field (of early care and education): if 'western' child development is a problem then what do we do? Yn Yelland, N. (Ed) *Critical Issues in Early Childhood Education*. New York: Open University Press.
- Claxton, G. a Carr, M. (2004) A framework for teaching learning: the dynamics of disposition, *Early Years*, 24(1): 87-97.
- Claxton, G. (2008) Cultivating positive learning dispositions in Daniels, H et al., *Routledge Companion to Education*, Llundain: Routledge.

- Dahlberg, G., Moss, P. a Pence, A. (2006) *Beyond Quality in Early Childhood Education and Care: languages of evaluation*, Llundain: Routledge.
- Daniels, H. (2001) *Vygotsky and Pedagogy*, Llundain: Routledge.
- APADGOS (2008) *Datblygiad Creadigol*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Addysgeg Dysgu ac Addysgu*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Datblygiad Mathemategol*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Arsylwi ar Blant*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Datblygiad Corfforol*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Chwarae/Dysgu Gweithredol: trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS (2008) *Datblygu'r Gymraeg*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Deci, E. a Ryan, R. (2002) *Handbook of Self-Determination Research*, University of Rochester Press.
- DeVries, R. (1997) Piaget's social theory, *Educational Researcher*, 26 (2).
- Diamond, I. (2008) Rhagair. Yn Brown, P., Lauder, H. ac Ashton, D. (Gol.) (ar ran TLRP) *Education, globalization and the knowledge economy: a commentary by the TLRP*, Llundain: IOE.
- Duncan, G. J., Dowsett, C. J., Claessens, A., Magnuson, K., Huston, A.C., Klebanov, P., Pagani, L., Feinstein, L., Engel, M., Brooks-Gunn, J.,

- Sexton, H., Duckworth, K., a Japel, C. (2007) School Readiness and Later Achievement, *Developmental Psychology*, 43 (6): 1428-1445.
- Dweck, C.S. (2000) *Self-theories: their role in motivation, personality and development*, Hove, East Sussex: Psychology Press.
- Einarsdottir, J. (2006) Between two Continents, Between Two Traditions: Education and Care in Icelandic Preschools. In J. Einarsdottir and J.T. Wagner (Eds), *Nordic Childhoods and Early Education*, Greenwich, Connecticut: Information Age Publishing.
- Geake, J. (2008) Neuromythologies in Education, *Educational Researcher*, 50 (2): 123-133.
- Goleman, D. (1999) *Working with Emotional Intelligence*, Llundain: Bloomsbury.
- Goouch, K. & Bryan, H. (2006) Pedagogical Connections, Boundaries and Barriers: the Place of Travel in Teachers' Professional Development, *New Zealand Research in Early Childhood Education Journal*, 9: 81 -90.
- Trysorlys EM (2011) *The Magenta Book: Guidance for evaluation*, Llundain: Trysorlys EM.
- Howard-Jones, P. (2010) *Introducing Neuro-educational Research: neuroscience, education and the brain*, Llundain: Taylor a Francis.
- James, A. a James, A. (2008) *Key Concepts in Childhood Studies* (Key Concepts), Llundain: Sage.
- Jordan, B (2009) Scaffolding Learning and Co-constructing understandings. Yn A. Anning, J. Cullen a M. Fleer (Gol.) *Early Childhood Education* (2^{il} Argraffiad), Llundain: Sage.
- Kwon, Y. (2002) Changing Curriculum for Early Childhood Education in England. *Early Childhood Research and Practice* Cyf.4 (2) <http://ecrp.uiuc.edu/v4n2/kwon.html>
- Maynard, T. (2007) Forest Schools in Great Britain: an initial exploration, *Contemporary Issues in Early Childhood*, 8(4): 320-331.
- Maynard, T. a Chicken, S. (2010) Through a Different Lens: Exploring Reggio Emilia in a Welsh Context, *Early Years: An International Journal of Research and Development*, 30(1): 29-39.

- Maynard, T. a Waters, J. (2007) Learning in the Outdoor Environment: a missed opportunity? *Early Years*, 27(3): 255-265.
- Maynard, T., Waters, J. a Clement, J. (2011) Moving Outside: Further Explorations of child-initiated learning in the Outdoor Environment, *Education 3-13* (in press).
- Malaguzzi, L. (1993) No way. The hundred is there. Yn C. Edwards, L. Gandini, a G. Forman (Gol.) *The Hundred Languages of Children: The Reggio Emilia approach to early childhood education, 2-4*, Norwood, NJ: Ablex Publishing
- Melhuish, E.C. (2004) *A Literature Review of the Impact of Early Years Provision on Young Children, With Emphasis Given to Children from Disadvantaged Backgrounds. Prepared for the National Audit Office*. Llundain: Y Llyfrfa.
- Moll, L.C. a Greenberg, J.B. (1990) Creating zones of possibilities: combining social contexts for instruction. In L.C.Moll (Ed) *Vygotsky and Education, Instructional Implications and Applications of Sociocultural Psychology*, 319-48, Cambridge: CUP.
- Morris, M. a McCrindle, L (2010) *Archwilio Trosglwyddiadau Addysg Disgyblion 6 i 8 Oed yng Nghymru, Ymchwil Gymdeithasol rhif 01/2010*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- NAEYC (2009) *Position Statement on Developmentally Appropriate Practice*, <http://www.naeyc.org/DAP>.
- CCC (2001a) *Y Wlad sy'n Dysgu*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- CCC (2001b) (Adroddiad 'Hanney') *Gosod y Sylfaen: Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar gyfer Plant Teirblwydd*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- CCC (2003a) *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3 i 7 oed*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- CCC (2003b) *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- CCC (2006) *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- Nutbrown, C. (2011) *Threads of Thinking: schemas and young children's learning*, Llundain: Sage.
- O'Loughlin, M. (2009) *The Subject of Childhood*, Efrog Newydd: Peter Lang Inc.
- OECD (2004) *Five Curriculum Outcomes (Starting Strong, Curriculum and Pedagogies in Early Childhood Education and Care)*, OECD.
- OECD (dim dyddiad) *Encouraging Quality in Early Childhood Education and Care (ECEC) Research Brief: Curriculum Matters*
www.oecd.org/dataoecd/54/55/48308711.pdf
- Phillips, D. ac Ochs, K. (2004) Researching Policy Borrowing: some methodological challenges in comparative education, *British Educational Research Journal*, 30(6): 773-784.
- Piaget, J. ac Inhelder, B. (1969) *The Psychology of the Child*, New York: Basic Books.
- Powell, S. (2009) The Value of Play: Construction of Play in Government Policy in England, *Children & Society*, 23: 29-42.
- Ritchie, J. a Spencer, L. (2002) Qualitative Data Analysis for Applied Policy Research. Yn A.M. Huberman a M.B. Miles (Gol.) *The Qualitative Researcher's Companion: Classic and Contemporary Readings*, Llundain: Sage.
- Robson, S. (2006) *Developing Thinking and Understanding in Young Children: an introduction for students*, Llundain: Routledge.
- Rogoff, B. (2003) *The Cultural Nature of Human Development*, Rhydychen: OUP.
- Schweinhart, L. J. a Weikart, D.P. (1997), The High/Scope Preschool Curriculum Comparison Study Through Age 23, *Early Childhood Research Quarterly*, Cyf. 12, 117-143.
- Siegler, R.S. (1998) *Children's Thinking* (3^{ydd} Argraffiad), Upper Saddle Ridge, NJ: Prentice Hall.
- Siegler, R.S. (2000) The Rebirth of Children's Learning, *Child Development*, 71(1): 26-35.
- Siraj-Blatchford I. (1999) Early Childhood Pedagogy: Practice, Principles and Research. Yn P. Mortimore (Gol.) *Understanding Pedagogy and its Impact on Learning*. Llundain: Paul Chapman.

- Siraj-Blatchford, I. (2012) *Adolygiad (sydd heb ei ariannu) annibynnol a chyflym o'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (CDAP) ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Muttock, S., Gilden, R. a Bell, D. (2002) *Researching Effective Pedagogy in the Early Years, Research Report 356*, Nottingham, England: DfES.
- Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F. (2005) *Monitro a Gwerthuso Gweithredu Prosiect y Cyfnod Sylfaen (MEEIFP) yn Effeithiol Ledled Cymru – Adroddiad Terfynol Peilot Blwyddyn 1*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Smith, F. (1931) *History of English Elementary Education 1760-1902*, Llundain: University of London Press.
- Srivastava, P. a Hopwood, N. (2009) A Practical Iterative Framework for Qualitative Data Analysis, *International Journal of Qualitative Methods*, 8(1): 76-84.
- Vygotsky, L. (1978) *Mind in Society*, Cambridge, MA: Harvard University Press.
- Walkerdine, V (1990) *School Fictions*, Llundain: Verso.
- Waters, J. a Begley, S. 2007. Supporting the development of risk-taking behaviours in the Early Years: an exploratory study, *Education 3-13*, 35(4): 365-377.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- White, G. a McCrindle, L. (2010) *Interim Evaluation of Flying Start, Social Research no. 03/2010*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Wood, D a Wood, H. (1996) Vygotsky, Tutoring and Learning, *Oxford Review of Education*, 22(1): 5-16.
- Wood, D.J., Bruner, J.S. a Ross, G. (1976) The role of tutoring in problem-solving, *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 17: 89-100.

Atodiad A. Fframwaith ar gyfer Dadansoddi Dogfennaeth y Cyfnod Sylfaen

	Y Plentyn sy'n Datblygu	Y Plentyn Cymdeithasol (mewn cyd-destun diwylliannol)
Pryder sylfaenol:	Datblygiad plant	Mae plant wedi byw profiadau fel rhan o deulu, cymuned a diwylliant; hunangysyniad, hunan-barch
Damcaniaethau dysgu cysylltiedig:	Seicoleg luniadaethol/ddatblygiadol	Cymdeithasol-ddiwylliannol
Syniadau allweddol:	Mae dysgu yn dibynnu ar y broses naturiol o ddatblygu ac aeddfedu; mae'n adeiladu ar ddealltwriaeth bresennol; datblygiad llinol a mesuradwy	Mae dysgu yn trawsnewid datblygiad; ymgorfforir dysgu a datblygiad o fewn diwylliant a chyd-destun ac maent yn dibynnu arnynt; mae ffocws ar gyfranogi, hawliau, grymuso, agweddau dysgu cadarnhaol; iaith a chyfathrebu
Creu plant fel:	Llunwyr ystyr gweithredol Unigolion unigryw Gwyddonydd unigol yn gweithredu ar y byd	Llunwyr ystyr gweithredol, asiantau cymdeithasol, dinasyddion
Cwricwlwm ac addysgeg:	Y plentyn sydd wrth wraidd y dysgu (canolbwyntio ar y plentyn); cyfannol; chwarae; dysgu gweithredol profiadol; darganfod	Mae dysgu yn dibynnu ar berthnasoedd; cwricwlwm newydd; chwarae, rhyngweithio cymdeithasol; archwilio; creadigrwydd; grymuso
Gweithgareddau/profiadau:	Wedi'u strwythuro gan yr oedolyn/wedi'u dechrau gan y plentyn	Wedi'u dechrau gan y plentyn, wedi'u cefnogi/hymestyn gan yr oedolyn; ffocws ar siarad a chreu ystyr
Dosbarthiad a fframio¹⁸:	Dosbarthiad gwael a fframio gwael	Dosbarthiad gwael iawn/gwael a fframio cymedrol

¹⁸ Gweler Bernstein 1981, 2000. Mae 'dosbarthiad' yn cyfeirio at y graddau y caiff ffiniau pwnc eu cynnal o fewn y cwricwlwm – byddai dosbarthiad cryf yn un sydd wedi'i wahanu yn bynciau unigol; byddai dosbarthiad gwael yn un lle caiff pynciau eu hintegreiddio. Mae 'fframio' yn cyfeirio at leoliad rheolaeth mewn perthynas ag addysgeg: byddai fframio cryf yn addysgeg sy'n cael ei rheoli'n llym gan athro tra byddai fframio gwael yn un lle mae plant yn cael mwy o ryddid.

Rôl yr ymarferwr:	Paratoi amgylchedd priodol i hwyluso a chefnogi dysgu; arsylwi; gwerthuso cynnydd yn unol â cherrig milltir neu gamau; cefnogi dysgu gwahaniaethol	'Gwranddo'; sgaffaldio; arwain; modelu; ymestyn; ymgysylltu â chwarae a dysgu plant; dogfennu ac archwilio damcaniaethau, profiadau, gweithredoedd a rhyngweithio plant
Perthnasoedd oedolyn/plentyn:	Dim pwyslais	Perthnasoedd cynnes, ymatebol a dilys
Rhieni/gofalwyr:		Perthnasoedd, partneriaeth agos
Tystiolaeth yn deillio o:	Arfer graddol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn/meithrinfa draddodiadol	Lleoliadau cyn-ysgol Reggio Emilia; Te Whāriki.
Mae terminoleg allweddol yn cynnwys:	Twf, rhyddid, meithrin, sgema, naturiol; cerrig milltir, camau, diriaethol i haniaethol; cyffredin, arfarnol; parodrwydd; cyfannol; 'priodoldeb' i'r cam datblygu	Perthnasoedd, cyfranogiad, llais, lles/hunan-barch; rhieni, teuluoedd a chymunedau, diwylliant, cynhwysiant, chwarae, gweithgareddau dilys, ystyr, stori, taith dysgu ar y cyd

Atodiad B. Dadansoddiad Manwl o Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen

1 Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth

Ddiwylliannol

Datganiad ffocws: Mae'r datganiad ffocws rhagarweiniol yn pwysleisio canologrwydd y maes dysgu hwn ac y dylid ei ddatblygu trwy 'gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu profiadol ar draws y cwricwlwm'. Mae'r maes dysgu hwn yn cynnwys plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthnasoedd gyda phobl eraill; cael eu hannog i ddatblygu hunan-barch, credoau personol a gwerthoedd moesol; ac ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a goddefgarwch tuag atynt yn ogystal â'u hunaniaeth a'u traddodiadau Cymreig eu hunain. Cymhelliant plant a'u hymrwymiad i ddysgu – anogir eu hagweddau dysgu cadarnhaol, ac fe gaiff plant eu cefnogi i ddod yn 'ddysgwyr a meddylwyr hyderus a chymwys' (tud.15).

Sgiliau ac ystod: Mae'r datganiad ffocws yn cyd-fynd yn fras â'r eitemau 'sgiliau ac ystod' yn ogystal ag annibyniaeth plant mewn hylendid personol (fel yn y Canlyniadau Dymunol).

Dull: Mae'r arweiniad yn adlewyrchu sgiliau'r Fframwaith yn fras, ac yn amlinellu datblygiad a phrofiadau priodol plant mewn meysydd datblygiad personol, datblygiad cymdeithasol, datblygiad moesol ac ysbrydol, a lles (hunaniaeth, hunan-barch a lles corfforol). Mae'n cynnwys arweiniad penodol ar ddysgu/agweddau dysgu, sy'n ymgorffori annibyniaeth. Mae'r adran hon yn cyfeirio at waith Ferre Laevers mewn perthynas â 'chyfranogiad' plant (tud.20). Gallai annog plant i fod yn bartneriaid gweithredol yn y broses ddysgu ddangos parch at hawliau plant (tud.24). **Cynnydd mewn dysgu:** Mae hyn yn amlinellu'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i blant 'pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol' (tt.28-31). Ymgorfforir agweddau dysgu i ddysgu, ac annibyniaeth, o fewn datblygiad personol. Mae'r rhain yn amlinellu sgiliau'r Fframwaith yn agos ar gyfer y maes dysgu hwn gyda nifer fach o ddatganiadau sydd wedi'u hehangu ar lefelau uwch y continwwm dysgu (tt.28-31).

Canlyniadau: Mae lefelau 1-3 yn amlinellu Canlyniadau Dymunol yn fras. Mae lefelau 4-6 yn ymgorffori rhai agweddau ar y Fframwaith Addysg

Bersonol a Chymdeithasol: Cyfnodau allweddol 1-4 yng Nghymru, ACCAC, 2000 ond ehangwyd y rhain yn sylweddol.

At ei gilydd, mae'r maes dysgu hwn yn mabwysiadu dull sydd ychydig yn llai datblygiadol na'r rhan fwyaf o feysydd dysgu eraill.

2 Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datganiad ffocws: Mae hwn yn nodi bod plant yn datblygu eu sgiliau iaith trwy siarad, arwyddo/cyfathrebu a gwranddo. Dylid annog plant i gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau, i wrando ar bobl eraill ac ymateb iddynt. Dylent gael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen, deall confensiynau print a llyfrau a chael ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a phrofiadau ysgrifennu yn ogystal â datblygu ymwybyddiaeth o Gymru fel cenedl ddwyieithog, ac agweddau cadarnhaol tuag ati.

Sgiliau ac ystod: Mae'r maes dysgu yn ymgorffori datganiadau o'r Canlyniadau Dymunol, rhaglen astudio CA1 ar gyfer Saesneg a rhaglen astudio CA1 ar gyfer Cymraeg (2^{il} iaith). Mae'r sgiliau yn ehangu ar ddisgwyliadau, yn enwedig mewn perthynas ag ysgrifennu.

Y dull: Mae'r arweiniad ar ILICh yn ddatblygiadol eglur o ran dull. Mae rhai o'r gweithgareddau a allai gefnogi datblygiad plant a'r ystod o brofiadau y dylai plant eu cael ym mhob maes wedi'u hamlinellu. Caiff dilyniant eang ei seiliau mewn darllen a chmau ysgrifennu eu nodi fel gweithgareddau sy'n cefnogi cydsymudiad llaw a llygad plant, eu sgiliau echddygol bras a'u sgiliau llawdrin manwl. Disgwyllir y bydd plant yn cael eu haddysgu ynghylch ffoneg 'mewn ffordd strwythuredig a dychmygus i sicrhau continwwm graddol datblygiad ffonig' (tud.14), y bydd camau darllen cynnar yn symud ymlaen 'o fewn rhaglen ddarllen gynhwysfawr' (tud.15), ac na fydd plant yn cael eu gwneud i ddarllen trwy gynllun masnachol yn unig (tud.16).

Cynnydd mewn dysgu: Mae hyn yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y dylai plant wneud cynnydd ynddynt (tt.32-37). Mae'r datganiadau cynnydd llefaredd yn amlinellu datganiadau 'sgiliau ac ystod' y Fframwaith. Mewn darllen, mae'r datganiadau cynnydd hefyd yn amlinellu'r datganiadau 'sgiliau ac ystod' ond caiff rhai ohonynt (e.e. ffoneg) eu hehangu o ran eu manylder a'u cwmpas. Nodir nad un dull o ddarllen sy'n cael ei hyrwyddo gan y dylid cefnogi plant i ddarllen i gael ystyr a datblygu geirfa

olwg hefyd. Nodir estyniadau tebyg o fewn ysgrifennu sy'n ymwneud â chynnwys (a champau datblygiadol) mewn sillafu a llawysgrifen, er enghraifft.

Canlyniadau: Mae'r CD yn amlinellu canlyniadau 1 i 3 y CS yn fras er bod y CD yn cyfeirio at ddefnyddio offer gwneud marciau at ystod o ddibenion: peintio, tynnu llun, ysgrifennu, sgriblo (CD, tud.5), tra bod canlyniad 3 y CS yn honni bod plant 'yn dal offer ysgrifennu yn briodol, yn gwahaniaethu rhwng llythrennau ac yn dechrau ysgrifennu mewn ffordd gonfensiynol (tud.46). Mae lefelau 4-6 y CS yn amlinellu lefelau 1-3 CA1.

Mae'r maes dysgu hwn yn ddatblygiadol eglur ac yn fanwl mewn perthynas â chynnwys.

3 Datblygiad Mathemategol

Y datganiad ffocws: Mae hyn yn nodi bod plant, yn y CS, yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg trwy weithgareddau llafar, ymarferol a chwarae, gan ddefnyddio a chymhwyso mathemateg, er enghraifft mewn tasgau ymarferol a phroblemau bywyd go iawn mewn amgylcheddau dan do ac awyr agored. Wrth adlewyrchu'r pwyslais cynnar ar siarad, cyfathrebu a gwrando mewn ILICh, nodir mai 'gwaith llafar fydd llawer o waith y plant' (tud.23) yn y CS ac y dylai plant ddatblygu ystod o ddulliau hyblyg ar gyfer gweithio'n feddyliol gyda rhif cyn symud ymlaen i ddefnyddio dulliau mwy ffurfiol o weithio a chofnodi 'pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol' (tud.23).

Sgiliau ac Ystod: Er bod y 'sgiliau' a ddisgrifir yn gymharol fras a chryno, mae'r 'ystod' yn amlinellu'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i blant mewn rhif; mesuriadau ac arian; siâp, lleoliad a symudiad; a thrin data. Mae'r datganiadau 'ystod' yn weddol fanwl o ran cynnwys. O gymharu â datganiadau ystod eraill, mae datblygiad mathemategol yn rhoi pwyslais ar chwarae (heblaw chwarae gyda siapiau) ond mae'n cynnwys ymchwilio ac arbrosi.

Y dull: Mae'r ddogfen arweiniad yn pwysleisio arwyddocâd dysgu cysyniadau mathemategol trwy chwarae, siarad, ymchwilio, cymryd rhan mewn profiadau perthnasol, uniongyrchol. Pwysleisir dull datblygiadol. Rhoddir cynnwys ac enghreifftiau o weithgareddau yn ymwneud â chynnydd plant ar hyd y continwmm dysgu ym mhob un o'r prif feysydd mathemateg. Disgrifir rhif fel

'Un o'r cysyniadau mathemategol pwysicaf i blant eu caffael' (tud.10).

Cynnydd mewn Dysgu: Mae hwn yn amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd plant yn gwneud cynnydd ynddynt (tt.35-38). Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys disgrifiadau manylach o gynnwys sy'n cyd-fynd yn fras â'r datganiadau 'ystod'. Caiff rhai eu hehangu ac maent yn cynnwys mwy o fanylder ar lefelau uwch y continwrm dysgu.

Canlyniadau: Mae datganiadau CD yn cysylltu â datganiadau lefel 2 a lefel 3 y CS. Mae datganiad lefel 3 y CS yn canolbwyntio ar rif a chyfrifiadau ac mae'n fwy eglur yn hyn o beth nag agweddau ehangach ar ddatblygiad mathemategol/ cysyniadau mathemategol. Mae lefelau 4, 5 a 6 y CS yn cysylltu drosodd i lefelau 1, 2 a 3 y CC.

Mae'r maes dysgu hwn yn ddatblygiadol o ran dull ac yn fanwl o ran cynnwys.

4 Datblygu'r Gymraeg (2^{il} iaith)

Y datganiad ffocws: Mae hwn yn nodi y dylai plant wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad, cyfleu eu hanghenion ac ymateb yn Gymraeg. Bydd sgiliau'n cael eu datblygu trwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau hwyliog, ymarferol ac wedi'u cynllunio, gan ddefnyddio ystod o symbyliadau ac adeiladu ar brofiadau blaenorol plant mewn amgylcheddau dan do ac awyr agored diogel ac ysgogol. Dylid cefnogi cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau darllen, gwneud marciau a datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg hefyd.

Sgiliau ac ystod: Mae hon yn fersiwn sydd wedi'i haddasu ychydig o'r datganiadau 'sgiliau ac ystod' ar gyfer ILCh.

Y dull: Mae'r ddogfen arweiniad yn nodi'r ymrwymiad i sefydlu Cymru sy'n gwbl ddwyieithog gyda phob plentyn yn teimlo'i fod yn perthyn i Gymru ac yn mwynhau profiadau yn Gymraeg. Ystyrir bod cael hunaniaeth (Gymreig) yn hollbwysig yn fyd-eang. Amlinellir datblygiad eang profiadau dysgu iaith plant. Bwriedir i weithgareddau dysgu ychwanegu at y rheiny yn yr arweiniad ar ILCh. Rhoddir arweiniad ar sut i greu amgylchedd dwyieithog.

Cynnydd mewn dysgu: Mae hwn yn amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai plant wneud cynnydd ynddynt (tt.43-46). Mae cynnydd mewn llefared, darllen ac ysgrifennu yn adlewyrchu fersiwn wedi'i haddasu o'r fersiwn sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ILCh, i bob pwrpas.

Canlyniadau: Er bod clywed storïau a chwedlau am Gymru, er enghraifft, yn cael ei annog, nid oedd datblygu'r Gymraeg yn cael ei gefnogi'n amlwg yn y CD. Mae lefelau 4-6 y CS yn amlinellu datganiadau CA1 ar gyfer lefelau 1-3 Cymraeg (2^{il} iaith) yn uniongyrchol gyda'r gair 'disgybl' yn cael ei ddisodli gan 'plant'.

Mae'r maes dysgu hwn yn ddatblygiadol o ran y dull ac yn fanwl mewn perthynas â chynnwys.

5 Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Datganiad ffocws: Dylai chwilfrydedd plant am y byd o'u cwmpas gael ei gefnogi trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu profiadol, ymholi ac ymchwilio yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored. Gan ddefnyddio eu synhwyrau, dylid eu hannog i fwynhau dysgu trwy archwilio, ymholi, arbrofi, ac ati, i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch at bopeth byw a'r amgylchedd; ac i ddatblygu a chyfleu eu syniadau, eu barnau a'u teimladau eu hunain gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd.

Sgiliau ac ystod: Mae'r datganiadau 'sgiliau ac ystod' yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r datganiad ffocws rhagarweiniol. Mae'r rhain yn cysylltu'n fras â CD ac agweddau ar lefelau 4-6 rhaglenni CA1 ar gyfer Daearyddiaeth, Hanes, Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg i raddau llai.

Y dull: Mae'r deunydd arweiniad yn cyd-fynd â'r datganiad ffocws a'r fframwaith sgiliau, gan bwysleisio dull ymchwiliol archwiliadol.

Cynnydd mewn dysgu: Mae hwn yn amlinellu'r wybodaeth, y sgiliau a'r prosesau a fydd yn annog plant i fod yn chwilfrydig a 'darganfod' a'r cyfleoedd y dylid eu rhoi iddynt o fewn pob agwedd ar ddysgu (tt.26-28). Mae datganiadau ar gyfer pob maes yn ailadrodd y rheiny sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau 'ystod' y CS ar gyfer y maes dysgu hwn.

Canlyniadau: Mae lefelau 1-3 yn cyd-fynd yn fras â CD ond maent yn canolbwyntio mwy ar sgiliau a phrosesau. Mae canlyniadau 4-6 yn gysylltiedig â CA1, eto gyda ffocws penodol ar sgiliau a chysyniadau.

Mae'r maes dysgu yn adlewyrchu dull llai datblygiadol na'r rhan fwyaf ohonynt.

6 Datblygiad Corfforol

Datganiad ffocws: Dylid annog plant i fwynhau gweithgarwch corfforol a dylid hyrwyddo hyn, a'u datblygiad corfforol, ar draws pob maes dysgu, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r datganiad yn cyfeirio at synnwyr plant o hunaniaeth a'i berthynas gyda hunanddelwedd, hunan-barch a hyder ac at ddatblygiad personol plant a phwysigrwydd diet, gorffwys, cwsg ac ymarfer corff.

Sgiliau ac ystod: Mae'r datganiad ffocws yn cyd-fynd â'r datganiadau 'sgiliau ac ystod'. Rhoddir pwyslais ar archwilio, ymchwilio a chwarae – gan gynnwys chwarae wedi'i ddechrau gan y plentyn.

Dull: Mae'r ddogfen arweiniad yn nodi'r ffocws ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Nodir y cyswllt agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol a rhwng sgiliau corfforol, corff ac ymwybyddiaeth ofodol plant a'u datblygiad personol a chymdeithasol, eu hyder a'u hunan-barch. Rhoddir dilyniant eang o ddatblygiad corfforol. Amlinellir datblygiad chwarae corfforol a sgiliau corfforol, a chyfleoedd y dylid eu rhoi i blant er mwyn cefnogi'r rhain. Cyfeirir at 'chwarae corfforol' fel 'chwarae anturus a chorfforol' yn y Fframwaith. Mewn perthynas â chefnogi datblygiad sgiliau echddygol bras, mae'r dilyniant yn symud o chwarae dan do a chwarae yn yr awyr agored i gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gymnasteg a dawns (tt.13-14). Ehangir datganiadau 'iechyd, ffitrwydd a diogelwch' y Fframwaith i gynnwys bwyta'n iach a lles (nid yw ffitrwydd wedi'i gynnwys yn y teitl) (tud.19).

Cynnydd mewn dysgu: Mae hwn yn rhoi amlinelliad cryno o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd plant yn gwneud cynnydd ynddynt (tt.23-24). Mae'r datganiadau hyn yn cyd-fynd yn fras â datganiadau 'sgiliau ac ystod' y CS, ond yn ehangu arnynt.

Canlyniadau: Mae CD yn amlinellu 1-3 ond mae canlyniadau'r CS yn fwy penodol ac yn cynnwys cyfeiriadau at asesiadau o ddatblygiad corfforol plant – cerrig milltir datblygiadol. Er enghraifft, canlyniad 2 - 'gall sefyll ar un droed am ennyd', 'gall adeiladu tŵr o naw neu ddeg o friciau' (tud.54), 'gall dorri papur yn ddau ddarn gan ddefnyddio siswrn', 'dal pensil/creon yn aeddfed a chael rheolaeth dda' (tud.54). Mae lefelau 4-6 yn gyffredinol yn adlewyrchu pwyslais y CS ar ddatblygiad plant yn hytrach nag addysg gorfforol – e.e. lefel 4 sefyll a rhedeg ar flaenau'r traed, neidio tuag yn ôl a rhedeg ar un droed.

Mae'r maes dysgu hwn yn ddatblygiadol eglur o ran dull.

7 Datblygiad Creadigol

Datganiad ffocws: Dylai plant fod yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd ar draws y cwricwlwm yn barhaus gyda'u 'chwilfrydedd a'u hawydd naturiol i ddysgu' wedi'i symbylu gan brofiadau synhwyrdd yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored. Dylai plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol, archwilio ystod eang o symbyliadau a datblygu eu gallu i gyfathrebu a mynegi eu syniadau creadigol a myfyrio ar eu gwaith.

Sgiliau ac ystod: Mae'r datganiadau hyn yn pwysleisio archwilio elfennau, prosesau a thechnegau allweddol (o dan sgiliau) mewn celf, crefft a dylunio a cherddoriaeth. Cyfeirir at berfformio symudiadau a phatrymau o ddawnsiau traddodiadol Cymreig a diwylliannau eraill.

Dull: Nodir ar ddechrau datblygiad bod y broses creadigol yn bwysicach nag unrhyw ganlyniad gan ei bod yn galluogi plant i ddatblygu'r broses o feddwl a chyfleu syniadau mewn ffordd symbolaidd (tud.5). Rôl yr ymarferwr yw hyrwyddo her, arsylwi ac ymyrraeth/cymorth, monitro ac gwerthuso (tud.10). Mae'r profiadau a'r dilyniant bras y rhoddir manylion amdanynt ym mhob maes yn cyd-fynd â'r rheiny sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau 'sgiliau ac ystod' y Fframwaith ac yn ehangu arnynt, ond mae hefyd yn cynnwys defnyddio TGCh.

Cynnydd mewn dysgu: Mae hwn yn rhoi amlinelliad cryno o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd plant yn gwneud cynnydd ynddynt (tt.26-27). Mae'r rhain yn ailadrodd y datganiadau ystod yn y ddogfen Fframwaith.

Canlyniadau: Canolbwyntiodd y CD, er enghraifft, ar ymateb i, a mwynhau rhythm mewn cerddoriaeth a chreu cerddoriaeth, mwynhau chwarae rôl, ymateb i awgrymiadau ar gyfer dawns ac efelychu symudiadau, defnyddio ystod o ddeunyddiau i greu delweddu cynrychioliadol, gwahaniaethu rhwng synau (megis anifeiliaid, lleisiau) heb gliwiau gweledol. Mae canlyniadau'r CS yn adlewyrchu'r rhain ond maent yn fwy manwl a phenodol ar lefelau 1-3, gan gyfeirio, er enghraifft, at elfennau cerddorol. Mae lefelau 4-6 yn amlinellu'n fras lefelau 1-3 CA1.

Mae'r maes dysgu hwn yn llai datblygiadol o ran dull na'r rhan fwyaf o feysydd dysgu eraill.